# Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru 2005

**Ar gael ar ffurfiau eraill**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn ar ffurfiau eraill, megis print bras, Braille, tâp sain ac ar ddisg. Cysylltwch â:

Communications Department, Joseph Rowntree Foundation, The Homestead, 40 Water End, York YO30 6WP.
Ffôn: 01904 615905 E-bost: info@jrf.org

# Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru 2005

Peter Kenway, Naomi Parsons, Jane Carr a Guy Palmer

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

New Policy Institute
poverty.org.uk

Caiff deunydd a warchodir gan Hawlfraint y Goron ei atgynhyrchu gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. Cafodd llawer o'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ei ddarparu trwy Archif Data'r DU.

Nid yw casglwyr gwreiddiol y data na'r Archif yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am y dadansoddiadau a gyflwynir yma.

Mae hyn hefyd yn wir am yr holl gyfresi data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai a gafwyd o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac eraill.

Mae **Sefydliad Joseph Rowntree** wedi rhoi cymorth i'r prosiect hwn fel rhan o'i raglen o brosiectau ymchwil a datblygu arloesol, y mae'n gobeithio y byddant o werth i wneuthurwyr polisïau, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Serch hynny, mae'r ffeithiau a gyflwynir a'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn eiddo i'r awduron ac nid ydynt o anghenraid yn eiddo i'r Sefydliad.

Sefydliad Jospeh Rowntree Foundation
The Homestead
40 Water End
York YO30 6WP
Gwefan: www.jrf.org.uk

© New Policy Institute 2005

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2005 gan Sefydliad Joseph Rowntree

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol trwy ei lungopïo neu drwy ddefnyddio dulliau electronig. Fel arall, ni ellir atgynhyrchu nac addasu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, na chadw unrhyw ran ohono mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ran ohono trwy unrhyw ddull, boed yn electronig, yn fecanyddol neu drwy lungopïo neu unrhyw ddull arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Sefydliad Joseph Rowntree.

ISBN 1 85935 395 9 (clawr meddal, rhifyn Saesneg)
1 85935 396 7 (pdf, rhifyn Saesneg: ar gael yn www.jrf.org.uk)
1 85935 406 8 (clawr meddal, rhifyn Cymraeg)
1 85935 407 6 (pdf, rhifyn Cymraeg: ar gael yn www.jrf.org.uk)

Mae cofnod catalog CIP ar gyfer yr adroddiad hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig.

Dyluniwyd gan Adkins Design

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn, neu o unrhyw gyhoeddiadau eraill gan JRF, ar gael naill ai o wefan JRF (www.jrf.org/bookshop/) neu oddi wrth ein dosbarthwr, York Publishing Services, 64 Hallfield Road, York YO31 7ZQ (Ffôn: 01904 430033).

# Cynnwys


**Diolchiadau** 7
**Cyflwyniad** 8
**Crynodeb** 10

## 1 Incwm 19

**Unigolion ar incwm isel** 20
1 Tueddiadau mewn incwm isel 22
2 Y risg o incwm isel fesul grŵp oedran 24
3 Y risg o incwm isel fesul math o deulu a statws gwaith 26

**Dosbarthiad incwm isel** 28
4 Incwm isel fesul isranbarth yng Nghymru 30
5 Map: dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth 32

## 2 Addysg 35

**Plant ag ychydig o gymwysterau** 36
6 Addysg ac amddifadedd 38
7 Ychydig o gymwysterau yn 16 mlwydd oed 40

**Addysg oedolion** 42
8 Ychydig o gymwysterau yn 17, 19 a 24 mlwydd oed 44
9 Mynediad i addysg uwch 46
10 Cyfranogiad oedolion 48

## 3 Gwaith 51

**Diweithdra a bod heb waith** 52
11 Aelwydydd heb waith 54
12 Yn dymuno cael gwaith â thâl 56
13 Pobl heb waith yn ôl oedran 58

**Rhwystrau i weithio** 60
14 Sgiliau a chymwysterau 62
15 Cyfleoedd a chymorth 64

**Tâl isel** 66
16 Tâl isel yn ôl rhyw 68
17 Lleoliad tâl isel 70

**Ansawdd y swyddi** 72
18 Map: dibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu 74
19: Ansicrwydd yn y gwaith 76
20: Cymorth yn y gwaith 78

## 4 Iechyd 81

**Iechyd a lles plant** **82**
21 Difreintedd adeg geni 84
22 Afiechyd ymhlith plant 86

**Morbidrwydd a marwolaeth cyn pryd** **88**
23 Anabledd ac afiechyd hirdymor 90
24 Map: lleoliad afiechyd hirdymor 92
25 Marwolaeth cyn pryd 94

**Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol** **96**
26 Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol 98

## 5 Gwasanaethau 101

**Tai: argaeledd a digartrefedd** **102**
27 Digartrefedd 104

**Tai: ansawdd a chymdogaeth** **106**
28 Ansawdd tai 108
29 Anfodlonrwydd ar y gymdogaeth 110

**Mynediad at wasanaethau ariannol** **112**
30 Eithrio ariannol 114

**Mynediad at gludiant** **116**
31 Digonolrwydd cludiant cyhoeddus 118
32 Dibyniaeth ar gar ar gyfer gwaith 120

## Nodiadau 122

# Diolchiadau

Mae'r adroddiad hwn wedi golygu cydweithio helaeth â nifer o bobl a chyrff yng Nghymru. Yn arbennig, hoffem ddiolch i aelodau o'r grŵp ymgynghorol a gynullwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree am yr holl amser a neilltuwyd ganddynt, am eu cyngor, ac am eu sylwadau manwl ar y fersiynau drafft. Diolch felly i Dave Adamson, Prifysgol Morgannwg; Adele Baumgardt, y Comisiwn Cyfle Cyfartal; Chris Goulden, Sefydliad Joseph Rowntree; Mike Harmer, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Alan Jackson, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Jonathan Price, Llywodraeth Cynulliad Cymru; John Puzey, Shelter Cymru; Viv Sugar, Sefydliad Joseph Rowntree; a Victoria Winckler, Sefydliad Bevan.

Fe roddodd llawer o bobl eraill yng Nghymru o'u hamser i siarad â ni am yr hyn sydd yn eu tyb hwy'n gyfystyr â phroblemau tlodi ac eithrio cymdeithasol. Y grŵp cyntaf o blith y rhain yw'r cyfranogwyr o'r tair cymuned y bu i ni gynnal grwpiau trafod ynddynt yn ystod cyfnodau olaf y prosiect. Hoffem hefyd ddiolch i: Huw Brodie, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Bryan Collis, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Wayne David, AS; Robin Davies, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru; Ben Dideen, Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon; Mark Drakeford, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Alice Greenlees, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; John Harrington, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys; Sandra Hayes, Cyngor Dinas Abertawe; Tim Hooper, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Michelle Lenton-Johnson, Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon; Glyn Mathias, BBC Wales; Gareth Morgan, Llywodraeth Cynulliad Cymru; John Osmond, y Sefydliad Materion Cymreig; Adam Price, AS; Chris Ruane, AS; Julie Spiller, Prosiect Penyrenglyn, Treherbert; Mike Sullivan, y Ganolfan Polisi Cyhoeddus Genedlaethol, Prifysgol Abertawe; Chris Tudor Smith, Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Clare Whyley, y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol.

Cawsom gryn gymorth gyda data gan: Lindsey Kearton, Cyngor Defnyddwyr Cymru; Guto Malgwyn, Beaufort Research Ltd; Jenny Murphy, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru; Alison Jane Rees, ELWa; Sarah Richards, Cyngor Defnyddwyr Cymru; ac Ed Swires-Hennessy, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru. Hoffem hefyd ddiolch i'r ystadegwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ansawdd a chyflymder eu hymatebion i'r llu o ymholiadau a anfonwyd gennym.

Y cydweithwyr eraill yn y Sefydliad Policy Newydd (NPI) a gyfrannodd at yr adroddiad hwn yw Reem Akl, Alice Barrs, Isabel Jones, Anna MacDonald, a Scott Turnbull.

Yn olaf, rhaid diolch unwaith eto i staff Sefydliad Joseph Rowntree am gydosod y ddogfen anodd hon dan yr un amgylchiadau cyfyng ag arfer.

Fel erioed, gorwedd y cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, gan gynnwys unrhyw wallau ynddo, gyda'r awduron yn unig.

# Cyflwyniad

## Tlodi ac eithrio cymdeithasol

Nod yr adroddiad hwn yw manteisio ar rym ystadegau wrth ymdrin â phwnc tlodi ac eithrio cymdeithasol er mwyn amlygu'r problemau a wynebir gan leiafrif llethol y boblogaeth sy'n byw yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n dyddio o 1998 ac sydd, er ei bod fel arfer yn canolbwyntio ar Brydain gyfan, hefyd wedi cynnwys dau adroddiad ar yr Alban.

Mae incwm isel yn amlwg yn ganolog i'r pwnc yma: nifer y bobl ar incwm isel, wedi'i fesur mewn amryw ffyrdd, sydd wrth wraidd yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r adroddiad hwn yn mynd y tu hwnt i hynny, gan gael ei arwain gan y syniad cyfoes am dlodi sy'n golygu ei ystyried yn gyflwr sy'n bodoli pan fo rhywun yn byw heb dderbyn y cyfleoedd sy'n agored i'r dinesydd cyffredin, a chan gael ei arwain hefyd gan y syniad o eithrio cymdeithasol. Mae'r term hwn, a ddaeth i'r fei mewn dadleuon gwleidyddol ym Mhrydain ym 1997, wedi dod i orgyffwrdd â'r syniad eang am dlodi ond mae hefyd yn ei ymestyn mewn sawl cyfeiriad. Mae a wnelo un o'r rhain â phroblemau sy'n codi o bolisïau ac arferion amryw gyrff gan gynnwys darparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Ar yr un pryd, cyfyngir ar rychwant yr adroddiad gan y ffaith bod yn rhaid i'r pynciau a gynhwysir fod yn rhai sy'n debygol naill ai o achosi incwm isel neu o fod yn gysylltiedig ag incwm isel. Mae'r categori cyntaf yn cynnwys pynciau megis diffyg gwaith neu gwaith nad yw'n talu'n dda ac, yn eu tro, rhai o'r achosion, er enghraifft diffyg cymwysterau. Mae'r ail gategori'n cynnwys pynciau megis afiechyd, mynediad israddol at wasanaethau iechyd, ac anfodlonrwydd ar agweddau amrywiol ar gymdogaeth neu ardal rhywun. Yn yr achosion diwethaf hyn, mae'r adroddiad fel arfer yn mynd ati'n fwriadol i ddangos bod y broblem dan sylw'n un sy'n waeth, ar gyfartaledd, i grwpiau difreintiedig. Heblaw am incwm isel ei hun, mae rhai mesurau dirprwyol eraill a ddefnyddir i fesur difreintedd yn cynnwys dosbarth economaidd-gymdeithasol, deiliadaeth a statws cyflogaeth.

## Y tu mewn i Gymru

Mae i'r adroddiad hefyd ganolbwynt daearyddol cryf, sy'n adlewyrchu dyhead i sylwi ar wahaniaethau o fewn Cymru a gweld i ba raddau mae gwahanol agweddau ar ddifreintedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Mae tair lefel ddaearyddol yn yr adroddiad: ardaloedd lleol bychain (naill ai wardiau etholiadol neu unedau ystadegol sy'n perthyn i Gyfrifiad 2001 a elwir yn ardaloedd cynnyrch, y mae pob un ohonynt yn nodweddiadol yn cynnwys tua 300 o gartrefi); ardaloedd awdurdodau lleol, y mae 22 ohonynt yng Nghymru; ac isranbarthau, sy'n grwpiau o awdurdodau lleol. Mae'r isranbarthau hyn fel a ganlyn:

- Y Gogledd Ddwyrain – Sir y Fflint, Wrecsam
- Y Dwyrain – Powys, Sir Fynwy
- Y Cymoedd – Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Castell-nedd a Phort Talbot
- Caerdydd
- Y De – Casnewydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe
- Y Gorllewin – Sir Gaerfyrddin, Penfro, Ceredigion
- Y Gogledd Orllewin – Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych.

Yn ymarferol, mae'r defnydd o isranbarthau'n weddol gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o graffiau fel arfer yn dangos pob ardal awdurdod lleol ar wahân. Er mwyn helpu i ddarllen y graffiau yn yr adroddiad hwn, mae ardal awdurdod lleol Caerdydd ac ardaloedd y chwe awdurdod lleol yn y Cymoedd wedi'u cadw ar wahân.

Nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr ardaloedd sy'n elwa o raglen Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad. Gan fod y rhaglen yn dal yn y cyfnod cynnar, ychydig o wybodaeth y byddem yn debygol o allu'i chywain o'r ystadegau sy'n sail i'r rhan fwyaf o'r adroddiad hwn.

## Graffiau, testun a grwpiau trafod

Mae manteision ac anfanteision i'r ymdrech i roi min ar gysyniadau 'tlodi' ac 'eithrio cymdeithasol', sy'n amwys ond eto wedi'u gwleidyddoli i'r fath raddau fel y gellir eu mesur. Ar y naill law, gall ystadegyn sydd wedi'i ddewis yn ddoeth fod yn ffordd syml a phwerus o gyfleu gwybodaeth am ffenomenon cymhleth. Ar y llaw arall, am yr union reswm ei fod yn ffenomenon, gall achosi i ddealltwriaeth ohono beidio â bod mor dda nac mor eglur.

Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r gwendid olaf hwn mewn amryw ffyrdd. Yn gyntaf, mae testun pob graff yn rhywbeth pendant a dealladwy. Yn ail, caiff y pynciau pwysicaf eu trin fwy nag unwaith. Yn drydydd, caiff yr holl ddangosyddion eu hategu gan ddau fath o destun sy'n cyd-fynd â hwy: yn gyntaf, yn y cyflwyniad pynciol i grŵp o ddau neu dri dangosydd sy'n gosod y cyd-destun, ac yn ail, mewn tudalen o 'bwyntiau allweddol' gyferbyn â phob dangosydd, sy'n rhoi'r prif bwyntiau yn y graffiau mewn geiriau ac yn ychwanegu gwybodaeth ategol o ffynonellau eraill. Yn ogystal â hynny, mae'r crynodeb o'r adroddiad yn cyflwyno cyfres o sylwebaethau'n ymwneud â detholiadau penodol o themâu.

Yn ogystal â'r deunydd ystadegol, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau ac arsylwadau a wnaed yn y tri grŵp trafod a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer y prosiect yn ystod mis Mai 2005 gan yr Athro Dave Adamson. Cafodd y grwpiau trafod eu cynnal mewn cyfleusterau cymunedol mewn tair ardal ac roeddent yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol. Sicrhawyd lefel dderbyniol ym mhob un o'r tri grŵp o ran cynrychioli pob oedran ac roedd gwahanol lefelau'n amlwg o ran yr ymwneud â rhaglenni cymunedol a chyfleoedd hyfforddi. Y tri grŵp oedd:

- lleoliad trefol yng nghanol dinas Caerdydd, lle mae lefelau uchel o ran amddifadedd a thai o ansawdd gwael
- cymuned yn rhan uchaf Cwm Rhondda, a nodweddir gan dai teras mewn perchenogaeth breifat sy'n agos iawn at dai cymdeithasol
- cymuned sy'n bennaf yn wledig mewn lleoliad anghysbell iawn ar ymyl gorllewinol Castell-nedd a Phort Talbot sydd â hanes o fwyngloddio fel y brif ffynhonnell cyflogaeth.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, roeddem yn aml yn cael y sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y grwpiau hyn yn ddiddorol ac yn gymorth i gysylltu'r deunydd haniaethol yma â phrofiadau uniongyrchol; felly mae detholiad ohonynt wedi'u cynnwys yn y cyflwyniadau i'r pynciau. Serch hynny, dylid pwysleisio mai safbwyntiau pleidiol yw'r rhain ac nad ffeithiau diymwad mohonynt.

Yn olaf, mae'r wefan sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn a'r adroddiadau eraill yn y gyfres hon – www.poverty.org.uk – yn cynnwys 80 o graffiau eraill yn ogystal â'r holl ddata a gyflwynir yma. Ond hyd yn oed wedyn, mae rhai meysydd y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn llawer llai â hwy nag a ddylai'n ddelfrydol. Yn arbennig, nid oes unrhyw graffiau'n ymwneud yn benodol â sefyllfa pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol. Nid yw'r broblem hon, sy'n ymwneud ag argaeledd data dibynadwy, yn unigryw i Gymru. Serch hynny, os yw ymchwil annibynnol yn darparu deunydd perthnasol, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y testun ategol.

# Crynodeb

Mae incwm isel yn amlwg yn ganolog i bwnc tlodi ac eithrio cymdeithasol: nifer y bobl sydd ar incwm isel, wedi'i fesur mewn amryw ffyrdd, yw testun y bennod gyntaf yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r adroddiad yn mynd ymhell y tu hwnt i hynny, gan ei fod yn cynnwys penodau dilynol ar addysg, gwaith, iechyd a lles, a mynediad at wasanaethau. Mae'r penodau wedi'u rhannu'n bynciau a'r pynciau wedi'u rhannu'n ddangosyddion, sydd fel arfer yn cynnwys pâr o graffiau a thestun cysylltiedig.

Yn dilyn rhestr o bwyntiau allweddol, mae'r crynodeb hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar y deunydd yn y prif adroddiad ar ffurf cyfres o sylwebaethau sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol o bobl:

- plant ac oedolion ifanc: tlodi a deilliannau addysgol
- oedolion o oedran gweithio sydd heb waith: tlodi a rhwystrau i weithio
- oedolion o oedran gweithio sydd mewn gwaith: tlodi a swyddi gwael
- pensiynwyr: tlodi a mynediad at wasanaethau.

Ar ddiwedd y crynodeb ceir tabl sy'n dangos graddiad pob awdurdod lleol yng nghyswllt amrediad o ddangosyddion y mae data ar lefel awdurdodau lleol ar gael ar eu cyfer.

Cyfeirir at ddangosyddion trwy ddefnyddio rhif a llythyren, gyda 2A er enghraifft yn cyfeirio at y graff uchaf (A) yn nangosydd 2. Caiff tri o'r dangosyddion – 5, 18 a 24 – eu cyflwyno ar ffurf mapiau yn hytrach na graffiau.

Caiff y deunydd yn yr adroddiad ei ategu gan wefan – www.poverty.org.uk – lle bydd yr holl ddangosyddion a'r graffiau'n cael eu diweddaru pan fydd data newydd ar gael.

## Pwyntiau allweddol

Mae cwympiadau cyson yng nghyfran y bobl o bob oedran sy'n byw mewn aelwydydd ar incwm isel wedi achosi i gyfraddau tlodi yng Nghymru gwympo i'r lefel gyfartalog yn y DU **[1A, 1B, 2A, 2B]**. Er bod lefelau tlodi ymhlith plant ar eu huchaf yn y Cymoedd, maent yn uchel iawn ym mhob rhan o Gymru **[4A]**.

Mae lefelau diweithdra hefyd wedi cwympo'n cyson, unwaith eto i'r lefelau cyfartalog yn y DU neu i lefelau is **[12A, 13B]**. Serch hynny, mae mwy o bobl 'yn segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith' nag sydd yn ddiwaith, yn enwedig yn y Cymoedd **[12A, 12B]**.

Mae digartrefedd, o'i gyferbynnu, yn codi'n sydyn **[27A]** ac felly hefyd nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro **[27B]**.

Mae Cymru'n sefyll allan oherwydd lefelau uchel o ran mynychder afiechyd ymhlith pobl o oedran gweithio, nid yn unig ymhlith y rhai sy'n 50 neu'n hŷn **[24]**. Mae'r lefelau uchaf i'w cael yn y Cymoedd, ond ceir pocedi lle mae lefelau uchel o afiechyd hirdymor hefyd mewn rhannau helaeth o orllewin Cymru **[24]**.

Mae cymwysterau gwael yn cynyddu'r risg o ddiweithdra a thâl isel **[14A]**. Mae pobl yn cael bod salwch ac anabledd, cyfrifoldebau gofalu, a diffyg swyddi addas yn rhwystrau mawr i weithio **[15A]**. Ym mhob rhan o Gymru, mae'r rhan fwyaf o bobl a chanddynt fynediad at gar yn ei ddefnyddio i fynd i'r gwaith **[32A]**.

Mae'r aelwydydd sydd â rhywun mewn gwaith yn rhoi cyfrif am gyfran gynyddol o'r rheiny sydd mewn tlodi **[3B]**. Caiff tâl isel ei gysylltu â gwaith rhan-amser yn arbennig **[16B]**. Mae'r

rhan fwyaf o weithwyr sy'n derbyn tâl isel yn fenywod. Mae'r sector cyhoeddus yn brif gyflogwr, ac yn gyflogwr uniongyrchol i weithwyr ar dâl isel **[17B]**.

Mewn rhannau o gefn gwlad Cymru y mae tâl isel fwyaf cyffredin yn enwedig Sir Benfro, Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

Fel yn Lloegr, bu i'r gwelliant mewn cyflawniad addysgol pan fo plant yn 11 ac yn 16 arafu oddeutu 2000 ac mewn rhai achosion fe beidiodd yn llwyr **[6A, 6B, 7A]**. Mae yng Nghymru gyfran arbennig o uchel o blant 16 mlwydd oed sy'n methu ag ennill unrhyw gymwysterau TGAU o gwbl **[7B]**.

Mae plant 17 mlwydd oed nad ydynt wedi ennill pum gradd TGAU dda na chymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn annhebygol iawn o fod wedi ennill unrhyw gymwysterau pellach erbyn eu bod yn 24 **[8B]**.

Mae ansawdd gwasanaethau meddygon teulu, a fesurir yn ôl cyfran y meddygfeydd sy'n cynnwys un meddyg yn unig, a nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn is yn y Cymoedd nag unrhyw le arall yng Nghymru **[26B, 15B]**.

Mae dangosyddion eang o ran iechyd a lles plant, sy'n cynnwys cyflwr dannedd plant 5 mlwydd oed a nifer yr achosion o fabanod yn cael eu geni i famau a ddaeth yn feichiog dan 16 mlwydd oed, yn waeth yn y Cymoedd nag unrhyw le arall, yn enwedig ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful **[22A, 22B]**.

Un nodwedd o orllewin Cymru i gyd yw diffyg gwresogi canolog, ac mae'r broblem ar ei gwaethaf yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

## Plant ac oedolion ifanc: tlodi a deilliannau addysgol

Diolch i gwympiadau mawr yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel yn awr yr un faint â'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Prydain gyfan. Ddegawd yn ôl, o'i gwrthgyferbynnu, roedd y gyfradd tlodi ymhlith plant yng Nghymru ymhell uwchlaw'r cyfartaledd **[2B]**. Er gwaethaf y gwelliant hwn, serch hynny, mae un ym mhob pedwar plentyn yng Nghymru'n dal i fyw mewn aelwyd incwm-isel. Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran ymhlith pensiynwyr neu oedolion o oedran gweithio **[2A]**.

Mae niferoedd mawr o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel i'w cael ymhob rhan o Gymru, gyda thraean ohonynt yn fras yn byw yn y Cymoedd, traean yng Nghaerdydd a gweddill de Cymru, a thraean mewn rhannau eraill o Gymru **[4A]**. Er bod y gyfradd tlodi ymhlith plant (hynny yw y gyfran o'r holl blant mewn ardal benodol sydd mewn aelwydydd incwm-isel) ar ei huchaf yn y Cymoedd, mae'r cyfraddau yng Nghaerdydd, gweddill de Cymru, gorllewin Cymru a gogledd orllewin Cymru oll yn agos at y cyfartaledd yng Nghymru **[4B]**.

Mewn pa fathau o aelwydydd mae'r plant hyn yn byw? Mae ychydig yn fwy na hanner y rhain yn byw mewn teuluoedd ag un rhiant yn hytrach na theuluoedd â dau riant. Er nad yw'r mwyafrif llethol o deuluoedd un-rhiant sy'n byw mewn tlodi (80%) yn gwneud unrhyw waith am dâl, mae gan fwyafrif sydd bron yr un mor fawr o'r teuluoedd dau-riant sy'n byw mewn tlodi (67%) o leiaf un oedolyn sy'n gwn eud gwaith am dâl.

Mae plant mewn ardaloedd lle mae incwm isel yn gyffredin yn wynebu anfanteision eraill o'r cychwyn cyntaf. Mae gwahaniaeth o ran argaeledd lleoedd gofal plant cofrestredig yn arwydd o'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer plant o oedran cyn-ysgol. Mae lleoedd o'r fath fwyaf prin ym mhob un o awdurdodau lleol y Cymoedd (heblaw am Dorfaen); ac nid oes ond hanner gymaint o leoedd ar gael yn ardal Blaenau Gwent o'i chymharu â Rhondda Cynon Taf **[15B]**.

Mae un arwydd arall o'r ffordd y mae plant ifanc yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn dioddef anfanteision eraill hefyd i'w weld yn eu dannedd, ac mae gan blant pum mlwydd oed ym Merthyr Tudful ac ym Mlaenau Gwent ddwywaith gymaint o ddannedd wedi pydru, dannedd coll neu ddannedd wedi'u llenwi ag sydd gan blant yn Sir y Fflint, Bro Morgannwg neu Sir Fynwy **[22A]**.

Er nad oes gwybodaeth uniongyrchol ar gael am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel, mae data am yr hawl i brydau ysgol yn rhad ac am ddim yn rhoi arwydd o gyfran y plant ym mhob ysgol sy'n byw mewn tlodi. Trwy gymharu hyn â chanlyniadau arholiadau ar lefel yr ysgol, dengys hyn sut y mae ysgolion â nifer cymharol fawr o blant o aelwydydd incwm-isel yn cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob ysgol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon cafwyd gwelliannau mewn canlyniadau profion ers canol y 1990au (wedi'i fesur yn ôl cwympiadau yng nghyfran y plant sy'n methu â chyrraedd lefelau a graddau amrywiol) mewn ysgolion â niferoedd uchel o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim yn ogystal ag ysgolion ar gyfartaledd. Mae hyn yn wir am ysgolion cynradd [6A] ac ysgolion uwchradd **[6B]**. Serch hynny, mae bwlch sylweddol yn dal i fodoli rhwng ysgolion a hynny'n ddibynnol ar y nifer o blant sydd ganddynt o aelwydydd incwm-isel. Er enghraifft, ymhlith yr ysgolion â'r nifer lleiaf o blant sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, 6 y cant yn unig o blant 16 mlwydd oed yn 2004 a fethodd ag ennill o leiaf 5 cymhwyster TGAU. O'u gwrthgyferbynnu, methodd 27 y cant o blant 16 mlwydd oed â chyrraedd y lefel honno mewn ysgolion a oedd â chyfran uchel o blant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim **[6B]**.

O ran disgyblion sy'n 11 mlwydd oed, er bod gwelliant mewn Saesneg i'w weld fel pe bai wedi dod i ben yn 2002, mae gwelliannau mewn Mathemateg a Chymraeg yn parhau hyd y presennol **[6A]**. O ran disgyblion sy'n 16 mlwydd oed, o'u cyferbynnu, digwyddodd rhan helaeth o'r gwelliant mewn perfformiad yn yr ysgol ers canol y 1990au mewn gwirionedd yn y cyfnod hyd at 2000, ac ers hynny ychydig o gynnydd pellach a fu. O ganlyniad, mae'r 15 y cant o ddisgyblion 16 mlwydd oed a gafodd lai na 5 cymhwyster TGAU yn 2003/04 yr un fath â'r gyfran bedair blynedd yn gynharach **[7A]**. Hefyd ar y mesur hwn, mae perfformiad yng Nghymru'n waeth nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr, ac mae hyn i'w briodoli i'r gyfran uchel – 7.5 y cant – o blant 16 mlwydd oed yng Nghymru nad ydynt yn ennill yr un cymhwyster TGAU **[7B]**.

Mae cyfran y plant 16 mlwydd oed sy'n methu â chyrraedd y safon uwch o bum gradd TGAU 'dda' (hynny yw, gradd C neu radd uwch), wedi parhau i ddisgyn, er yn arafach dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â diwedd y 1990au, i ychydig yn llai na hanner yr holl blant dan 16 mlwydd oed yn 2003/04 **[7A]**. Yr hyn y dylid ei ofyn, cyn belled ag y mae tlodi ac eithrio cymdeithasol yn y cwestiwn, yw a yw'r safon hon yn haeddu'r statws a roddir iddi erbyn hyn. Ymddengys mai'r ateb yw ei bod hi.

Yr hyn sy'n ein harwain i'r casgliad hwn yw'r canfyddiad canlynol: tra nad oes ond ychydig iawn o blant 17 mlwydd oed â phum gradd TGAU 'dda' yn rhoi'r gorau i dderbyn addysg wedi hynny, ychydig iawn o'r plant 17 mlwydd oed hynny sy'n methu ag ennill pum gradd TGAU 'dda' (neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol) sydd wedi ennill unrhyw gymwysterau eraill erbyn eu bod yn 24 **[8B]**. O fynegi hyn yn y ffordd fwyaf digalon, i draean o'r plant 17 mlwydd oed sy'n methu â chyrraedd y safon hon, i bob pwrpas nid oes ail gyfle.

Yn ei dro, mae methiant i gael cymwysterau digonol yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd o dlodi yn y dyfodol fel oedolyn. Er enghraifft, mae pobl rhwng 25 a 50 sydd heb unrhyw gymwysterau'n wynebu tebygolrwydd o 25 y cant y byddant yn segur yn economaidd, tebygolrwydd o 8 y cant y byddant yn ddi-waith a thebygolrwydd o 60 y cant y byddant yn derbyn tâl isel (llai na £6.50 yr awr) **[14A]**. Mae'r rhain oll yn ffactorau sy'n cynyddu'r risg o dlodi. Mae ennill cymwysterau'n lleihau'r risgiau hyn: mae ennill rhai cymwysterau TGAU (ond heb ennill graddau da) yn lleihau'r risg o ddiweithdra i 5 y cant a'r risg o dâl isel i 50 y cant. Ond mae'n rhaid ennill cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol (y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â 5 gradd TGAU dda yn mynd ymlaen i'w hennill) er mwyn lleihau'r risgiau hyn i lefel sy'n is na'r cyfartaledd.

## Oedolion o oedran gweithio sydd heb waith: tlodi a rhwystrau i weithio

Nid oes gan dros dair rhan o bump o'r bobl mewn aelwydydd o oedran gweithio sydd ar incwm isel unrhyw un yn eu haelwyd sy'n gweithio [3B]. Mae hyn yn golygu mai bod heb waith yw'r rheswm unigol pwysicaf dros dlodi, gan ei fod wedi effeithio ar ryw 200,000 o oedolion o oedran gweithio yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hanner yr holl aelwydydd heb waith yn aelwydydd sy'n cynnwys un oedolyn tra bod chwarter pellach yn aelwydydd sy'n cynnwys rhieni sengl. Mae aelwydydd sy'n cynnwys dau riant a phlant dibynnol yn rhoi cyfrif am un rhan o ddeg yn unig o'r aelwydydd heb waith [11A].

Caiff pobl nad ydynt yn gweithio'u grwpio dan un o ddau bennawd. Caiff y rhai sydd am weithio, sydd ar gael i ddechrau gweithio o fewn pythefnos ac sydd wedi bod wrthi'n chwilio am waith yn y pedair wythnos ddiwethaf eu cyfrif fel pobl 'ddi-waith'. Caiff unrhyw un arall ei ystyried fel rhywun sy'n 'segur yn economaidd'. Ond mae chwarter y rhai sy'n segur yn economaidd yn dymuno cael gwaith: y rheswm nad ydynt yn cael eu cyfrif yn ddi-waith yw naill ai nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio'n fuan, neu nad ydynt wedi bod wrthi'n chwilio am waith yn ddiweddar.

Ers canol y 1990au, mae cyfradd diweithdra ymhlith oedolion ifanc yng Nghymru sydd rhwng 18 a 24 mlwydd oed wedi cwympo'n sylweddol, ac mae erbyn hyn ychydig islaw'r cyfartaledd yn y DU [13B]. Fel y gyfradd tlodi ymhlith plant, mae diweithdra ymhlith oedolion ifanc yn rhywbeth a arferai fod yn broblem fwy byth yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. Er nad felly y mae hi erbyn hyn, mae'r gyfradd diweithdra ymhlith y grŵp oedran hwn yn dal i fod yn 10 y cant, sy'n golygu ei bod yn llawer uwch nag ar gyfer gweithwyr hŷn.

Dros yr un cyfnod, mae cyfanswm y bobl yng Nghymru sy'n ddi-waith wedi haneru bron iawn, gan ostwng i tua 60,000 [12A]. O ganlyniad, nid yw diweithdra'n un o brif achosion tlodi bellach, gan nad yw ond yn rhoi cyfrif am un ym mhob wyth o'r aelwydydd o oedran gweithio sydd mewn tlodi heddiw, o'i gymharu ag un ym mhob pedwar ganol y 1990au [3B].

Mae nifer y bobl sy'n segur yn economaidd ac sy'n dymuno cael gwaith hefyd wedi gostwng ond yn arafach, i tua 95,000 [12A]. Mae'n broblem fwy na diweithdra i bob grŵp oedran o 25 ymlaen, yn enwedig i fenywod a phobl hŷn. Mae hefyd yn broblem sy'n effeithio ar fenywod yn fwy na dynion ym mhob grŵp oedran [13A].

Ledled Cymru, mae nifer y bobl sy'n segur yn economaidd ond sy'n dymuno cael gwaith fel arfer yn uwch lle mae diweithdra'n uwch, ac mae'r un peth yn wir fel arall. O'i hystyried ynghyd â diweithdra, mae cyfran y bobl sy'n 'dymuno cael gwaith' ar ei huchaf yn ardaloedd Castell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful. Ym mhob un o'r ardaloedd hyn, mae o leiaf un ym mhob wyth o'r holl bobl o oedran gweithio'n dymuno cael gwaith [12B].

Mae'r Cymoedd hefyd yn sefyll allan oherwydd cyfran uchel y bobl sy'n eu disgrifio'u hunain fel rhywun sy'n dioddef afiechyd hirdymor cyfyngol. Mae pump o'r chwe ardal awdurdod lleol sydd â'r cyfraddau uchaf o ran afiechyd hirdymor cyfyngol unrhyw le yng Nghymru neu Loegr i'w cael yn y Cymoedd. Mae rhannau helaeth o orllewin Cymru – Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn – hefyd yn cynnwys nifer o ardaloedd sydd â lefelau uwch-na'r-cyfartaledd o ran afiechyd hirdymor cyfyngol [24].

Salwch ac anabledd yw'r rheswm pwysicaf o bell ffordd y mae pobl o oedran gweithio'n derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol yng Nghymru dros gyfnod hir [23A].

Nid yw salwch neu anabledd o'r fath yn gyfyngedig i bobl oedran gweithio sy'n hŷn. Cyflyrau meddyliol ac ymddygiadol, yn hytrach na rhai cyhyrysgerbydol, yw'r rheswm mwyaf y mae pobl yn hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol [23B]. Yr ardaloedd awdurdod

lleol sydd â'r cyfraddau uchaf o ran afiechyd hirdymor cyfyngol ymhlith pobl dros 50 yw'r rhai sydd â'r cyfraddau uchaf ymhlith y grwpiau oedran ifancach hefyd.

O ystyried maint y broblem afiechyd hirdymor cyfyngol, nid yw'n syndod bod afiechyd a/neu anabledd yn cael ei nodi gan hanner y dynion a chwarter y menywod sy'n dymuno cael gwaith fel y prif beth sy'n eu hatal rhag gweithio. Ond nid dyma'r unig reswm sy'n cael ei roi: mae chwarter y dynion hefyd yn nodi diffyg swydd addas tra bo merched yn nodi amrediad ehangach o resymau gan gynnwys, yn anad dim, cyfrifoldebau gofalu am blant ac oedolion fel ei gilydd **[15A]**.

Yr her yw deall sut y mae'r holl wahanol ffactorau sy'n achosi i bobl fod 'heb waith ac yn dymuno cael gwaith' yn cydadweithio â'i gilydd. Er bod diffyg sgiliau a chymwysterau (nid yr un peth) yn sicr yn bwysig, mae'n annhebygol y gall hyn ynddo'i hun egluro problem ac iddi nodweddion mor amlwg o safbwynt rhyw, iechyd a daearyddiaeth. Yn hyn o beth, mae dau ffactor arall amlwg. Y cyntaf yw'r ffaith bod darpariaeth gofal plant lawer yn is yn y Cymoedd nag mewn rhannau eraill o Gymru, yn enwedig ym Mlaenau Gwent a Chastell-nedd a Phort Talbot **[15B]**.

Yr ail yw'r gyfradd is o ran perchenogaeth ceir yn rhai o ardaloedd y Cymoedd, yn enwedig Blaenau Gwent a Merthyr Tudful **[32A]**. Mae'r cysylltiad ar y cyfan rhwng perchenogaeth ceir a statws gwaith yn gryf iawn, gan mai un ym mhob deg yn unig o'r rheiny sy'n gweithio llawn-amser sydd heb fynediad at gar a chyfle i ddefnyddio car yn feunyddiol, o'u cymharu â dwy ran o dair o'r rheiny sydd heb waith ond yn dymuno cael gwaith **[32B]**. Mae'r ffaith bod cael swydd yn gwneud car yn fwy fforddiadwy'n amlwg yn atgyfnerthu'r cysylltiad hwn. Serch hynny, gan fod cyfran uchel o bobl ledled Cymru sydd â mynediad at gar yn ei ddefnyddio i fynd i'r gwaith, bydd diffyg car yn rhwystr i weithio **[32A]**. Yn ogystal â hynny, yr aelwydydd o oedran gweithio sydd fwyaf tebygol o fod heb gar yw'r rhai sy'n cynnwys un oedolyn sengl, boed ganddynt blant dibynnol neu beidio **[31B]**, a dyma'r mathau o aelwydydd sy'n rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o aelwydydd heb waith **[11A]**.

## Oedolion o oedran gweithio sydd mewn gwaith: tlodi a swyddi gwael

Mae deugain y cant o'r aelwydydd o oedran gweithio sydd ar incwm isel yn cynnwys rhywun sy'n gweithio **[3B]**. Mae hon mewn gwirionedd yn gyfran uwch nag yng nghanol y 1990au pan oedd aelwydydd a oedd yn gweithio'n rhoi cyfrif am 30 y cant yn unig o'r rheiny oedd mewn aelwydydd o oedran gweithio ar incwm isel. O ganlyniad, mae rhyw 150,000 o oedolion o oedran gweithio'n dioddef yr hyn y gellid ei alw'n 'dlodi mewn-gwaith', hynny yw, maent mewn aelwyd incwm-isel ac yn gweithio'u hunain ac/neu'n byw gyda phartner sy'n gweithio.

Un grŵp yn arbennig sydd mewn perygl o dlodi yw'r aelwydydd sy'n cael eu gosod dan y pennawd 'rhywfaint o weithio', hynny yw, naill ai pan fo'r swyddi'n rhai rhan-amser yn unig neu (mewn aelwyd sy'n cynnwys dau oedolyn) pan fod un person yn yr aelwyd ddim yn gweithio o gwbl. Mae gan fwy nag un rhan o bump o'r bobl yn yr aelwydydd hyn incwm isel. Hyd yn oed ymhlith y rhai lle mae pob un o'r oedolion yn gweithio, mae risg bychan o fod ar incwm isel o hyd. Felly, er bod gwaith yn lleihau'r risg o dlodi'n sylweddol, nid yw'n ei leihau'n llwyr.

Mae tri ffactor yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn derbyn tâl isel. Y cyntaf yw pan fo'r gweithiwr yn ifanc: mae dwy ran o dair o'r rheiny sy'n 21 neu'n ifancach yn cael tâl sy'n llai na £6.50 yr awr (y prif arwydd o dâl isel a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn). Ond mae gweithwyr sy'n 21 neu'n ifancach yn rhoi cyfrif am gyfran fechan yn unig o'r holl weithwyr sy'n derbyn tâl isel.

Y trydydd ffactor yw bod y swydd yn un ran-amser. Dyma'r prif ffactor uniongyrchol sy'n achosi tâl isel, gan fod 60 y cant o weithwyr rhan-amser yn derbyn tâl sy'n llai na £6.50 yr

awr a 25 y cant ohonynt yn derbyn tâl sy'n llai na £5 yr awr [16B]. Er nad oes tystiolaeth o anghydraddoldeb o ran y tâl y mae pobl o'r naill ryw a'r llall yn ei dderbyn am waith rhan-amser, mae'r rhan fwyaf o weithwyr rhan-amser yn fenywod. Oherwydd y ffactor risg uchel sy'n gysylltiedig â gwaith rhan-amser, mae gweithwyr rhan-amser yn rhoi cyfrif am hanner y rhai sy'n derbyn tâl isel. O ystyried gweithwyr llawn-amser a gweithwyr rhan-amser gyda'i gilydd, mae dwy ran o dair o'r gweithwyr sy'n derbyn tâl isel yn fenywod.

Mae mwy na hanner y bobl a gyflogir yn y sector gwestai a'r sector bwytai a'r sector adwerthu/cyfanwerthu yn derbyn tâl isel, ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn fenywod [17A]. Mae'r sector adwerthu/cyfanwerthu hefyd yn rhoi cyfrif am y gyfran uchaf o weithwyr sy'n derbyn tâl isel – rhyw 30 y cant o'r cyfanswm. Y sector cyhoeddus (gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd) sy'n ail, ar 20 y cant [17B]. Nid yw'r ffigwr hwn ond yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y sector cyhoeddus; nid yw'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau ar gytundeb, megis gwasanaeth glanhau, wedi'u cynnwys.

Mae tâl isel yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â chyda gwasanaethau ar gytundeb, yn digwydd nid o ganlyniad i rymoedd y farchnad ond o ganlyniad i drafod cyllidebau, graddfeydd cyflogau a'r rheolau y mae'n rhaid eu defnyddio wrth gaffael gwasanaethau gan gontractwyr. O ystyried y cefndir hwn, mae'n werth nodi mai 20 y cant yn unig o'r rheiny sy'n derbyn tâl o £6.50 neu lai sy'n perthyn i undeb, o'u cymharu â rhyw 60 y cant o'r rheiny sy'n ennill rhwng £15 a £21 yr awr [20B].

Ychydig o swyddi â thâl isel sydd mewn diwydiannau sy'n wynebu cystadleuaeth uniongyrchol o dramor. Mae gweithgynhyrchu, sef yr un sector mwyaf agored, yn rhoi cyfrif am 10 yn unig o swyddi â thâl isel [17B]. Mae dwy ran o Gymru lle mae'r boblogaeth breswyl yn dal i fod yn arbennig o ddibynnol ar weithgynhyrchu: Wrecsam a Sir y Fflint yn y gogledd ddwyrain, a'r Cymoedd ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr yn y de [18].

Mae tâl isel yn mynd law yn llaw â phroblemau eraill. Nid yw hanner yr oedolion o oedran gweithio sy'n ddi-grefft neu'n rhannol-grefftus wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu pellach ers rhoi'r gorau i dderbyn addysg ffurfiol, o'u cymharu ag un ym mhob pump yn unig o'r rheiny a chanddynt gefndir ym maes rheoli neu mewn maes proffesiynol [10A]. Caiff yr anghydbwysedd hwn ei ailadrodd a'i atgyfnerthu gan batrwm hyfforddiant yn y gweithle – po isaf yw lefel cymwysterau unigolyn, po leiaf o gyfle sydd i'r unigolyn hwnnw dderbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â'i swydd [20A].

O ystyried y risg uchel o dlodi sy'n gysylltiedig â diweithdra, yr anfantais bwysicaf y gall pobl mewn gwaith ei hwynebu yw colli swydd. Roedd bron hanner y dynion a thraean o'r menywod a wnaeth hawliad newydd am Lwfans Ceisio Gwaith (hynny yw, gan ddechrau cyfnod newydd o ddiweithdra) wedi hawlio'r budd-dal hwn ddiwethaf lai na chwe mis cyn hynny [19A]. Mae hyn i bob pwrpas yn golygu bod nifer o'r swyddi y mae pobl ddi-waith yn eu cael yn para llai na chwe mis. Nid yw'r cyfrannau hyn wedi newid llawer mewn degawd. Maent yn dangos nad yw gwaith, i rai pobl ar waelod y farchnad waith, yn llwybr sy'n eu harwain o dlodi, ond ei fod yn hytrach, ar y gorau, yn ddim ond rhyddhad dros dro.

## Pensiynwyr: tlodi a mynediad at wasanaethau

Mae cyfran y pensiynwyr mewn aelwydydd incwm-isel wedi gostwng o tua 25 y cant ganol y 1990au i tua 20 y cant erbyn hyn, ac mae'r gyfradd hon yn debyg i'r un ar gyfer oedolion o oedran gweithio [2A]. Mae pensiynwyr yn dal i roi cyfrif am ryw 18 y cant o'r holl bobl hynny sy'n byw mewn tlodi [3A].

Mae'r rhan fwyaf o'r cwymp a gafwyd wedi bod ymhlith pensiynwyr sengl, nad yw'r risg o dlodi a wynebir ganddynt yn wahanol erbyn hyn i'r risg a wynebir gan bensiynwyr sy'n gyplau. Yn ôl y ffigyrau diweddaraf, mae rhyw 50,000 o bensiynwyr sengl, a 75,000 o bensiynwyr sy'n byw fel cyplau, yn byw mewn tlodi.

Y tu hwnt i arian, mae pensiynwyr yn wynebu problemau penodol yn ymwneud â mynediad ac arwahanrwydd. Mae un rhan o dair o'r holl bensiynwyr yng Nghymru'n byw ar eu pennau'u hunain. Y farn gyffredinol yw bod rhwydweithiau cefnogi'n llai cryf nag yr arferent fod, gyda theulu'n aml yn byw'n bell i ffwrdd a chymdogion yn llai tebygol o ddarparu cymorth a chefnogaeth.

Ac mae cyfyngiadau ar allu nifer o bobl hŷn i deithio, naill ai oherwydd problemau mudoledd neu oherwydd diffyg dewisiadau cludiant y maent yn teimlo'n gyfforddus â hwy.

Mae materion o'r fath i'w gweld fwyaf ymhlith menywod sengl hŷn. Am fod menywod ar y cyfan yn byw'n hwy na dynion, mae tri chwarter yr holl bobl sy'n 65 ac yn hŷn ac yn byw ar eu pennau'u hunain yn fenywod ac mae hanner yr holl fenywod sy'n 75 neu'n hŷn yn byw ar eu pennau'u hunain.

Serch hynny, nid oes ystadegau amlwg ar gael i fesur maint y broblem arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn. Felly mae gan awdurdodau lleol ddewis o ran faint o adnoddau y maent yn eu neilltuo a faint o sylw y maent yn ei roi i'r pwnc. O safbwynt ymarferol, fodd bynnag, cyfyngwyd yn gynyddol ar eu gallu i wneud hynny gan yr angen i neilltuo'u hadnoddau sy'n cynyddu'n fwyfwy i anghenion gofal personol y niferoedd cynyddol o bobl fregus, hŷn. Felly, er enghraifft, mae'r gwasanaeth gofal yn y cartref yng Nghymru fel arfer yn gyfyngedig i ofal personol, er bod glanhau a siopa'n arfer bod yn rhan bwysig o'r gwasanaeth. O ganlyniad, mae cyfran y bobl hŷn sy'n derbyn gofal yn y cartref gan eu hawdurdod lleol wedi haneru bron iawn dros y degawd diwethaf er gwaethaf cynnydd mewn gwariant **[26A]**.

Mae pobl hŷn yn un o'r prif grwpiau sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd, ac felly mae argaeledd ac ansawdd y gwasanaeth yn arbennig o bwysig iddynt. Mae nifer y cleifion sydd gan bob meddyg yn amrywio i raddau helaeth ledled Cymru, o ryw 2,000 y meddyg yn Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf i 1,200 ym Mhowys a Cheredigion **[26B]**. Yr ail fesur sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol ag ansawdd y gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yw cyfran y meddygon sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain mewn meddygfeydd ag un meddyg. Mae'r gyfran hon ar ei huchaf (gan ddynodi problemau ansawdd) yn y Cymoedd a Sir y Fflint, ac mae Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn arbennig yn sefyll allan **[26B]**.

Mae pensiynwyr – yn enwedig pensiynwyr sengl – yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus nag unrhyw grŵp arall, gan nad yw dwy ran o dair ohonynt yn berchen ar gar **[31B]**. Ond eto, mwyafrif bach iawn yn unig o aelwydydd heb gar sy'n barnu bod bysus yn ddigonol er mwyn cyrraedd canol y dref neu'r siopau agosaf. Yng nghyswllt rhai anghenion cludiant sylfaenol, yn enwedig cyrraedd yr ysbyty lleol a theithio ar ddydd Sul, mae'r gyfran hon yn gostwng cyn ised â thraean neu lai **[31A]**.

Yn olaf, mae'r newidiadau demograffig sydd ar droed ar hyn o bryd yn golygu y bydd y galw am wasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn cynyddu'n gyflymach yn y blynyddoedd sydd i ddod nag y maent wedi'i wneud yn y gorffennol. Er enghraifft, dros y degawd diwethaf bu cynnydd o ryw 20 y cant yn nifer y pensiynwyr sy'n 85 mlwydd oed neu'n hŷn tra na chafwyd fawr o newid yn nifer y pensiynwyr ifancach. Dros y degawd nesaf, serch hynny, rhagwelir y bydd nifer y pensiynwyr sy'n 85 mlwydd oed neu'n hŷn yn codi 30% ac y bydd nifer y pensiynwyr ifancach yn codi 15 %.

## Dosbarthiad daearyddol tlodi ac eithrio cymdeithasol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r graddiadau yng nghyswllt y ddau ddangosydd ar hugain y cyflwynir gwybodaeth ar lefel awdurdodau lleol ar eu cyfer yn yr adroddiad. Maent wedi'u gosod yn y drefn y cawsant eu trafod yn y crynodeb hwn. Caiff mynychder pob dangosydd fesul ardal awdurdod lleol ei nodi fel a ganlyn: porffor – y 3 gwaethaf; glas tywyll – y 4 gwaethaf wedyn; glas golau – y 4 gwaethaf wedyn; gwyn – yr 11 arall.

## Tabl yn rhoi crynodeb fesul awdurdod lleol

| Rhanbarth | ALI | 4 Tlodi ymhlith plant | 21 Pwysau geni isel | 22 Dannedd | 22 Genedigaethau dan oed | 15 Lleoedd gofal plant | A2 Cyfnod allweddol 2 | A2 TGAU | 9 Addysg uwch | 4 Tlodi oedran-gweithio | 5 Oedran gweithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth | 12 Yn dymuno cael gwaith â thâl | 10 Cyfranogiad oedolion | 24 Afiechyd hirdymor cyfyngol | 25 Marwolaeth cyn pryd | 32 Perchenogaeth car | A3 Tâl isel | A3 Credydau Treth | 5 Pensiynwyr ar fudd-daliadau'r wladwriaeth* | 26 Gofal yn y cartref | 26 Meddygon Teulu: nifer | 26 Meddygon Teulu: meddygon unigol | 28 Gwresogi canolog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GDd | Sir y Fflint | 21 | 17 | 22 | 14 | 19 | 12 | 20 | 8 | 21 | 20 | 22 | 14 | 19 | 16 | 20 | 9 | 19 | 17 | 8 | 1 | 3 | 10 |
| GDd | Wrecsam | 17 | 19 | 5 | 12 | 20 | 6 | 5 | 7 | 17 | 16 | 21 | 4 | 15 | 13 | 12 | 6 | 13 | 8 | 1 | 8 | 8 | 6 |
| Dwyrain | Sir Fynwy | 22 | 20 | 20 | 22 | 12 | 21 | 17 | 22 | 22 | 22 | 14 | 20 | 22 | 20 | 22 | 20 | 22 | 22 | 18 | 17 | 11 | 16 |
| Dwyrain | Powys | 19 | 18 | 19 | 20 | 9 | 19 | 18 | 20 | 19 | 21 | 19 | 18 | 18 | 19 | 21 | 5 | 3 | 20 | 7 | 20 | 20 | 8 |
| Cymoedd | Blaenau Gwent | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 4 | 1 | 2 | 2 | 3 | 1 | 2 | 1 | 2 | 4 | 6 | 1 | 16 | 8 | 1 | 22 |
| Cymoedd | Caerffili | 6 | 5 | 3 | 4 | 5 | 3 | 8 | 3 | 4 | 4 | 8 | 2 | 5 | 7 | 8 | 12 | 7 | 5 | 10 | 4 | 4 | 21 |
| Cymoedd | Merthyr Tudful | 1 | 1 | 1 | 2 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 4 | 6 | 1 | 2 | 1 | 17 | 5 | 3 | 22 | 3 | 2 | 14 |
| Cymoedd | Castell-nedd a Phort Talbot | 3 | 9 | 7 | 7 | 2 | 5 | 14 | 6 | 3 | 3 | 1 | 10 | 3 | 5 | 6 | 14 | 15 | 10 | 19 | 6 | 6 | 17 |
| Cymoedd | Rhondda Cynon Taf | 4 | 3 | 4 | 5 | 4 | 9 | 6 | 5 | 5 | 5 | 2 | 5 | 4 | 3 | 5 | 16 | 11 | 2 | 15 | 2 | 5 | 12 |
| Cymoedd | Torfaen | 12 | 7 | 9 | 13 | 8 | 4 | 9 | 4 | 11 | 7 | 7 | 7 | 7 | 9 | 9 | 22 | 14 | 7 | 5 | 16 | 19 | 20 |
| Caerdydd | Caerdydd | 8 | 6 | 14 | 8 | 14 | 11 | 2 | 12 | 15 | 15 | 5 | 3 | 21 | 12 | 4 | 19 | 21 | 4 | 6 | 17 | 12 | 11 |
| De | Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 11 | 18 | 3 | 13 | 15 | 10 | 10 | 9 | 6 | 9 | 8 | 8 | 17 | 10 | 11 | 17 | 9 | 17 | 8 | 18 | 15 |
| De | Casnewydd | 14 | 4 | 8 | 9 | 6 | 10 | 12 | 9 | 8 | 9 | 12 | 11 | 14 | 6 | 3 | 15 | 16 | 11 | 11 | 12 | 10 | 19 |
| De | Abertawe | 5 | 10 | 11 | 6 | 7 | 18 | 3 | 13 | 6 | 8 | 6 | 17 | 9 | 10 | 7 | 13 | 18 | 6 | 21 | 19 | 16 | 18 |
| De | Bro Morgannwg | 20 | 14 | 21 | 18 | 17 | 22 | 22 | 19 | 18 | 17 | 10 | 8 | 20 | 21 | 17 | 21 | 20 | 21 | 4 | 8 | 20 | 13 |
| Gorllewin | Sir Gaerfyrddin | 11 | 15 | 6 | 15 | 10 | 13 | 16 | 16 | 12 | 10 | 15 | 21 | 6 | 14 | 18 | 6 | 8 | 12 | 9 | 7 | 15 | 9 |
| Gorllewin | Ceredigion | 16 | 22 | 15 | 21 | 15 | 17 | 13 | 21 | 20 | 19 | 11 | 11 | 16 | 22 | 19 | 2 | 10 | 19 | 13 | 22 | 17 | 4 |
| Gorllewin | Sir Benfro | 9 | 12 | 17 | 17 | 11 | 14 | 15 | 18 | 7 | 12 | 13 | 16 | 11 | 11 | 15 | 1 | 1 | 16 | 14 | 12 | 13 | 5 |
| GO | Conwy | 10 | 8 | 13 | 10 | 21 | 6 | 11 | 15 | 13 | 13 | 17 | 22 | 13 | 4 | 13 | 10 | 2 | 14 | 3 | 14 | 14 | 3 |
| GO | Sir Ddinbych | 15 | 16 | 16 | 11 | 22 | 8 | 7 | 11 | 14 | 14 | 18 | 18 | 12 | 8 | 14 | 8 | 9 | 18 | 12 | 4 | 7 | 7 |
| GO | Gwynedd | 18 | 21 | 12 | 16 | 16 | 15 | 21 | 17 | 16 | 18 | 20 | 15 | 17 | 18 | 11 | 3 | 4 | 13 | 2 | 21 | 8 | 1 |
| GO | Ynys Môn | 13 | 13 | 10 | 19 | 18 | 20 | 19 | 13 | 10 | 11 | 16 | 13 | 10 | 15 | 16 | 18 | 12 | 15 | 20 | 14 | 20 | 2 |

* Yn seiliedig ar y data ar gyfer pensiynwyr sy'n rhan o'r dadansoddiad yn nangosydd 5.

# Pennod 1 Incwm

| *Thema* | *Dangosydd/map* |
|---|---|
| Unigolion ar incwm isel | 1: Tueddiadau mewn incwm isel |
| | 2: Y risg o incwm isel fesul grŵp oedran |
| | 3: Y risg o incwm isel fesul math o deulu a statws gwaith |
| Unigolion ar incwm isel | 4: Incwm isel fesul isranbarth yng Nghymru |
| | 5: Map: dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth |

# Unigolion ar incwm isel

Yn unrhyw gymdeithas sy'n uwch-ddatblygedig yn economaidd, mae 'tlodi ac eithrio cymdeithasol' yn nodi'r cyflwr pan fo rhywun yn methu â meddiannu neu wneud y pethau hynny y mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn y gymdeithas honno'n eu cymryd yn ganiataol.

Wrth gwrs, mae cryn le i ddadlau beth ddylid ei gyfrif dan y pennawd hwn. Un o'r syniadau allweddol y tu ôl i'r adroddiad hwn yw na ellir cael un mesur sengl o'r hyn sy'n gyfystyr â thlodi ac eithrio cymdeithasol. O ganlyniad, yr hyn a gyflwynir yma yw amrediad o ddangosyddion a ddewiswyd i adlewyrchu cymhlethdod y cyflwr hwn. Ond er nad yw'r un dangosydd unigol yn ddigon ar ei ben ei hun, mae'n siŵr ei bod yn anorfod, mewn cymdeithas lle mae cymaint yn cael ei ddarparu 'trwy'r farchnad', y bydd incwm isel yn ganolog i'r broblem.

## Incwm isel

Caiff 'incwm isel' ei ddiffinio mewn perthynas ag incwm aelwyd canolrifol ym Mhrydain ar y cyfan. Mae incwm aelwyd canolrifol yn cyfeirio at incwm yr aelwyd gyffredin ac mae'n gwneud synnwyr cyn belled ag y mae tlodi yn y cwestiwn ein bod yn defnyddio hwn fel y llinyn mesur gan ei fod yn debygol o fod â chysylltiad agos â lefelau a phatrymau defnyddiaeth sy'n cael eu cymryd yn ganiataol yn y gymdeithas.[1] Mae aelwyd y mae ei hincwm ymhell islaw'r incwm canolrifol felly'n annhebygol o allu byw'n arferol o fewn safonau'r gymdeithas honno.

Pa mor bell islaw'r incwm canolrifol y dylid gosod y trothwy sy'n nodi incwm isel? Yr arfer yr ydym ni'n ei dilyn yn yr adroddiad hwn yw diffinio incwm isel fel incwm sydd islaw 60 y cant o'r incwm canolrifol (er ein bod mewn mannau hefyd yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â throthwyon eraill megis 40 y cant a 50 y cant).Mae cyfiawnhad cyffredinol dros y trothwy hwn i'w gael yn yr amryw astudiaethau cyllidebol sydd wedi'u cynnal ac sy'n cyfrifo, yn boenus o fanwl, yn union faint sydd ar bobl angen ei wario bob wythnos er mwyn cyrraedd yr hyn a elwir yn safon byw 'isel ond derbyniol'.[2]

Fodd bynnag, nid yw hwn yn bwnc cudd na all ond arbenigwyr ei ddeall. Mae'r cwestiwn o ran beth yw incwm sy'n rhy isel i ymdopi arno'n un y byddai unrhyw un sydd â syniad da am brisiau'n gallu ei ateb. Isod ceir rhestr yn dangos faint yw '60 y cant o incwm aelwyd canolrifol' yr wythnos ar hyn o bryd, ac mae'r swm yn amrywio gan ddibynnu ar nifer yr oedolion a'r plant sydd yn yr aelwyd.

- Oedolyn sengl: £100 yr wythnos.
- Dau oedolyn: £180 yr wythnos.
- Dau oedolyn a dau blentyn dibynnol: £260 yr wythnos.
- Oedolyn sengl a dau blentyn dibynnol: £180 yr wythnos.

Mae'r ffigyrau hyn yn berthnasol ar ôl talu costau tai (taliadau rhent neu forgais). Maent felly'n cynrychioli cyfanswm yr arian sydd ar gael i'w wario ar bopeth arall, yn amrywio o fwyd, gwresogi, teithio, dillad a ffôn, i bethau y mae angen rhoi arian o'r neilltu ar eu cyfer bob wythnos, boed ar gyfer anrhegion, tegell newydd, gwyliau byr – neu yn syml fel arian wrth gefn rhag ofn y bydd ei angen.

## Tlodi incwm

Gan ei fod yn gysylltiedig ag incwm canolrifol, mae'r trothwy o 60 y cant ar gyfer incwm isel yn codi bob blwyddyn oherwydd bod incwm canolrifol yn codi. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at bobl mewn aelwydydd y mae eu hincwm islaw'r trothwy 60 y cant hwn fel aelwydydd sy'n dioddef tlodi incwm.

Mae hefyd yn bosib dewis trothwy incwm o 60% mewn un flwyddyn benodol ac yna'i godi mewn blynyddoedd dilynol yn unol â chyfradd chwyddiant. Cyfeiriwn at hyn fel trothwy incwm isel sefydlog. Er nad oes gan hyn yr un statws â'r trothwy incwm isel cyfredol (neu gyfoes) a ddisgrifir uchod, mae'n gyfeirbwynt pwysig. Y rheswm yw, gan ei fod yn codi'n arafach na'r trothwy incwm isel cyfredol, dylai nifer y bobl a chanddynt incwm islaw'r trothwy sefydlog ostwng yn gyflymach o un flwyddyn i'r llall. Os bydd y nifer islaw'r trothwy sefydlog yn rhoi'r gorau i ostwng, mae hyn yn arwydd cryf bod rhywbeth mawr o'i le.

Defnyddir tri therm arall yn fynych yma. Y gyfradd tlodi yw cyfran y boblogaeth (neu is-grŵp yn y boblogaeth) sydd yn dioddef tlodi incwm. Felly, y gyfradd tlodi ymhlith plant yw cyfran y boblogaeth plant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n dioddef tlodi incwm. Caiff y risg o dlodi i boblogaeth neu is-grŵp yn y boblogaeth ei fesur yn union yr un ffordd â chyfradd tlodi. O'i gwrthgyferbynnu, y siâr o'r tlodi yw'r rhan o'r boblogaeth sy'n dioddef tlodi incwm ac sy'n perthyn i ryw grŵp penodol (er enghraifft yn seiliedig ar yr ardal y maent yn byw ynddi).

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

1A – cyfran y bobl mewn aelwydydd ar incwm isel, dros amser

1B – cyfran y bobl mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru o'i chymharu â'r cyfrannau cyfatebol yn yr Alban a rhanbarthau Lloegr.

2A – cyfrannau'r plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio sydd mewn aelwydydd incwm-isel dros amser.

2B – cyfran y plant mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru o'i chymharu â'r cyfrannau cyfatebol yn yr Alban a rhanbarthau Lloegr.

3A – cyfran y bobl mewn aelwydydd incwm-isel yn ôl statws teuluol.

3B – cyfran y bobl mewn aelwydydd o oedran gweithio ar incwm isel yn ôl statws gwaith.

### Uchafbwyntiau

Bu gostyngiad graddol, dros amser, yng nghyfrannau'r plant a'r pensiynwyr yng Nghymru sy'n dioddef tlodi incwm.


Mae cyfraddau tlodi incwm yng Nghymru erbyn hyn yn llawer agosach at y cyfartaledd ar gyfer Prydain gyfan, a hwythau'n arfer bod yn amlwg yn uwch.

Bu cwymp yng nghyfran y bobl sy'n dioddef tlodi incwm oherwydd diweithdra, a chynnydd yn y gyfran o ganlyniad i incwm gwaith isel.

# Tueddiadau mewn incwm isel


Dangosydd 1

## Mae cyfran y boblogaeth sydd islaw'r trothwy incwm-isel cyfoes wedi gostwng un rhan o chwech er 1994/95; mae'r gyfran islaw trothwy sefydlog wedi haneru.




**Ffynhonnell:** Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

## Mae cyfran y bobl sydd mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru wedi gostwng yn gynt nag yn y rhan fwyaf o weddill Prydain, sy'n golygu ei bod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr.




**Ffynhonnell:** Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

Dengys y graff cyntaf nifer y bobl a oedd yn byw mewn aelwydydd islaw 60 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol ym Mhrydain ym mhob blwyddyn ers 1994/95. Mae'r graff hefyd yn dangos y cyfran y boblogaeth a oedd yn byw mewn aelwydydd ag incwm islaw'r trothwy sefydlog o 60 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol ym Mhrydain ym 1994/95 (wedi'i addasu yn unol â chwyddiant prisiau).

Dengys yr ail graff sut y mae'r gyfran o'r boblogaeth a oedd mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru'n cymharu â rhanbarthau eraill ym Mhrydain Fawr. Ar gyfer pob rhanbarth, dengys y golofn gyntaf y gyfran gyfartalog ar incwm isel yn y blynyddoedd 1994/95 i 1996/97 a dengys yr ail golofn y gyfran gyfartalog ar incwm isel rhwng 2001/02 a 2003/04. Defnyddiwyd y cyfartaledd dros dair blynedd i wella dibynadwyedd y canlyniadau.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teuluoedd (FRS). Mae'r hunangyflogedig wedi'u cynnwys yn yr ystadegau. Mae incwm yn cyfeirio at incwm gwario'r aelwyd ar ôl didynnu costau tai. Mae'r holl ddata wedi'i gywerthu (ei addasu) i roi cyfrif am amrywiaeth ym maint a chyfansoddiad aelwydydd.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r FRS yn arolwg blynyddol gan y llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

Dangosydd 1

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag incwm isel

- Bu i gyfran y bobl ag incwm islaw'r trothwy incwm isel cyfoes (60 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol yn y flwyddyn gyfredol) ostwng o 27 y cant o'r boblogaeth ym 1997/98 i 22 y cant yn 2003/04. Mae'r gostyngiad hwn o ryw 100,000 o bobl yn golygu bod rhyw 650,000 o bobl yng Nghymru'n dioddef 'tlodi incwm' yn 2003/04.
- Yn yr un modd, cafwyd gostyngiad mawr yng nghyfran y bobl a chanddynt incwm islaw 50 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol. O'i chyferbynnu, ychydig iawn o ostyngiad a fu yn y gyfran sy'n byw islaw'r trothwy is byth o *40 y cant*.
- Golyga hyn fod nifer y bobl yng Nghymru sy'n dioddef yr hyn y gellid ei alw'n 'dlodi enbyd', rhyw 250,000 o bobl, heb newid dros y degawd diwethaf. Mae'r gostyngiadau a gafwyd felly wedi bod ymhlith aelwydydd yr oedd eu hincwm yn agosach at y trothwy o 60 y cant yn y lle cyntaf.
- Y gostyngiad a gafwyd yn y gyfran o'r bobl sy'n dioddef 'tlodi incwm' yng Nghymru dros y degawd diwethaf yw'r ail fwyaf ymhlith unrhyw un o ranbarthau Prydain, gan mai Gogledd Ddwyrain Lloegr yn unig a brofodd ostyngiad mwy. O ganlyniad, mae cyfran y bobl sy'n dioddef 'tlodi incwm' yng Nghymru erbyn hyn ychydig yn unig uwchlaw'r cyfartaledd Prydeinig.
- Wrth i incwm real y boblogaeth gyfan godi, mae nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd islaw trothwy incwm sefydlog wedi gostwng. Er enghraifft, bu i gyfran y bobl a chanddynt incwm islaw trothwy incwm isel sefydlog (60 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol yn 1994/95) ostwng o 24 y cant o'r boblogaeth ym 1997/98 i 12 y cant yn 2003/04.


## Yn ymwneud ag amddifadedd materol

- Gan adlewyrchu'r cynnydd mewn incwm real dros amser, mae'r gyfran o aelwydydd incwm-isel sydd heb ddetholiad o nwyddau hir-oes wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Felly, er enghraifft, roedd un rhan o chwech o'r bobl sydd yn y bumed dlotaf heb beiriannau golchi yn 2003 o'u cymharu â thraean ddegawd yn gynharach; roedd un rhan o chwech heb feicrodon yn 2003 o'u cymharu â hanner ddegawd yn gynharach ac roedd un rhan o ddeg heb rewgell o'u cymharu â thraean ddegawd yn gynharach.[3]

# Y risg o incwm isel fesul grŵp oedran


Dangosydd
2

**Mae cyfran y bobl sydd mewn aelwydydd incwm-isel wedi bod yn gostwng ymhlith pob grŵp oedran, ond mae'r gostyngiad cyflymaf wedi bod ymhlith plant.**




**Ffynhonnell**: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

**Mae cyfran y plant sydd mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru wedi gostwng yn gyflymach nag unrhyw le arall ym Mhrydain, gyn ised â'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr.**




**Ffynhonnell**: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

Dengys y graff cyntaf y risg sydd i berson fod mewn aelwyd incwm-isel, a rhoir data ar wahân ar gyfer plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio.

Dengys yr ail graff sut y mae cyfran y plant a oedd mewn aelwydydd incwm-isel yng Nghymru'n cymharu â rhanbarthau eraill ym Mhrydain Fawr. Ar gyfer pob rhanbarth, dengys y golofn gyntaf y gyfran gyfartalog ar incwm isel am y blynyddoedd 1994/95 i 1996/97 a dengys yr ail golofn y gyfran gyfartalog ar incwm isel rhwng 2001/02 a 2003/04. Defnyddiwyd y cyfartaleddau dros dair blynedd i wella dibynadwyedd ystadegol y canlyniadau.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teuluoedd (FRS). Mae incwm yn cyfeirio at incwm gwario'r aelwyd ar ôl didynnu costau tai. Mae'r holl ddata wedi'i gywerthu (ei addasu) i roi cyfrif am amrywiaeth ym maint a chyfansoddiad aelwydydd.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r FRS yn arolwg blynyddol gan y llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

Dangosydd 2

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â phlant sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel

- Mae cyfran y plant sy'n dioddef tlodi incwm wedi gostwng yn sydyn, ac yn gyflymach na'r gyfran ar gyfer y boblogaeth gyfan. Serch hynny, a hithau'n 27 y cant yn 2003/04, roedd y gyfran ar gyfer plant yn dal yn fwy nag ar gyfer oedolion o oedran gweithio a phensiynwyr.
- Mae'r gostyngiad yng nghyfran y plant sy'n dioddef tlodi incwm yng Nghymru dros y degawd diwethaf wedi bod yn fwy nag yn yr Alban ac unrhyw un o ranbarthau Lloegr. O ganlyniad, mae'r gyfradd tlodi ymhlith plant yng Nghymru, a arferai fod yn un o'r gwaethaf ym Mhrydain (Llundain a'r Gogledd Ddwyrain yn unig oedd â chyfraddau uwch) ganol y 1990au, erbyn hyn ar yr un lefel â Phrydain gyfan.
- Mae gwahaniaeth mawr rhwng y risg o dlodi incwm i blant mewn aelwydydd ag un oedolyn neu â dau oedolyn: mae dros hanner yr holl blant mewn aelwydydd un-rhiant yn byw ar incwm isel o'u cymharu ag un rhan o bump o'r plant mewn aelwydydd sy'n cynnwys cyplau. O ganlyniad, mae dros hanner y plant yng Nghymru erbyn hyn sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yn byw mewn aelwydydd un-rhiant.

## Yn ymwneud â phensiynwyr yn byw mewn aelwydydd incwm-isel

- Mae cyfran y pensiynwyr sy'n dioddef tlodi incwm hefyd wedi bod yn gostwng, o tua 25 y cant ganol y 1990au i tua 20 y cant yn awr. Nid yw pensiynwyr yn awr yn fwy tebygol o ddioddef tlodi incwm nag oedolion o oedran gweithio.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn tlodi ymhlith pensiynwyr wedi bod ymhlith pensiynwyr sengl. O ganlyniad, tra bo pensiynwyr sengl yn arfer wynebu risg uwch o dlodi na phensiynwyr a oedd yn byw mewn cyplau, nid felly y mae hi mwyach.


## Yn ymwneud ag oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel

- Mae cyfran yr oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel hefyd wedi bod yn gostwng, o gyfartaledd o 24 y cant o'r holl oedolion o oedran gweithio ganol y 1990au i gyfartaledd o 21 y cant erbyn hyn.
- Mae'r gostyngiad hwn i gyd wedi digwydd ymhlith oedolion o oedran gweithio a chanddynt blant dibynnol, y mae'r gyfran ohonynt sydd ar incwm isel wedi gostwng o tua 29 y cant ganol y 1990au i tua 24 y cant erbyn hyn.
- O'i gyferbynnu, mae'r risg o dlodi incwm ymhlith oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol wedi gostwng lai na 2 y cant, i 19 y cant. O fewn y grŵp hwn, mae'r risg i oedolion sengl bron â bod ddwywaith y risg i gyplau, hynny yw, 26 y cant o'i gymharu â 14 y cant.

# Y risg o incwm isel fesul math o deulu a statws gwaith


Dangosydd 3

## Mae traean o'r bobl mewn aelwydydd incwm-isel yn oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol.




**Ffynhonnell:** Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

## Mae gan ddwy ran o bump o'r bobl mewn aelwydydd o oedran gweithio sydd ar incwm isel rywun yn yr aelwyd sy'n gwneud gwaith y rhoddir tâl amdano.




**Ffynhonnell:** Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

Dengys y graff cyntaf ddadansoddiad o'r rheiny ar incwm isel, ac mae'r data wedi'i rannu'n grwpiau plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio â phlant dibynnol ac oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol. Dengys y cylch mewnol y cyfartaledd am y tair blynedd 1994/95 i 1996/97 a dengys y cylch allanol y cyfartaledd am y tair blynedd 2001/02 i 2003/04.

Dengys yr ail graff ddadansoddiad o aelwydydd incwm-isel yn ôl statws economaidd. Dengys y cylch mewnol y cyfartaledd am y tair blynedd 1994/95 i 1996/97 a dengys y cylch allanol y cyfartaledd am y tair blynedd 2001/02 i 2003/04. Nid yw aelwydydd hunangyflogedig nac aelwydydd y mae pen yr aelwyd neu'i briod yn 60 neu'n hŷn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teuluoedd (FRS). Defnyddiwyd y cyfartaleddau dros dair blynedd i wella dibynadwyedd ystadegol y canlyniadau. Mae incwm yn cyfeirio at incwm gwario'r aelwyd ar ôl didynnu costau tai. Mae'r holl ddata wedi'i gywerthu (ei addasu) i roi cyfrif am amrywiaeth ym maint a chyfansoddiad aelwydydd.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r FRS yn arolwg blynyddol gan y llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â'r holl aelwydydd yn ôl y math o deulu

- Dros y cyfnod 1994 i 1997, o'r rheiny a oedd yn dioddef tlodi incwm roedd 31 y cant yn blant, 24 y cant yn oedolion o oedran gweithio a chanddynt blant dibynnol, 27 y cant yn oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol, a 18 y cant yn bensiynwyr.
- Dros y cyfnod 2001 i 2004, ymhlith y rheiny a oedd yn dioddef tlodi incwm, roedd plant yn rhoi cyfrif am 29 y cant ac roedd oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol hefyd yn rhoi cyfrif am 29 y cant.
- O'r 640,000 o bobl a oedd yn byw mewn aelwydydd a oedd yn dioddef tlodi incwm yn 2003/04, roedd 170,000 yn blant a 120,000 yn bensiynwyr. O'r 350,000 o oedolion eraill o oedran gweithio, nid oedd gan 200,000 unrhyw blant dibynnol.
- O'r 120,000 o bensiynwyr a oedd yn dioddef tlodi incwm, roedd ychydig dros hanner yn byw fel cyplau tra bo traean arall yn fenywod sengl. Golyga hyn fod bron dwywaith gymaint o bensiynwyr benywaidd yn dioddef tlodi ag oedd o bensiynwyr gwrywaidd.
- O'r 350,000 o oedolion o oedran gweithio a oedd yn dioddef tlodi incwm, roedd ychydig yn fwy o fenywod na dynion. Roedd hanner y rhain yn byw fel cyplau a hanner fel pobl sengl. Nid oedd gan hanner y bobl sengl blant dibynnol.

## Yn ymwneud ag aelwydydd o oedran gweithio yn ôl statws gwaith

- O'r rheiny mewn aelwydydd o oedran gweithio a oedd yn dioddef tlodi incwm, roedd 27 y cant mewn aelwydydd lle'r oedd yr oedolion yn cael eu cyfrif yn ddi-waith yn y cyfnod 1994 i 1997. Erbyn 2001 i 2004, roedd y gyfran hon wedi haneru, i 13 y cant yn unig.
- O'i chyferbynnu, cynyddodd cyfran y bobl mewn aelwydydd o oedran gweithio a oedd yn dioddef tlodi incwm ac a oedd ag o leiaf un oedolyn yn gweithio o 30 y cant ganol y 1990au i 37 y cant dros y cyfnod 2001 i 2004.
- O ganlyniad, roedd teirgwaith gymaint o bobl yn 2001 i 2004 yn dioddef 'tlodi mewn gwaith' ag oedd yn dioddef tlodi yn sgîl diweithdra. Ganol y 1990au, o'i gyferbynnu, roedd y ddau grŵp yn debyg o ran maint.
- Er bod y 'siariau' o dlodi incwm y mae gwahanol fathau o aelwydydd yn rhoi cyfrif amdanynt wedi newid ers canol y 1990au, prin fod y risg o dlodi a wynebir gan bob math o aelwyd wedi newid o gwbl. Oni bai fod yr holl oedolion yn yr aelwyd yn gweithio (ac o leiaf un ohonynt yn gweithio'n llawn-amser), mae'r risgiau'n uchel: 80 i'r di-waith; 60 y cant i bobl eraill heb waith; ac 20 y cant i'r rheiny sy'n gwneud rhywfaint o waith am dâl.
- Golyga hyn fod y gostyngiad ar y cyfan mewn tlodi incwm ymhlith aelwydydd o oedran gweithio wedi digwydd oherwydd bod pobl wedi symud o'r categorïau risg-uchel (hynny yw, dim gwaith) i gategorïau risg-is (hynny yw, mewn gwaith) yn hytrach nag oherwydd gostyngiad yn y risg o fewn unrhyw gategori penodol.

# Dosbarthiad incwm isel

Nid yw data swyddogol am gyfrannau'r bobl sy'n dioddef tlodi incwm mewn gwahanol rannau o Gymru'n cael ei gyhoeddi gan ystadegwyr y Llywodraeth. Yn hytrach, Cymru, Yr Alban a rhanbarthau Lloegr yw'r lefel isaf y mae data o'r fath ar gael arni. Fodd bynnag, mae cryn ddiddordeb yn yr amrywiaeth rhwng nifer yr achosion o dlodi incwm ledled Cymru. Er mwyn paratoi amcangyfrifon o dlodi ar gyfer gwahanol rannau o Gymru, mae'r adran hon yn cyfuno'r data ar gyfer Cymru gyfan yng nghyswllt tlodi incwm â data ar lefel yr awdurdodau lleol yn ymwneud â'r niferoedd sy'n hawlio amryw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth.

Caiff y canlyniadau'u cyflwyno ar gyfer y saith isranbarth a ddiffiniwyd yn y cyflwyniad.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

4A – amcangyfrif o gyfran y plant sydd mewn aelwydydd incwm-isel ym mhob un o'r saith isranbarth.

4B – amcangyfrif o gyfran y plant a chyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd mewn aelwydydd incwm-isel ym mhob un o'r saith isranbarth.

5 – map; ardaloedd bychain yng Nghymru â lefelau uchel o bobl yn hawlio un neu fwy o nifer o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol.

## Uchafbwyntiau

Mae'r plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi'u dosbarthu fwy neu lai'n gyfartal rhwng y Cymoedd, Caerdydd, y De a gweddill y wlad.

Mae'r bwlch rhwng cyfraddau tlodi ymhlith plant ac oedolion o oedran gweithio ar ei fwyaf yng Nghaerdydd ac ar ei leiaf yn y Cymoedd.

Yn ogystal â'r Cymoedd, mae ardaloedd lleol bychain â chrynodiadau amlwg o aelwydydd incwm-isel i'w cael ar hyd arfordir Gogledd Cymru, de Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.

## Tlodi incwm a budd-daliadau/credydau treth

Nid yw pobl sy'n dioddef tlodi incwm a phobl sy'n derbyn naill ai credydau treth neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol â phrawf moddion megis Cymhorthdal Incwm (CI), Lwfans Ceisio Gwaith (LCG) neu'r elfen Credyd Gwarant o'r Credyd Pensiwn wastad yr un bobl ar unrhyw gyfrif. Ar y naill law, nid yw lleiafrif sylweddol o'r rheiny sy'n dioddef tlodi incwm yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau hyn. Ar y llaw arall, mae gan hyd yn oed rhai o'r bobl sy'n derbyn CI neu LCG incwm aelwyd sydd uwchben y ffin tlodi. Mae sefyllfa pobl sy'n derbyn naill ai Budd-dal Analluogrwydd (BA) neu Lwfans Anabledd Difrifol (LAD) hyd yn oed yn fwy cymysg. Mae gan unrhyw un sy'n dibynnu'n llwyr ar y budd-daliadau hyn incwm isel ond mae hefyd yn ddigon posib i rywun nad yw ei incwm yn isel dderbyn y budd-daliadau hyn.


Golyga hyn nad yw'r map sy'n seiliedig ar y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau penodol yn un y gellir ei ddehongli'n llwyr fel un sy'n dangos tlodi incwm; serch hynny, mae'n dal i roi darlun da o'r ardaloedd yng Nghymru y mae incwm isel yn arbennig o gyffredin ynddynt.

O'u cyferbynnu, gellir dehongli'r ddau graff fel rhai sy'n ymdrin yn uniongyrchol â thlodi incwm, gan eu bod yn cloriannu'r ffigyrau crai o ran niferoedd sy'n derbyn budd-daliadau gan ddefnyddio data ar lefel Cymru gyfan am y cysylltiad rhwng budd-daliadau a thlodi incwm.

## Newidiadau diweddar ac yn y dyfodol ym mhoblogaeth y plant

Dengys y graff isod, ar gyfer pob isranbarth yng Nghymru, ganran y newid dros 10 mlynedd i 2003 ym maint poblogaeth y plant dan 5 oed a phlant 5 i 19 mlwydd oed. Dengys hefyd y rhagfynegiad swyddogol am y 10 mlynedd nesaf o ran sut y bydd y poblogaethau hyn yn newid ledled Cymru gyfan.

**A1: Canran y newid 1993-2003 oni nodir yn wahanol**





Er bod poblogaeth y plant wedi amrywio mewn ffordd braidd yn gymysg dros y 10 mlynedd i 2003, dros y degawd nesaf rhagwelir gostyngiad amlwg. Mae'r gostyngiad hwn eisoes yn amlwg ym mhoblogaeth y plant dan 5, ac mae patrwm poblogaeth y plant dan 5 yn yr isranbarthau dros y degawd diwethaf yn ddangosydd da o'r patrwm tebygol yn yr isranbarthau ar gyfer holl boblogaeth y plant dros y degawd nesaf. Mae'r gostyngiad sylweddol a ddisgwylir ym mhoblogaeth y plant, sydd ar ei fwyaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn gyfle i ystyried sut y caiff adnoddau eu defnyddio a hynny dan rywfaint yn llai o bwysau.

# Incwm isel fesul isranbarth yng Nghymru


Dangosydd 4

## Mae traean o'r plant mewn aelwydydd incwm-isel yn byw yn y Cymoedd, a thraean arall yng Nghaerdydd a'r De.




**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon yr NPI yn seiliedig ar ddata am fudd-daliadau gan y DWP, data am gredydau treth gan Gyllid a Thollau EM ac Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

## Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfran y plant a'r oedolion sydd mewn aelwydydd incwm-isel ar ei fwyaf yng Nghaerdydd.




**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon yr NPI yn seiliedig ar ddata am fudd-daliadau gan y DWP, data am gredydau treth gan Gyllid a Thollau EM ac Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, DWP

Dengys y graff cyntaf amcangyfrifon o ran cyfran y plant mewn aelwydydd incwm-isel (a ddiffinnir fel 60 y cant o'r incwm aelwyd canolrifol cyfoes ym Mhrydain ar ôl didynnu costau tai) sy'n byw ym mhob un o'r saith 'isranbarth' yng Nghymru.

Dengys yr ail graff amcangyfrifon o ran cyfrannau a) y plant a b) yr oedolion o oedran gweithio ym mhob un o'r saith isranbarth sydd mewn aelwydydd incwm-isel.

Yn y ddau achos, mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u deillio o ddadansoddiad o'r gyfres ddata *Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog* ar gyfer 2003/04 yng Nghymru gyfan i ganfod cyfran y bobl sy'n derbyn amryw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth sydd mewn aelwydydd incwm-isel. Y budd-daliadau hyn oedd: Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant. Wedyn cymhwyswyd y cyfrannau hyn i ddata'n ymwneud â niferoedd y bobl sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn ar lefel yr awdurdod lleol.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig*** (plant); ***isel*** (oedolion). Er bod ffynonellau'r data'n rhai sydd wedi hen ennill eu plwyf ac yn rhai sy'n cael eu parchu, mae'r cysylltiad rhwng budd-daliadau/credydau treth ac incwm isel yn uwch ar gyfer plant (90 y cant o'r rheiny mewn aelwydydd incwm-isel yn derbyn o leiaf un o'r budd-daliadau neu'r credydau treth hyn) nag ar gyfer oedolion (60 y cant).

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â dosbarthiad daearyddol plant mewn tlodi

- Mae tua thraean o'r holl blant sy'n dioddef tlodi incwm yng Nghymru – 50,000 o blant – yn byw yn y chwe ardal awdurdod lleol yn y Cymoedd sef Castell-nedd a Phort Talbot, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.
- Serch hynny, mae niferoedd uchel o blant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n dioddef tlodi incwm i'w cael ledled Cymru. Mae un rhan o ddeg ohonynt yn byw yng Nghaerdydd. Mae un rhan o bump yn byw yng ngweddill de Cymru (Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Bro Morgannwg). Rhyngddynt, mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn yr ardaloedd hyn yn cyfateb i nifer y rhai sy'n byw yn y Cymoedd.
- Mae nifer tebyg eto'n byw mewn rhannau eraill o Gymru: 12 y cant yn y Gorllewin (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion); 12 y cant yn y Gogledd Orllewin (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych); 8 y cant yn y Gogledd Ddwyrain (Wrecsam a Sir y Fflint); a 5 y cant yn y Dwyrain (Sir Fynwy a Phowys).

## Yn ymwneud â chyfraddau tlodi ymhlith plant ac oedolion o oedran gweithio


- O ran cyfradd tlodi ymhlith plant – hynny yw, cyfran y plant mewn ardal arbennig sy'n dioddef tlodi incwm – mae'r chwe ardal awdurdod lleol yn y Cymoedd yn sefyll allan, gan fod y gyfran yma'n uwch na 30 y cant. Ar ben arall y sbectrwm, yn y Dwyrain a'r Gogledd Ddwyrain, mae'r gyfran oddeutu 20 y cant. Ym mhob un o'r ardaloedd eraill – Caerdydd, y De, y Gorllewin a'r Gogledd Orllewin – mae'r gyfradd tlodi ymhlith plant oddeutu 27 y cant.
- Ar gyfartaledd yn unrhyw un o'r ardaloedd hyn, mae'r gyfradd tlodi ymhlith plant oddeutu traean yn uwch nag ymhlith oedolion o oedran gweithio. Serch hynny, mae amrywiaeth amlwg bob ochr i'r cyfartaledd hwn. Felly, yn y Cymoedd nid yw'r gyfradd tlodi ymhlith plant ond un rhan o bump yn uwch na'r gyfradd ymhlith oedolion o oedran gweithio. O'i chyferbynnu, mae'r gyfradd ddwy ran o bump yn uwch yng Nghaerdydd.

# Map: Dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth

**Dangosydd 5**

## Dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth

Mae wardiau'n cynnwys llawer o bobl sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, er bod crynodiad ohonynt yn y Cymoedd a'r pedair dinas fwyaf, i'w cael ledled Cymru.



Dangosydd 5

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â chrynodiadau uchel o bobl yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth

- Mae'r mesur o incwm isel a ddefnyddir yma'n seiliedig ar y gyfran o'r boblogaeth ym mhob ward etholiadaol sy'n derbyn Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol neu unrhyw un o'r prif fudd-daliadau â phrawf moddion, sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu'r Gwarant Credyd Pensiwn.[4] Nid yw'r rheiny sy'n derbyn credydau treth na'r pensiynwyr nad ydynt ond yn derbyn Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth wedi'u cynnwys. Mae hwn felly'n fap sy'n dangos wardiau yng Nghymru ac ynddynt lefelau uchel o incwm isel yn sgîl dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth nad ydynt yn ymwneud â gwaith.
- Y wardiau yn y chweched uchaf yw'r rheiny yr oedd cyfran y bobl ynddynt a oedd yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth yn uwch na 25 y cant. Mae'r rhai yn yr ail chweched yn cynnwys rhwng 20 y cant a 25 y cant sy'n ddibynnol a'r rheiny yn y drydedd chweched yn cynnwys rhwng 16 y cant ac 20 y cant.
- Mae hanner y wardiau sydd â'r lefel uchaf o ran dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth (h.y. lle mae cyfran y bobl sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth yn uwch na 25%) yn y Cymoedd.
- Mae dwy ran o dair o'r wardiau yn ardal awdurdod lleol Merthyr Tudful yn rhai sydd â'r lefel uchaf hon o ddibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Mae'r un peth yn wir am fwy na hanner y wardiau ym Mlaenau Gwent a mwy na thraean o'r wardiau yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chastell-nedd a Phort Talbot.
- Y tu allan i'r Cymoedd, mae dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau'r wladwriaeth yn ymron hanner y wardiau yn Llanelli, ac mae'r un peth yn wir am rhwng chwarter a thraean o'r wardiau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Mae wardiau yn Llanelli a'r pedair ardal awdurdod lleol hon yn rhoi cyfrif am bumed arall o'r holl wardiau yng Nghymru sydd â dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau'r wladwriaeth.
- Heblaw am Sir Fynwy, mae wardiau â'r lefel uchaf hon o ddibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth i'w cael ym mhob ardal awdurdod lleol arall. Mae trefi yn yr ardaloedd hyn ac ynddynt fwy nag un ward o'r fath yn cynnwys Caergybi, Y Rhyl, Caernarfon a'r Barri.
- Mae rhai gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd sydd â'r lefel uchaf o ddibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth a'r rheiny sydd â lefelau dibyniaeth sydd yn uwch na'r cyfartaledd yn unig. Mae mwy na thair ym mhob pump o'r wardiau ym Mhen-y-bont, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin yn rhai sydd â lefelau uwch na'r cyfartaledd o ran dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth.
- O'u cymharu, yng Nghaerdydd mae llai na hanner y wardiau'n rhai sydd â lefelau dibyniaeth sy'n uwch na'r cyfartaledd, er bod mwy na chwarter ohonynt yn rhai sydd â lefelau uchel o ddibyniaeth. Mae'r lefelau yn Abertawe'n cyfateb i'r cyfartaledd ar y ddau fesur. Y darlun y mae hyn yn ei greu – ac mae'r map ei hun yn dangos hyn yn glir - yw bod Caerdydd, yn fwy nag unrhyw le arall yng Nghymru, yn lle y mae anghydraddoldeb incwm yn amlwg ynddo.

Dengys y map sut y mae cyfran yr oedolion sy'n derbyn budd-daliadau allweddol 'nad ydynt yn ymwneud â gwaith' yn amrywio o un ward etholiadol i'r llall.

Dim ond wardiau sydd â chyfran uwch na'r cyfartaledd sydd wedi'u graddliwio, gyda'r lliw tywyllaf yn dynodi'r chweched o wardiau sydd â'r cyfrannau uchaf, y lliw nesaf yn dangos yr ail chweched a'r lliw goleuaf yn dangos y drydedd chweched.

Gydag oedolion o oedran gweithio, caiff pobl eu cynnwys yn y cyfrifiad os ydynt yn derbyn unrhyw un o'r canlynol: Lwfans Ceisio Gwaith (LCG), Cymhorthdal Incwm (CI), Budd-dal Analluogrwydd (BA) neu Lwfans Anabledd Difrifol (LAD). Defnyddir y mesur hwn, yn hytrach na'r mesur culach o LCG a CI yn unig, am fod y rhai sy'n derbyn BA a LAD hefyd allan o waith ac mae gan nifer ohonynt incwm isel.

Gyda phensiynwyr, caiff pobl eu cynnwys yn y cyfrifiad os ydynt yn derbyn y Gwarant Isafswm Incwm (a elwir erbyn hyn yn elfen gwarant o'r Credyd Pensiwn). Dyma'r prif fudd-dal â phrawf moddion i bensiynwyr.

Mae'r data hwn yn cyfeirio at Awst 2003 ac yn deillio o Ganolfan Wybodaeth y DWP. Mae'r data ar gyfer oedolion o oedran gweithio wedi'i brosesu i osgoi cyfrif pobl sy'n derbyn mwy nag un o'r budd-daliadau ddwywaith. Defnyddiwyd poblogaethau o gyfrifiad 2001 ar gyfer pob ward er mwyn cyfrifo'r cyfrannau sy'n derbyn y budd-daliadau.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Caiff y data ei hun ei ystyried yn ddibynadwy iawn ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y DWP er mwyn gweinyddu budd-daliadau. Mae'r anawsterau'n ymwneud â'r dehongliad o'r data o gofio mai mesur o'r niferoedd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ydyw ac nid cyfrifiad uniongyrchol o bobl ar incwm isel. Felly, er enghraifft, nid yw'n cynnwys aelwydydd sydd â rhywun yn gweithio ond sy'n dal i fod ar incwm isel.

# Pennod 2 Addysg

| *Thema* | *Dangosydd/map* |
|---|---|
| Plant ag ychydig o gymwysterau | 6: Addysg ac amddifadedd |
| | 7: Ychydig o gymwysterau yn 16 mlwydd oed |
| Addysg oedolion | 8: Ychydig o gymwysterau yn 17, 19 a 24 mlwydd oed |
| | 9: Mynediad i addysg uwch |
| | 10: Cyfranogiad oedolion |

# Plant ag ychydig o gymwysterau

Mae pwysigrwydd addysg i gyfleoedd bywyd pobl ifanc yn hysbys i bawb. Dros y cyfnod diwethaf o ryw 20 mlynedd, mae addysg wedi dod hyd yn oed yn bwysicach wrth i nifer o lwybrau traddodiadol i'r farchnad waith ar gyfer y rhai heb gymwysterau gael eu cau. Mae'n rhaid wrth lefelau uwch o ran cymwysterau a sgiliau gwahanol er mwyn llwyddo yn yr economi sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth.

Nid 'manteision addysg' i'r economi yw'r unig reswm dros edrych ar gyrhaeddiad addysgol. Gall perfformiad gwael yn yr ysgol effeithio ar hunan-fri a hyder plentyn. Mae hefyd yn effeithio ar y tebygolrwydd o gyfranogi o ddysgu fel oedolyn, ac mae manteision hyn yn ymestyn y tu hwnt i gyflogaeth.

Er bod tueddiadau cyffredinol mewn canlyniadau pan fo plant yn 16 yn bwysig iawn, mae'r prif bwyslais o ran yr hyn sydd o bwys i ni yma ar ganlyniadau plant o gefndiroedd difreintiedig. Yn arbennig, os oes pris uchel i'w dalu am 'fethu' yn 16 mlwydd oed, ac os yw'r tebygolrwydd o fethiant gymaint yn uwch i'r rheiny sydd eisoes yn ddifreintiedig, yna yn hytrach na 'chyfleoedd i bawb', mae gennym system sy'n golygu bod anfantais yn rhaeadru o un genhedlaeth i'r llall.

## Y dewis o ddangosyddion

Mae'r dangosyddion yn yr adran hon yn ymwneud â pherfformiad disgyblion sy'n derbyn addysg orfodol, gan ganolbwyntio ar y disgyblion ar gyfartaledd a disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, a chan ddefnyddio data'n ymwneud â hawl i brydau ysgol yn rhad ac am ddim fel arwydd er mwyn mesur amddifadedd. Y dangosyddion yw:

6A – cyfran yr holl blant 11 mlwydd oed sy'n methu â chyrraedd lefel 4 mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2, o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion difreintiedig.

6B – cyfran yr plant 16 mlwydd oed sy'n methu ag ennill 5+ cymhwyster TGAU (gan gynnwys GNVQ) yn ôl lefel amddifadedd yr ysgol.

7A – cyfran y disgyblion heb unrhyw gymwysterau TGAU, â llai na 5 cymhwyster TGAU (gan gynnwys GNVQ) a llai na 5 gradd TGAU 'dda' dros amser.

7B – cyfran y disgyblion yng Nghymru heb unrhyw gymwysterau TGAU ac â llai na 5 cymhwyster TGAU (gan gynnwys GNVQ) o'i chymharu â'r gyfran yn rhanbarthau Lloegr.

### Uchafbwyntiau

Ar gyfer disgyblion yn gyffredinol, pan eu bod yn 11 ac yn 16, daeth y gwelliannau amlwg mewn canlyniadau addysgol yn ail hanner y 1990au i ben yn gyffredinol tua 2000.


Roedd disgyblion o gefndiroedd mwy amddifadus hefyd yn rhan o'r gwelliant hwnnw, er na fu i'r bwlch mewn perfformiad ymhlith disgyblion fynd yn llai ar gyfartaledd.

Mae cyfran y disgyblion sydd naill ai'n ennill dim cymwysterau neu'n ennill ychydig yn unig o gymwysterau pan eu bod yn 16 yn uwch yng Nghymru nag yn yr Alban ac unrhyw un o ranbarthau Lloegr.

## Y berthynas rhwng canlyniadau plant 11 ac 16 mlwydd oed

Mae'r ffigur isod yn cymryd mesurau o ganlyniadau addysgol plant 11 ac 16 mlwydd oed ym mhob ardal awdurdod lleol ac yn eu plotio ochr yn ochr â'i gilydd. Ar y cyfan, mae perthynas eglur rhwng canran y plant 11 mlwydd oed yn yr ardal awdurdod lleol a fethodd â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 a chanran y plant 16 mlwydd oed a fethodd â chael o leiaf 5 TGAU. Mae yma hefyd gryn amrywiaeth rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, gan fod y gyfran o ran y rheiny sy'n methu â chyrraedd y lefel benodedig ddwywaith yn uwch yn yr ardal waethaf, ymhlith plant 11 ac 16 mlwydd oed.

**A2: Addysg: Plant 16 mlwydd oed o'u cymharu â phlant 11 mlwydd oed**




Serch hynny, mae eithriadau arwyddocaol i'r berthynas gyffredinol. Yn arbennig, mae'n amlwg faint yn waeth yw sgôr Caerdydd ac Abertawe o safbwynt perfformiad plant 16 mlwydd oed nag y byddai eu sgôr yng nghyswllt plant 11 mlwydd oed yn ei awgrymu; hynny yw, mae eu sgôr yng nghyswllt plant 11 mlwydd oed yn cyfateb i'r cyfartaledd ond maent yn gydradd ail waethaf (er nad yw'r bwlch ond yn un bach) o ran y sgôr am berfformiad plant 16 mlwydd oed. O'u cyferbynnu, Sir y Fflint a Gwynedd, sy'n cael sgôr ychydig yn llai na'r cyfartaledd am berfformiad plant 11 mlwydd oed, sy'n ail ac yn drydydd o ran y sgorau gorau am berfformiad plant 16 mlwydd oed.


Un eglurhad posib am y newid mewn perfformiad yng Nghaerdydd ac Abertawe yw bod y cyfartaledd yn cael ei ostwng gan ychydig o ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, cafodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r 50 ysgol uwchradd sydd â mwy na 25 y cant o blant yn derbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim fod 10 wedi gwneud cynnydd mwy sylweddol nag y byddai disgwyl iddynt ei wneud rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac wyth arall o gryn dipyn.[1]

Mae amrediad o ffactorau wedi'u nodi gan ysgolion uwchradd mewn ardaloedd amddifadus fel rhai sy'n effeithio ar gyrhaeddiad. Maent yn cynnwys: bod â phersonél allweddol i hybu gwelliant; monitro'r dysgu a'r addysgu a hyrwyddo arferion effeithiol; gwneud defnydd effeithiol o ddata am gyrhaeddiad; a chanolbwyntio ar faterion megis symud rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3, llythrennedd, rheoli ymddygiad, a phresenoldeb.[2]

# Addysg ac Amddifadedd


Dangosydd 6

## Mae cyfran y plant 11 mlwydd oed mewn ysgolion amddifadus sy'n methu â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gostwng yn sydyn ond mae'n dal yn llawer uwch nag ar gyfer plant 11 mlwydd oed ar gyfartaledd.




**Ffynhonnell:** Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion mewn Arholiadau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Er bod y bylchau wedi mynd yn llai tua diwedd y 1990au, mae cysylltiad cryf yn dal i fod rhwng canlyniadau TGAU ac amddifadedd.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiadau'r NPI gan ddefnyddio data ar lefel ysgolion am brydau ysgol am ddim a chanlyniadau TGAU, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r graff cyntaf yn cymharu cyfran y plant sy'n methu â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 mlwydd oed) mewn ysgolion sydd ag o leiaf 33 y cant o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim â'r gyfran ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn y brif ffrwd. Mae'r graff yn dangos Saesneg, Mathemateg a Chymraeg ar wahân ac yn dangos newidiadau dros amser. Ffynhonnell y data yw Ystadegau Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r ail graff yn cymharu cyfran y myfyrwyr a fethodd ag ennill pump TGAU neu fwy (A*-G) ar gyfer grwpiau o ysgolion a chanddynt wahanol gyfrannau o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Gyda'r data ar gyfer pob blwyddyn, mae'r canlyniadau TGAU a'r gyfran a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn berthnasol i'r flwyddyn honno. Dewiswyd y dull o grwpio ysgolion er mwyn rhoi'r enghraifft orau o'r gwahanol dueddiadau. Ffynonellau'r data yw data ar lefel ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'n dangos canlyniadau TGAU ar gyfer plant 15 mlwydd oed ac ar gyfran yr holl ddisgyblion a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'n cynnwys pob ysgol uwchradd a gynhelir gan awdurdod lleol. Os nad oedd y canlyniadau TGAU neu'r data am brydau ysgol am ddim ar gyfer ysgolion penodol mewn blynyddoedd penodol yn hysbys, yna nid yw'r ysgolion hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad am y flwyddyn honno.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Er bod y data'i hun yn ddigon cadarn, mae'r dewis o'r lefelau penodol o lwyddiant mewn arholiadau'n fater o farn.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â phlant 11 mlwydd oed

- Mewn ysgolion y mae gan fwy na thraean o'u disgyblion hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, gostyngodd cyfran y plant a oedd yn methu â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Saesneg o 49 y cant ym 1997 i 32 y cant yn 2004. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad dros yr un cyfnod ar gyfer ysgolion ar gyfartaledd o 33 y cant i 18 y cant. Felly, mae canlyniadau wedi bod yn gwella, i ysgolion amddifadus ac ysgolion ar gyfartaledd, ond mae'r bwlch rhyngddynt yn dal i fod yn un mawr.
- Mae'r ffigyrau sy'n dangos y gyfran a oedd yn methu â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Mathemateg yn debyg. Un gwahaniaeth posib rhwng y ffigyrau ar gyfer Mathemateg a Saesneg yw, er bod y canlyniadau ar gyfer Saesneg i'w gweld fel pe baent wedi sefydlogi yn 2002, ymddengys fod y canlyniadau Mathemateg yn dal ar daflwybr tuag i lawr (hynny yw, yn gwella).
- Er bod y ffigyrau ar gyfer Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dangos rhai nodweddion tebyg, mae gwahaniaethau pwysig hefyd. Ar gyfartaledd mewn ysgolion, roedd perfformiad ym 1997 mewn Cymraeg yn waeth nag mewn Saesneg neu Fathemateg ond, erbyn 2004, roedd perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc union yr un fath mewn gwirionedd. O'i gyferbynnu, o ran ysgolion yr oedd gan gyfran uchel o'u plant hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad mewn Cymraeg yn llawer gwell nag mewn Saesneg na Mathemateg ym 1997 ond, erbyn 2004, roedd ychydig yn waeth nag yn y pynciau eraill hyn. Mae'n rhaid wrth rywfaint o bwyll wrth drin y cymariaethau hyn fodd bynnag, gan mai 18 y cant yn unig o'r holl blant mewn ysgolion cynradd yng Nghymru gafodd eu hasesu mewn Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2004.[3]


## Yn ymwneud â phlant 16 mlwydd oed

- Roedd cyfran y disgyblion a fethodd â chael o leiaf 5 TGAU yn amlwg yn is yn 2004 na degawd yn gynharach ym mhob grŵp o ysgolion bron iawn, beth bynnag fo'r nifer o ddisgyblion ynddynt o gefndiroedd difreintiedig.
- Yn fwy penodol, mae'r gyfran hon wedi gostwng ryw draean dros y degawd, ac ymddengys fod hyn wedi digwydd ni waeth beth fo lefel y difreintedd. Felly ymhlith y ddegfed o ysgolion â'r gyfran uchaf o ran disgyblion a chanddynt hawl i brydau ysgol am ddim, gostyngodd cyfran y disgyblion oedd yn methu cael 5 TGAU o 38 y cant ym 1995 i 27 y cant yn 2004. Ymhlith y bumed o ysgolion â'r nifer isaf o ran disgyblion a chanddynt hawl i brydau ysgol am ddim, gostyngodd y gyfran o 9 y cant i 6 y cant.
- Dros y cyfnod i 2000, roedd gostyngiad amlwg yn y bwlch rhwng perfformiad ysgolion â nifer o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig a pherfformiad mewn ysgolion eraill. Ers hynny, nid yw'r bwlch wedi lleihau ymhellach, ac mae'n dal i fod yn fawr.

# Ychydig o gymwysterau yn 16 mlwydd oed


Dangosydd
7

## Mae'r gyfran sy'n methu â chael 5 gradd TGAU dda wedi parhau i ostwng, ond mae'r gyfran sy'n methu â chael 5 TGAU o gwbl wedi rhoi'r gorau i ostwng ers 1999/2000.




**Ffynhonnell:** Cyhoeddiadau Ystadegol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Mae cyfran y plant 16 mlwydd oed ag ychydig o gymwysterau TGAU lawer yn uwch yng Nghymru nag mewn mannau eraill oherwydd y niferoedd nad ydynt yn cael yr un TGAU.




**Ffynhonnell:** Cyhoeddiadau Ystadegol gan DfES (Lloegr) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymru)

Dengys y graff cyntaf gyfran y myfyrwyr (a ddiffinnir fel disgyblion a oedd yn 15 ar 31 Awst yn y flwyddyn galendr cyn sefyll yr arholiadau) a fethodd ag ennill pum TGAU neu fwy gan gael gradd C neu radd uwch, a chaiff y data'i ddangos ar wahân ar gyfer y rheiny na chawsant gymhwyster TGAU o gwbl (naill ai am na wnaethant sefyll yr arholiad neu am na fu iddynt lwyddo yn unrhyw arholiad), y rhai a enillodd rywfaint o gymwysterau TGAU (A*-G) ond llai na 5, a'r rheiny a enillodd bump TGAU neu fwy ond a enillodd lai na phum gradd C neu uwch.

Ffynhonnell y data yw Ystadegau Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r data'n cynnwys pob ysgol yng Nghymru.

Mae'r ail graff yn cymharu cyfran y myfyrwyr yng Nghymru a fethodd ag ennill pum TGAU neu fwy (A*-G) â'r rheiny yn rhanbarthau Lloegr, a dangosir data ar wahân ar gyfer 1998 a 2004.

Ffynonellau'r data yw DfES a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r data'n cynnwys yr holl ysgolion a gynhelir.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Er bod y data'i hun yn ddigon cadarn, mae'r dewis o'r lefelau penodol o lwyddiant mewn arholiadau'n fater o farn.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â'r tueddiadau dros amser

- Methodd 10.5 y cant o blant 16 mlwydd oed ym 1994/95 ag ennill unrhyw gymwysterau TGAU o gwbl. Erbyn 2003/04, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 7.5 y cant.
- Enillodd 10 y cant o blant 16 mlwydd oed rywfaint o gymwysterau TGAU, ond llai na phump ym 1994/95. Erbyn 2003/04, roedd y gyfran hon hefyd wedi gostwng i 7.5 y cant.
- Enillodd 38 y cant o blant 16 mlwydd oed bum TGAU neu fwy ym 1994/95 ond ni wnaethant ennill pum gradd TGAU 'dda', hynny yw A i C. Erbyn 2003/04, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 34 y cant.
- Ar y cyfan, felly, methodd 59 y cant o blant 16 mlwydd oed ag ennill pum gradd TGAU 'dda' ym 1994/95. Erbyn 2003/04, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 49 y cant.
- Ymhlith y disgyblion na chawsant unrhyw gymwysterau TGAU o gwbl neu a enillodd lai na phump, digwyddodd yr holl welliant bron iawn yn y cyfnod hyd at 1999/00. O'i gwrthgyferbynnu, mae'r gyfran sy'n cael pum TGAU neu fwy ond nid pum gradd 'dda' wedi parhau i ostwng yn araf ond yn gyson.
- Nid yw'r ffaith bod y gostyngiad yn y gyfran sydd naill ai'n methu ag ennill unrhyw gymwysterau TGAU neu sy'n ennill llai na phum TGAU wedi dod i ben ar droad y degawd yn unigryw i Gymru. Gellir gweld union yr un duedd yn y canlyniadau ar gyfer Lloegr.[4]

## Yn ymwneud â'r gymhariaeth â rhanbarthau Lloegr

- Er gwaethaf gostyngiad sylweddol rhwng 1998 a 2004, roedd cyfran y disgyblion a gafodd lai na phum TGAU yn uwch yn y ddwy flynedd yng Nghymru nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr.
- Yr hyn sy'n achosi i Gymru sefyll allan yn hyn o beth yw'r gyfran uchel o ddisgyblion nad ydynt yn ennill yr un TGAU – tua 7.5 y cant o'u cymharu â rhwng 4 y cant a 6 y cant yn rhanbarthau Lloegr.
- Mae'r sefyllfa anffafriol hon ar gyfer plant 16 mlwydd oed yng Nghymru'n gwbl wahanol i'r sefyllfa pan fo disgyblion yn 11, gan fod y cyfrannau a fethodd â chyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Saesneg a Mathemateg yn is yng Nghymru nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr.[5]

# Addysg Oedolion

Y farn gyffredinol yw bod addysg ôl-16, neu ddysgu gydol oes, yn elfen bwysig o adfywio economaidd a chymdeithasol. Mae gan ddysgu gydol oes y potensial i gyfrannu at adfywio economaidd trwy sicrhau bod y gweithlu'n parhau i ddysgu ac addasu'i sgiliau fel y gall wynebu'r heriau mewn marchnad waith sy'n newid, a dod yn fwy effeithlon ac yn fwy seiliedig ar wybodaeth. Gall gyfrannu at adfywio cymdeithasol trwy sicrhau bod y rheiny na fu iddynt elwa o addysg a dysgu yn gynharach yn eu profiadau addysgol yn cael cyfle newydd, a thrwy hynny eu helpu i gael gwaith a chwarae mwy o ran yn y gymdeithas.

## Y Wlad sy'n Dysgu

Caiff y manteision uchod eu cydnabod yn *Y wlad sy'n dysgu* – strategaeth y Cynulliad ar gyfer dysgu hyd at 2010. Amcanion y strategaeth yw cael gwared ar rwystrau i ddysgu, ehangu cyfranogiad, a datblygu sgiliau ar gyfer y gweithlu.[6]

Mae *Y wlad sy'n dysgu* yn amcanu gostwng nifer y bobl 19 mlwydd oed heb gymwysterau NVQ ar lefelau 2 a 3.[7] Mae cymwysterau ar gyfer oedolion ifanc yn bwysig gan fod cydgysylltiad agos iawn rhwng diffyg cymwysterau neu ychydig o gymwysterau â diweithdra a thâl isel.

Mae *Y wlad sy'n dysgu* hefyd yn amcanu ehangu mynediad at addysg uwch. Er nad yw addysg uwch yn hanfodol ar unrhyw gyfrif, ac er nad yw diffyg addysg uwch yn un o benderfynyddion tlodi ac eithrio cymdeithasol, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae pobl ifanc o grwpiau difreintiedig yn mynd ymlaen i addysg uwch am ei fod yn cynrychioli mater ehangach o lawer anghydraddoldeb cyfleoedd.

Yn fwy cyffredinol, mae *Y wlad sy'n dysgu* yn amcanu cynyddu cyfranogiad ar y cyfan o addysg oedolion. Mae cael oedolion i ddysgu'n eu galluogi i gael mynediad at sgiliau newydd, sydd yn eu tro'n galluogi pobl i addasu'n well at newidiadau cymdeithasol ac economaidd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i'r rheiny sydd eisoes yn ddifreintiedig, er mwyn sicrhau nad yw eu sefyllfa'n gwaethygu yn hynny o beth.

## Y dewis o ddangosyddion

Dewiswyd y dangosyddion yn yr adran hon yng nghyd-destun *Y wlad sy'n dysgu*. Y dangosyddion yw:

8A – cyfran yr oedolion ifanc ag ychydig o gymwysterau yn 19 mlwydd oed dros amser.

8B – cymhariaeth rhwng lefelau'r cymwysterau a enillir gan bobl 17 a 24 mlwydd oed.

9A – cyfran y wardiau ym mhob cwintel amddifadedd lle mae llai na chwarter yn mynd ymlaen i addysg uwch.

9B – 'gorberfformiad' neu 'danberfformiad' gan awdurdodau lleol o ran cyfranogiad o addysg uwch mewn perthynas â'u lefel amddifadedd.

10A – cyfraddau cyfranogiad o ddysgu gan oedolion fesul dosbarth cymdeithasol.

10B – cyfraddau cyfranogiad o ddysgu ôl-16, fesul awdurdod lleol.

## Uchafbwyntiau

Mae un ymhob pedwar person 19 mlwydd oed yn dal heb gymwysterau sylfaenol – dim gwelliant gwirioneddol ers 1997/98.

Mae'r rheiny â llai na phum gradd TGAU 'dda' neu gymwysterau cyfatebol pan eu bod yn 17 yn annhebygol iawn o ennill unrhyw gymwysterau pellach wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae anghydraddoldebau mawr o ran mynediad at addysg uwch rhwng ardaloedd amddifadus ac ardaloedd goludog. Ar ôl lwfio am amddifadedd, ymddengys fod ardaloedd yng ngogledd a gorllewin y wlad yn perfformio'n well na'r rhai yn y dwyrain.

Mae cyfranogiad o ddysgu gan oedolion yn llai cyffredin ymhlith gweithwyr di-grefft a gweithwyr llaw, ac mae hyn yn amrywio ledled y wlad.

## Natur yr her

Mae'r dangosyddion yn yr adran hon yn cadarnhau pam ei bod yn iawn rhoi cymaint o bwyslais ar wella lefelau cymwysterau ac ehangu mynediad at addysg ymhlith oedolion. Ar hyn o bryd, ymddengys fod cysylltiad cryf rhwng dysgu pellach a chyrhaeddiad addysgol yn yr ysgol, gan fod y rhai a fethodd â chael cymhwyster 'da' erbyn eu bod yn 17 yn annhebygol iawn o fynd ymlaen i wneud hynny yn y dyfodol. Dylai 'Llwybrau Dysgu' gael effaith ar hyn, gan fod y cynllun wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer pobl 14-19 er mwyn cynnig cymorth parhaus i rai a fyddai fel arall yn ystyried rhoi'r gorau i dderbyn addysg pan eu bod yn 16, ond bydd angen i gryn dipyn o amser fynd heibio cyn y bydd unrhyw wahaniaeth i'w weld yn y canlyniadau.

Yn y bôn, yr her yw torri'r cysylltiad sydd ar hyn o bryd sy'n golygu mai'r rheiny â'r lefel isaf o gymwysterau a gafwyd trwy addysg ffurfiol yw'r bobl sydd leiaf tebygol o barhau i ddysgu hefyd, ac mai'r rhai sy'n manteisio fwyaf ar ddysgu yw'r rheiny sydd eisoes wedi ennill cymwysterau da.[8]

Mae'r patrwm hwn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i oedolion ifanc – mae cyfran uwch o lawer heb gyfranogi o ddysgu ymhlith oedolion o gefndiroedd di-grefft nag ymhlith oedolion o grwpiau proffesiynol neu ym maes rheoli.


Mae a wnelo rhai o'r rhwystrau y mae'n rhaid eu goresgyn yma ag amser a chost, ond nid dyma'r unig rwystrau: er enghraifft, mae agweddau tuag at ddysgu'n bwysig, hefyd, gydag ymchwil yn awgrymu bod y rheiny o ddosbarthiadau economaidd-gymdeithasol di-grefft neu rannol-grefftus yn llai tebygol o ystyried bod cyfleoedd presennol yn berthnasol, diddorol neu ddefnyddiol.[9]

Y cwestiwn sylfaenol yw i ba raddau y dylai ymdrechion i dorri'r cysylltiad rhwng cymwysterau yn y presennol a dysgu yn y dyfodol ganolbwyntio ar waith. Mae rhaglenni sy'n amcanu gwella cyfleoedd pobl i gael swydd (neu swydd well) trwy godi eu lefel cymwysterau yn dwyn manteision pwysig gan gynnwys pwrpas eglur, nodau mesuradwy a deilliannau y gellir rhoi gwerth ariannol iddynt. Eto mae perygl hefyd y bydd rhaglenni o'r fath yn cynyddu maint y bwlch rhwng y rheiny sydd mewn gwaith neu bron â bod mewn gwaith a'r rheiny sydd bellaf oddi wrth waith. Mewn egwyddor o leiaf, nid yw 'dysgu er mwyn dysgu' yn achosi cymaint o berygl.

# Ychydig o gymwysterau yn 17, 19 a 24 mlwydd oed


Dangosydd 8

## Mae un ym mhob pedwar person 19 mlwydd oed yn methu â chyrraedd lefel sylfaenol o ran cymwysterau tra bod un ym mhob deg heb gymwysterau o gwbl.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Farchnad Waith, ONS

## Ychydig iawn o bobl 17 mlwydd oed heb naill ai 5 gradd TGAU dda neu NVQ lefel 2 pan eu bod yn 17 sydd wedi ennill cymwysterau pellach erbyn eu bod yn 24.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Farchnad Waith, ONS; mae'r data'n rhoi'r cyfartaledd am y blynyddoedd 1997/98 i 2004/05

Dengys y graff cyntaf gyfran y bobl 19 mlwydd oed heb gymhwyster sylfaenol, a dangosir y data ar wahân ar gyfer y rhai heb NVQ2 neu gymhwyster cyfatebol a'r rheiny heb gymwysterau TGAU y cawsant radd G neu uwch ynddynt. Er mwyn hybu dibynadwyedd ystadegol, mae'r ffigyrau ar gyfer pob blwyddyn yn seiliedig ar y cyfartaleddau ar gyfer y pedwar chwarter hyd at y chwarter perthnasol yn y gaeaf. Defnyddiwyd graddfeydd cywerthedd DfES i drosi cymwysterau academaidd yn gymwysterau galwedigaethol cyfatebol. Felly, er enghraifft, mae NVQ2 neu gymhwyster cyfatebol yn cynnwys y rheiny â phum TGAU gradd C neu uwch, GNVQ lefel 2, dau gymhwyster UA neu un cymhwyster SU. Yn unol â'r graddfeydd cywerthedd hyn, ystyrir fod gan 45 y cant o'r rheiny sydd â 'chymhwyster arall' NVQ2 neu gymhwyster cyfatebol.

Dengys yr ail graff sut y mae cyfran yr oedolion ifanc â lefelau amrywiol o ran y cymhwyster uchaf yn amrywio yn ôl oedran. Mae'r lefelau cymhwyster a ddangosir yn gymysgedd o gymwysterau academaidd a galwedigaethol. Yr oedrannau a ddangosir yw 17 a 24. Er mwyn hybu dibynadwyedd ystadegol, mae'r ffigyrau'n cynrychioli cyfartaleddau ar gyfer y blynyddoedd 1997/98 i 2004/05.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw'r Arolwg o'r Farchnad Waith (LFS). Nid yw ymatebwyr na wnaethant ateb y cwestiynau a oedd yn ofynnol er mwyn cynnal y dadansoddiad wedi'u cynnwys yn y graffiau perthnasol.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r LFS yn arolwg mawr, chwarterol gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf ac mae wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan ond mae'r ffaith bod y dadansoddiad hwn yn ymdrin â phobl 19 mlwydd oed yn unig yn golygu bod meintiau'r samplau'n dal yn fach.

Dangosydd 8

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag ychydig o gymwysterau yn 19

- Mae cyfran y bobl 19 mlwydd oed heb unrhyw gymwysterau o gwbl wedi bod yn codi a gostwng 10 y cant ers diwedd y 1990au.
- Mae cyfran y bobl 19 mlwydd oed sydd â rhai cymwysterau ond nid i lefel NVQ2 (sy'n cynnwys 5 gradd A i C TGAU) wedi bod yn codi a gostwng 15 y cant ers diwedd y 1990au o leiaf.
- Gyda'i gilydd, gostyngodd cyfran y bobl 19 mlwydd oed sy'n methu â chael cymhwyster sylfaenol o 31 y cant ym 1997/98 i 24 y cant yn 2002/03 ac ers hynny mae wedi codi eto i 29 y cant. O ystyried yr amrywiad yn y cyfresi sylfaenol, serch hynny, mae'n aneglur faint o bwyslais y dylid ei roi ar hyn.


## Yn ymwneud â chymwysterau yn 17 a 24 mlwydd oed

- Roedd traean o'r bobl 17 mlwydd oed (yn ôl y cyfartaledd dros y cyfnod 1997 i 2004) naill ai heb gymwysterau o gwbl neu'n meddu ar gymwysterau nad oeddent yn cyrraedd safon 5 gradd A-C mewn TGAU neu NVQ2 (galwedigaethol). Dros yr un cyfnod roedd cyfran debyg iawn o bobl 24 mlwydd oed yn yr un sefyllfa. Ymddengys fod hyn yn awgrymu bod person 17 mlwydd oed sydd wedi methu ag ennill cymhwyster sylfaenol yn annhebygol iawn o fod wedi unioni'r sefyllfa erbyn y bydd yn 24.
- O'u cyferbynnu, aeth pum rhan o chwech o'r rheiny a chanddynt o leiaf 5 gradd C neu uwch mewn TGAU pan oeddent yn 17 ymlaen i ennill cymhwyster pellach erbyn eu bod yn 24.
- Er bod hyn yn cadarnhau pwysigrwydd cael 'pum gradd TGAU dda' erbyn diwedd addysg orfodol ym Mlwyddyn 11 (16 mlwydd oed), nid yw hynny'n adrodd y stori'n llawn am fod y cymwysterau galwedigaethol NVQ2 ac NVQ3, yn ogystal â Safon Uwch Atodol, yn cyfrif tuag at y mesur 'pum gradd TGAU dda' i bobl sy'n 17 mlwydd oed. Mae hyn yn awgrymu bod y lefel cyrhaeddiad tyngedfennol mewn arholiadau sy'n cael eu sefyll yn yr ysgol ym Mlwyddyn 11 rywle rhwng 'o leiaf pum TGAU' (safon y mae 15 y cant yn methu â'i chyrraedd) ac 'o leiaf pum gradd TGAU dda' (safon y mae bron 50 y cant yn methu â'i chyrraedd).
- Nid yw 13 y cant o bobl 16 – 19 mlwydd oed yn derbyn addysg, nac mewn swydd nac yn derbyn hyfforddiant (NEET) yng Nghymru, o'u cymharu ag 11 y cant yn Lloegr, ac 14.5 y cant yn yr Alban.[10]

# Mynediad i addysg uwch


Dangosydd 9

## Yn y wardiau mwyaf amddifadus, roedd yn beth prin i fwy na chwarter y bobl 18 mlwydd oed fynd ymlaen i addysg uwch ar ddiwedd y 1990au. Yn y wardiau lleiaf amddifadus, roedd yn beth normal.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiadau'r NPI gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog 2000, UDdLlL-Cymru a Chyfranogiad Ardaloedd Lleol (POLAR), HEFCE; mae'r data'n rhoi'r cyfartaledd ar gyfer 1997 i 1999.

## Ar ddiwedd y 1990au, roedd y wardiau â chyfran uwch yn mynd ymlaen i addysg uwch mewn perthynas â lefel yr amddifadedd yn bennaf yng ngorllewin Cymru.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiadau'r NPI gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog 2000, UDdLlL-Cymru a Chyfranogiad Ardaloedd Lleol (POLAR), HEFCE; mae'r data'n rhoi'r cyfartaledd ar gyfer 1997 i 1999.

Dengys y graff cyntaf sut y mae cyfran yr oedolion ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg uwch yn amrywio fesul ward etholiadol gyda'r wardiau wedi'u grwpio yn ôl lefel amddifadedd.

Mae'r ail graff yn rhoi dadansoddiad o niferoedd y wardiau y mae cyfran yr oedolion ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg uwch ynddynt gryn dipyn yn wahanol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried lefel yr amddifadedd yn y ward honno. Caiff ward ei rhoi yn y dosbarth 'mwy na'r disgwyl' os yw unrhyw un o'r canlynol yn wir: mae'r ward yn y bumed fwyaf amddifadus ond mae cyfran yr oedolion ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg uwch yn fwy na 24 y cant; mae'r ward yn yr ail bumed fwyaf amddifadus ond mae'r gyfran yn fwy na 32 y cant; neu mae'r amddifadedd yn y ward yn cyfateb i'r cyfartaledd ond mae'r gyfran yn fwy na 43 y cant. Caiff ward ei rhoi yn y dosbarth 'llai na'r disgwyl yn mynd ymlaen i addysg uwch' os yw unrhyw un o'r canlynol yn wir: mae'r ward yn y bumed leiaf amddifadus ond mae cyfran yr oedolion ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg uwch yn llai na 32 y cant; mae'r ward yn yr ail bumed leiaf amddifadus ond mae'r gyfran yn llai na 24 y cant; neu mae'r amddifadedd yn y ward yn cyfateb i'r cyfartaledd ond mae'r gyfran yn llai nag 16 y cant.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw'r data Cyfranogiad Ardaloedd Lleol (POLAR) a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE). Mae'r data diweddaraf ar lefel y wardiau ar gyfer 1999 ac, er mwyn gwella cywirdeb yr ystadegau, mae'r data a gyflwynir yma'n cynrychioli'r cyfartaledd am y blynyddoedd 1997 i 1999.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r data'n dangos rhai canlyniadau pendant ond mae angen ychydig o ddehongli.

Dangosydd 9

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â chyfraddau mynediad yn ôl lefel amddifadedd yr ardal

- Yn hanner yr 20 y cant o wardiau mwyaf amddifadus yng Nghymru, mae llai nag un ym mhob chwe pherson 18 mlwydd oed yn mynd ymlaen i addysg uwch. Mewn traean bellach o'r wardiau hyn, mae rhwng un ym mhob chwech ac un ym mhob pedwar yn mynd ymlaen i addysg uwch.
- Mae tri chwarter y wardiau lle mae llai nag un ym mhob chwech yn mynd ymlaen i addysg uwch yn perthyn i'r 20 y cant o wardiau mwyaf amddifadus. Mae naw ym mhob deg yn perthyn i'r 40 y cant o wardiau mwyaf amddifadus.
- Mae mwy na hanner yr 20 y cant o wardiau lleiaf amddifadus yng Nghymru yn rhai y mae isafswm o bedwar ym mhob deg person 18 mlwydd oed yn mynd ymlaen i addysg uwch ynddynt. O'u cyferbynnu, nid oes yr un bron iawn o'r wardiau sy'n perthyn i'r 20 y cant o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru'n rhai y mae pedwar ym mhob deg yn mynd ymlaen i addysg uwch ynddynt.


## Yn ymwneud â phatrwm daearyddol 'perfformiad eithriadol'

- Mae patrwm daearyddol i ddosbarthiad y wardiau ledled Cymru lle mae cyfran y bobl 18 mlwydd oed sy'n mynd ymlaen i addysg uwch yn amlwg yn wahanol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail lefel amddifadedd yn y ward yn unig. Yn arbennig, mae awdurdodau lleol yn y gorllewin – Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin – yn cynnwys cyfran uchel o wardiau sy'n amlwg yn gwneud yn well na'r disgwyl, tra bod rhannau o'r dwyrain – yn bennaf Sir y Fflint a Sir Fynwy ond hefyd i raddau llai Torfaen a Chasnewydd – yn cynnwys cyfran uchel sy'n amlwg yn gwneud yn waeth na'r disgwyl.
- Mae rhai elfennau o'r patrwm yn deillio o'r ffordd y mae perfformiad uwch ac is na'r disgwyl wedi'u diffinio. Er enghraifft, ni all wardiau sydd â lefelau amddifadedd uwch na'r cyfartaledd gael canlyniadau sy'n amlwg yn waeth na'r disgwyl. Yn yr un modd, ni all wardiau sydd â lefelau amddifadedd is na'r cyfartaledd gael canlyniadau sy'n amlwg yn well na'r disgwyl. Felly ni ddylid rhoi unrhyw bwyslais ar y ffaith bod lefelau bach iawn o danberfformiad i'w cael ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful neu Rondda Cynon Taf.
- Gall gorberfformiad yng nghyswllt y mesur hwn ddal i fod yn gyson â lefel isel iawn ar y cyfan yn mynd ymlaen i addysg uwch. Er enghraifft, cafwyd gorberfformiad yn chwarter y wardiau ym Merthyr Tudful mewn perthynas â'u sgôr amddifadedd. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl 18 a 19 mlwydd oed sy'n mynd ymlaen i addysg uwch oddi yno yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru (20 y cant) – ym Mlaenau Gwent yn unig y mae'r gyfran yn is (18 y cant).[11]

# Cyfranogiad oedolion


**Dangosydd 10**

## Nid yw hanner yr oedolion o oedran gweithio sy'n ddi-grefft neu'n rhannol-grefftus wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu ers gadael yr ysgol.




**Ffynhonnell:** Arolwg o Gyfranogiad Oedolion gan NIACE 2002 a 2003

## Mae'r 'cyfraddau cyfranogiad safonedig' ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16 lawer yn uwch mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru nag yn yr ardaloedd trefol neu'r Cymoedd.




**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Rhanbarthol o Gyfranogiad o Addysg Bellach yng Nghymru, ELWa; mae'r data'n ymwneud â 1999/00 a 2000/01

Dengys y graff cyntaf gyfran yr oedolion sy'n 17 ac yn hŷn ac nad ydynt wedi astudio na chymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu ers gadael yr ysgol, ac mae'r data wedi'i rannu fesul dosbarth cymdeithasol. Yn unol â'r dosbarthiad economaidd-gymdeithasol hwn, mae AB yn cynrychioli proffesiynol/rheoli; C1 gweithwyr dwylo glân canolradd ac iau; C2 gweithwyr crefftus â llaw; a DE rhannol-grefftus neu ddi-grefft.

Ffynhonnell y data yw Arolwg NIACE o Gyfranogiad Oedolion o Ddysgu yng Nghymru yn 2002 a 2003, ac mae canlyniadau'r ddwy flynedd wedi'u cyfuno. Mae'r data'n cynnwys pob math o ddysgu, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a hyfforddiant.

Dengys yr ail graff y cyfraddau cyfranogiad safonedig (SPR) ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16 (addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant) fesul awdurdod lleol.

SPR yw nifer y dysgwyr sy'n byw mewn ardal wedi'i rannu â'r nifer disgwyliedig o ddysgwyr ar gyfer pob awdurdod wedi'i luosi â 100. Mae SPR o lai/mwy na 100 yn dynodi bod llai/mwy o ddysgwyr na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru.

Ffynhonnell y data yw cyfrifiad a wnaed gan ELWa'n seiliedig ar ddata gweinyddol a gasglwyd yn 2000/01.

Digonolrwydd ar y cyfan: ***cyfyngedig***. Mae cwestiynau wedi codi ynglŷn ag ehangder y diffiniad o 'ddysgu' a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ac mae maint y sampl yn gymharol fach.

Dangosydd 10

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â chyfranogiad o bob math o ddysgu oedolion fesul dosbarth cymdeithasol[12]

- Nid yw hanner yr oedolion di-grefft a rhannol-grefftus (grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E) wedi cymryd rhan mewn unrhyw 'weithgaredd dysgu' ers rhoi'r gorau i dderbyn addysg ffurfiol. Mae hyn yn cymharu ag un ym mhob tri oedolyn o gefndir gwaith llaw crefftus a gwaith dwylo glân (grŵp economaidd-gymdeithasol C) ac un ym mhob pump o gefndir proffesiynol ac ym maes rheoli (grwpiau economaidd-gymdeithasol A a B).
- Nid yw tri chwarter y bobl o gefndiroedd di-grefft neu rannol-grefftus yn dweud am unrhyw gyfranogiad diweddar na chyfredol o gynlluniau dysgu oedolion, o'u cymharu â dwy ran o dair o'r bobl o gefndir gwaith llaw crefftus a hanner y bobl o gefndir gwaith dwylo glân, proffesiynol a rheoli.[13]
- Mae'r ffigyrau'n ymwneud â dyheadau am ddysgu yn y dyfodol yn dangos darlun tebyg. Mae tri chwarter y bobl o gefndir di-grefft a rhannol-grefftus yn dweud eu bod yn annhebygol o gyfranogi o ddysgu yn y dyfodol, o'u cymharu â dwy ran o dair o'r rheiny sydd o gefndir gwaith llaw crefftus a hanner y rheiny sydd o gefndir gwaith dwylo glân.[14]

## Yn ymwneud â chyfranogiad o bob math o weithgareddau dysgu oedolion fesul ardal awdurdod lleol

- Mae 'cyfraddau cyfranogiad safonedig' ar gyfer y prif fathau o gynlluniau dysgu oedolion (addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant) ar gyfer y rheiny sy'n 16 ac yn hŷn ac yn byw yn yr ardal ar eu huchaf mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru (Conwy, Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy a Sir Ddinbych), ac ar eu hisaf yn y Cymoedd, Caerdydd a Wrecsam.[15]
- Mae'r cyfraddau uchaf o ran cyfranogiad o addysg bellach i oedolion dros 18 mlwydd oed (y gydran fwyaf ym maes addysg i oedolion) i'w cael yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Chastell-nedd a Phort Talbot, ac mae'r rhai isaf i'w cael ym Mro Morgannwg a Chaerdydd.[16]
- Mae hanner yr holl oedolion dros 19 sydd yn derbyn addysg bellach yn dod o'r chwarter lleiaf amddifadus ymhlith yr holl wardiau etholiadol. O'u cyferbynnu, un ym mhob saith yn unig sydd o'r chwarter mwyaf amddifadus ymhlith y wardiau.[17]
- Mae'r cyfraddau cyfranogiad uchaf yng nghyswllt hyfforddiant i'w cael ym Mlaenau Gwent, Torfaen, Bro Morgannwg a Chastell-nedd a Phort Talbot. Mae'r cyfraddau isaf yng Nghaerdydd, Sir Fynwy a Sir y Fflint.[18]
- Nid yw'r dangosydd yn ymdrin â phob math o gynlluniau dysgu oedolion. Mae dysgu cymunedol, pa un a yw'n cael ei redeg yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol ynteu'n cael ei roi ar gytundeb i ddarparwr o'r tu allan, yn gyffredin mewn rhannau o Dde Cymru, yn enwedig Casnewydd a Chaerdydd. Yn 2002/03, roedd 25,000 o ddysgwyr o'r fath ledled Cymru.[19] Mae cynllun dysgu oedolion a ddarperir gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr a cholegau addysg bellach lleol yn gyffredin yng ngogledd Cymru, megis yng Ngwynedd, Conwy, Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.[20] Nid oes gwybodaeth ar gael am weithgareddau dysgu a ariennir gan gyflogwyr.

## Manteision yn sgîl addysg nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad

- Datblygiad personol, rhesymau'n ymwneud â gwaith, ac addysg/dilyniant yw'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddir dros gyfranogi o gynlluniau dysgu (mae dros hanner y dysgwyr presennol neu ddysgwyr diweddar yn nodi'r rhesymau hyn). Mae rhesymau'n gysylltiedig â datblygiad personol yn fwy cyffredin ymhlith menywod, a rhesymau'n gysylltiedig â gwaith yn fwy cyffredin ymhlith dynion.[21]
- Mae'r manteision i ddysgu y sonnir amdanynt yn cynnwys datblygiad personol, cynnydd mewn hunanhyder a chwrdd â phobl newydd. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn ennill mwy o arian o ganlyniad i ddysgu neu bod dysgu wedi cael effaith bendant ar eu sefyllfa waith.[22]

# Pennod 3 Gwaith

| *Thema* | *Dangosydd/map* |
|---|---|
| Diweithdra a bod heb waith | 11: Aelwydydd heb waith |
| | 12: Yn dymuno cael gwaith â thâl |
| | 13: Pobl heb waith yn ôl oedran |
| Rhwystrau i weithio | 14: Sgiliau a chymwysterau |
| | 15: Cyfleoedd a chymorth |
| Tâl isel | 16: Tâl isel yn ôl rhyw |
| | 17: Lleoliad tâl isel |
| Ansawdd y swyddi | 18: Map: dibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu |
| | 19: Ansicrwydd yn y gwaith |
| | 20: Cymorth yn y gwaith |

# Diweithdra a bod heb waith

Caiff y cwymp cyson a hirfaith mewn diweithdra ei nodi'n aml fel tystiolaeth o lwyddiant strategaeth economaidd Llywodraeth y DU a'r ffaith ei bod yn rhagori ar strategaethau gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd lle mae cyfraddau diweithdra'n dal i fod lawer yn uwch. Ond nid yw'r 'di-waith', fel y cânt eu diffinio a'u cyfrif yn swyddogol, ond yn rhan o'r grŵp o bobl a fyddai'n hoffi cael swydd pe bai swydd ar gael. Mae'r ffaith nad rhyw bwynt cudd yw hwn, rhywbeth na ellir ond ei weld trwy edrych ar yr ystadegau, yn amlwg o'r ffordd y bu i aelodau o'r grwpiau trafod gyfeirio at nifer uchel y bobl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd a'i nodi fel rhywbeth sy'n cuddio problem tangyflogaeth ddifrifol yn eu hardal.

Felly, er mwyn cael darlun llawn o dangyflogaeth, mae'n rhaid rhoi sylw i 'ddiweithdra' a'r cysyniad o 'fod heb waith'. Gan fod y ddau derm hwn yn swnio fel pe baent yn disgrifio'r un peth, er nad ydynt, byddai o gymorth yn gyntaf pe baem yn egluro'r gwahaniaethau rhyngddynt, ac yn egluro pwy, a than ba amgylchiadau, sy'n cael eu cyfrif o fewn y naill grŵp a'r llall.

## Diweithdra

Yn anffodus, mae hyd yn oed y term 'diweithdra' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd amwys.

Mae'r amcangyfrif swyddogol o ddiweithdra'n seiliedig ar ddiffiniad yr ILO (Y Mudiad Llafur Rhyngwladol), sy'n golygu cyfrif pobl heb swydd sydd (a) yn dymuno cael gwaith, (b) ar gael i ddechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf, ac (c) wedi bod wrthi'n ceisio gwaith yn y pedair wythnos ddiwethaf, neu sydd newydd ddod o hyd i swydd ac yn aros i ddechrau. Ledled y DU gyfan, mae'r ffigyrau diweithdra gan ddefnyddio diffiniad yr ILO yn 1.4 miliwn, ac mae rhyw 60,000 o'r rhain yng Nghymru.

Yn llwyr ar wahân, mae'r 'cyfrif o hawlwyr' yn cofnodi nifer y bobl sy'n hawlio'r budd-dal nawdd cymdeithasol perthnasol (Lwfans Ceisio Gwaith – LCG). Mae'r cyfrif o hawlwyr wastad yn arwain at ffigwr is naill ai am nad yw rhai pobl sy'n ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO yn gymwys i dderbyn LCG neu am eu bod yn dewis peidio â'i hawlio. Gan fod nifer yr hawlwyr yn y DU erbyn hyn yn llawer is nag un filiwn (tua 40,000 yng Nghymru), mae'n well gan rai gwleidyddion – ac mae'n hawdd gweld pam – gyfeirio ato wrth drafod diweithdra. Ond yn yr adroddiad hwn, mae diweithdra wastad yn golygu diweithdra yn ôl diffiniad yr ILO.

## Segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith

Mae pawb sydd naill ai'n gweithio neu'n ddi-waith yn 'weithgar yn economaidd'. Mae pawb arall yn 'segur yn economaidd'. Mae 'heb waith' felly'n derm sy'n cynnwys y di-waith a'r rhai sy'n segur yn economaidd.

Mae rhywun yn segur yn economaidd os nad yw'n gweithio ac os yw'n methu â chwrdd ag unrhyw un neu fwy o'r tri maen prawf (a) i (c) uchod, sy'n angenrheidiol er mwyn i bobl gael eu cyfrif yn ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO. Mae rhyw dri chwarter o'r bobl sy'n segur yn economaidd yn methu â chwrdd â maen prawf (a), hynny yw, nid ydynt yn dymuno gweithio. Y chwarter arall, serch hynny – y rhai segur yn economaidd sy'n dymuno cael gwaith – yw'r bobl sydd agosaf at fod yn 'ddi-waith'.

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad y niferoedd cyfredol, sef 60,000 o bobl yn ddi-waith a 100,000 o bobl yn segur yn economaidd, rhwng menywod a dynion a'u dosbarthiad o ran y prif resymau (ar gyfer y rhai sy'n segur yn economaidd) nad ydynt wrthi'n ceisio gwaith neu ar gael i ddechrau yn yr wythnosau nesaf.

| **Statws** | | **Dynion (000oedd)** | **Menywod (000oedd)** | **Cyfanswm (000oedd)** |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgar yn economaidd | Di-waith | 35 | 25 | 60 |
| Segur yn economaidd<br>Yn dymuno cael gwaith | Anabl/sâl yn yr hirdymor | 25 | 15 | 40 |
| | Gofalu am deulu/cartref | 5 | 25 | 30 |
| | Heb ddechrau chwilio | 5 | 10 | 15 |
| | Arall | 5 | 10 | 15 |
| **Cyfanswm** | | **75** | **85** | **160** |

Y rhai sy'n anabl neu'n sâl yn yr hirdymor yw'r un grŵp mwyaf ymhlith y bobl sy'n segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith, ond yr ail grŵp, nad yw ond ychydig yn llai, yw'r rhai sy'n gofalu am deulu neu'r cartref. Gan fod y rhan fwyaf yn yr ail grŵp hwn yn fenywod, o ystyried diweithdra a segurdod economaidd gyda'i gilydd, mae ychydig mwy o fenywod na dynion yn dymuno cael gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

11A – cyfran yr aelwydydd o oedran gweithio sydd heb waith, ar wahân ar gyfer aelwydydd ag un a dau oedolyn â phlant a heb blant, am bob blwyddyn ers 1995.

11B – cyfran y plant mewn aelwydydd heb waith, Cymru o'i chymharu â rhanbarthau Lloegr a'r Alban.

12A – y niferoedd sy'n dymuno cael gwaith, ar wahân ar gyfer y rhai yn y dosbarth di-waith a'r rheiny yn y dosbarth segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith, am bob blwyddyn ers 1995/96.

12B – y gyfran sy'n dymuno cael gwaith, ar wahân ar gyfer y di-waith a'r rhai sy'n segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith, fesul ardal awdurdod lleol.

13A – cyfrannau'r boblogaeth o oedran gweithio sy'n ddi-waith neu'n segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith, ar wahân fesul grŵp oedran ac ar gyfer dynion a menywod.

13B – y gyfradd diweithdra ymhlith pobl 18 i 24 mlwydd oed, yn awr a ddegawd yn ôl, Cymru o'i chymharu â rhanbarthau Lloegr a'r Alban.

### Uchafbwyntiau

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd heb waith yn aelwydydd sy'n cynnwys un oedolyn, ac nid oes gan y rhan fwyaf o'r rhain blant dibynnol.


Mae nifer y rhai sy'n cael eu cyfrif yn 'segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith' erbyn hyn lawer yn uwch na'r rhai sy'n cael eu cyfrif yn 'ddi-waith', yn enwedig yn y Cymoedd.

Mae diweithdra ymhlith oedolion ifanc yng Nghymru erbyn hyn yn agos at gyfartaledd y DU, er ei fod yn llawer gwaeth na'r cyfartaledd ddegawd yn ôl.

# Aelwydydd heb waith


Dangosydd
11

## Mae hanner yr holl aelwydydd heb waith yn aelwydydd sy'n cynnwys un oedolyn heb blant dibynnol.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Gweithlu, chwarteri'r gwanwyn, ONS.

## Mae cyfran y plant sydd mewn aelwydydd heb waith rywfaint yn uwch yng Nghymru nag yn y DU ar gyfartaledd.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Gweithlu, chwarteri'r gwanwyn, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r blynyddoedd 2002 i 2004, wedi'u cyfuno

Dengys y graff cyntaf nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sydd heb waith (h.y. aelwydydd heb yr un oedolyn yn gweithio) fel cyfran o gyfanswm yr aelwydydd o oedran gweithio, a'r data wedi'i grwpio yn ôl y pedwar math canlynol o aelwydydd: oedolion sengl heb blant dibynnol; aelwydydd sy'n rhieni sengl; aelwydydd â dau oedolyn neu fwy ond heb blant dibynnol; ac aelwydydd â dau oedolyn neu fwy ac un plentyn dibynnol neu fwy.

Dengys yr ail graff sut y mae cyfran y plant dan 16 sy'n byw mewn aelwydydd heb yr un oedolyn yn gweithio am dâl yng Nghymru'n cymharu â rhannau eraill o'r DU. I wella'u dibynadwyedd ystadegol, mae'r ffigyrau'n dangos y cyfartaleddau am y blynyddoedd 2002 i 2004.

Yn y ddau graff, nid yw aelwydydd sy'n cynnwys myfyrwyr llawn-amser yn unig wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad, nac ychwaith yr aelwydydd na wyddys eu statws economaidd. Nid yw myfyrwyr llawn-amser wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau i benderfynu a oes mwy nag un oedolyn yn yr aelwyd ychwaith. Felly, er enghraifft, mae aelwyd sy'n cynnwys un myfyriwr llawn-amser ac un oedolyn arall o oedran gweithio wedi'i thrin fel aelwyd 'un oedolyn'.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw cyfresi data'n ymwneud ag aelwydydd o'r Arolwg o'r Gweithlu (LFS) ar gyfer chwarteri'r gwanwyn ymhob blwyddyn.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r LFS yn arolwg chwarterol mawr gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

# Pwyntiau allweddol



## Yn ymwneud ag aelwydydd heb waith yn ôl y math o deulu

- Roedd cyfran gyffredinol yr aelwydydd o oedran gweithio sydd heb waith, a arhosodd yn gyson, sef tua 22 y cant, drwy gydol y 1990au hwyr ac mor ddiweddar â 2001, wedi gostwng i 19 y cant erbyn 2005.
- Mae aelwydydd sy'n rhiant sengl heb blant yn rhoi cyfrif am 50 y cant o'r holl aelwydydd o oedran gweithio heb waith, ac mae'r gyfran wedi aros yn gyson am dros ddegawd. Mae 20 y cant pellach yn oedolion sengl â phlant, a'r 30 y cant arall yn aelwydydd â dau oedolyn.
- Ymhlith aelwydydd heb waith a chanddynt blant dibynnol, mae aelwydydd sy'n rhiant sengl yn rhoi cyfrif am ryw 60 y cant. Er bod y gyfran hon wedi codi a gostwng o flwyddyn i flwyddyn, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y gyfran yn awr a'r gyfran ddegawd yn ôl.


## Yn ymwneud â phlant mewn aelwydydd heb waith

- Mae deunaw y cant o'r holl blant yng Nghymru'n byw mewn aelwydydd heb waith. Mae'r gyfran hon rywfaint yn uwch na'r gyfran yn y DU gyfan (16 y cant). Serch hynny, mae cryn amrywiaeth yn y gyfran hon rhwng y gwahanol rannau o'r DU, o 25 y cant yn Llundain a 23 y cant yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, i 10 y cant yn Ne Ddwyrain Lloegr.
- Prin fod nifer y plant a oedd yn byw mewn aelwydydd heb waith yn 2004 (110,000 o blant) wedi newid ers canol y 1990au (120,000). Dros gyfnod pan fo diweithdra a nifer y 'bobl heb waith sy'n dymuno cael gwaith' wedi gostwng yn sydyn (dangosydd 12), mae hwn yn ostyngiad bychan iawn.
- Er nad oes ystadegau ar gael sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, mae'r ystadegau ar gyfer y DU'n awgrymu bod o leiaf dwy ran o dair o'r plant mewn aelwydydd heb waith yn byw mewn aelwydydd rhiant-sengl, a thraean yn unig yn byw mewn aelwydydd â dau oedolyn.


# Yn dymuno cael gwaith â thâl

Dangosydd 12

## Mae diweithdra bron â bod wedi haneru dros y degawd diwethaf ond cafwyd gostyngiad o chwarter yn unig yn y nifer sy'n 'segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith'.




## Mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sydd heb ond yn dymuno cael gwaith am dâl yn uwch yn y Cymoedd nag mewn ardaloedd eraill.




Dengys y graff cyntaf gyfrannau'r boblogaeth o oedran gweithio sydd naill ai'n 'segur yn economaidd' ond yn dymuno cael gwaith â thâl neu'n ddi-waith (yn ôl diffiniad yr ILO).

Ffynhonnell y data yw'r Arolwg o'r Gweithlu (LFS). Er mwyn gwella dibynadwyedd ystadegol y ffigyrau, mae'r data'n dangos cyfartaledd y pedwar chwarter ym mhob blwyddyn i aeaf 2004/05.

Dengys yr ail graff, ar gyfer 2003, sut y mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sydd heb ond sy'n dymuno cael gwaith â thâl yn amrywio fesul awdurdod lleol.

Ffynhonnell y data yw'r Arolwg o Weithlu'r Ardal Leol. Yr LFS yw hwn i bob pwrpas, a defnyddir samplau atgyfnerthol i wneud iawn am feintiau bychain y samplau.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r LFS yn arolwg chwarterol mawr gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â thueddiadau dros amser

- Mae nifer y bobl yn y dosbarth 'pobl ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO' wedi gostwng o tua 110,000 ym 1995/96 i 60,000 yn 2004/05. Mae'r gostyngiad dros y cyfnod hwn wedi bod yn gymharol gyson. Yn 2004/05, roedd y grŵp hwn yn 3.5 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio.[1]
- Mae nifer y bobl yn y dosbarth 'pobl sy'n segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith' hefyd wedi gostwng dros y cyfnod hwn, o tua 135,000 i 100,000. Yn 2004/05, roedd y grŵp hwn yn 5.5 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio.
- Un o oblygiadau'r ffigyrau hyn yw nad yw diweithdra ond yn rhoi cyfrif am ryw 40 y cant o'r bobl sy'n dweud eu bod yn dymuno cael gwaith. Ail oblygiad yw bod y cwymp mewn diweithdra, oherwydd bod nifer y bobl sy'n ddi-waith wedi gostwng yn gyflymach na nifer y bobl sy'n segur yn economaidd ac sy'n dymuno cael gwaith, yn gor-bwysleisio cyfradd y gostyngiad yng nghyfanswm y bobl sy'n dymuno cael gwaith.
- Mae'r 9 y cant o'r boblogaeth waith sy'n dymuno cael gwaith yng Nghymru'n debyg i gyfartaledd y DU.
- Mae dwy ran o bump o'r rheiny sy'n segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith yn bobl sy'n anabl neu'n sâl yn yr hirdymor. Mae chwarter arall yn eu disgrifio'u hunain fel pobl sy'n 'gofalu am deulu neu am y cartref'.

## Yn ymwneud â gwahaniaethau ledled Cymru

- Mae cyfran y bobl o oedran gweithio sy'n 'ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO' yn amrywio o 5 y cant ym Mlaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf i 2 y cant yn Wrecsam. Mae'r gyfran sy'n segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith yn amrywio o fwy nag 11 y cant yng Nghastell-nedd a Phort Talbot i 2 y cant yn Sir y Fflint.
- Gyda'i gilydd, mae'r gyfran sy'n dymuno cael gwaith, pa un a yw'r bobl yn 'ddi-waith' ynteu'n 'segur yn economaidd', ar ei huchaf ym mhedair o ardaloedd y Cymoedd (Castell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful) ac ar ei hisaf yn y gogledd (Sir y Fflint, Wrecsam a Gwynedd). Mae'r gyfran yng Nghastell-nedd a Phort Talbot – 15 y cant – deirgwaith yn fwy na'r gyfran yn Sir y Fflint.
- Tra bo'r Cymoedd yn cael sgôr ychydig yn waeth na gweddill Cymru yng nghyswllt diweithdra, maent yn cael sgôr llawer gwaeth na gweddill Cymru yng nghyswllt pobl sy'n segur yn economaidd ond sydd am gael gwaith â thâl.


## Yn ymwneud â diweithdra a segurdod ymhlith grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymhlith grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn is nag ymhlith pobl wynion. Yn arbennig, mae menywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod yn gweithio na menywod gwynion.[2]
- Mae hiliaeth, rhwystrau ieithyddol, diffyg cyngor ynghylch gyrfaoedd, cymorth annigonol i ddatblygu mentergarwch, diffyg delfrydau ymddwyn, rhagfarn wrth recriwtio a dewis, polisïau cyfle cyfartal aneffeithiol a gwahaniaeth mewn lefel cyrhaeddiad addysgol yn effeithio'n niweidiol ar gyflogaeth, incwm a lles.[3]

# Pobl heb waith yn ôl oedran


Dangosydd 13

## Ymhlith pobl o bob oedran, ac ymhlith menywod a dynion, mae nifer y rhai sy'n segur yn economaidd ond sy'n dymuno cael gwaith â thâl yn uwch na nifer y di-waith.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05.

## Yn wahanol i ddegawd yn ôl, mae'r gyfradd diweithdra ymhlith pobl 18 i 24 mlwydd oed yng Nghymru'n debyg i gyfartaledd y DU erbyn hyn.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Gweithlu, ONS.

Dengys y graff cyntaf, am y flwyddyn ddiweddaraf, sut y mae cyfrannau'r bobl sydd naill ai'n ddi-waith neu'n 'segur yn economaidd' ond yn dymuno cael gwaith â thâl yn amrywio yn ôl oedran a rhyw.

Dengys yr ail graff, am y flwyddyn ddiweddaraf, sut y mae cyfran y rheiny sy'n 18 i 24 mlwydd oed yng Nghymru sy'n ddi-waith yn cymharu â'r gyfran mewn ardaloedd eraill yn y DU, gyda'r data'n cael ei ddangos ar wahân ar gyfer 1995/96 a 2004/05.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw'r Arolwg o'r Gweithlu (LFS). Er mwyn gwella dibynadwyedd ystadegol y ffigyrau, mae'r data ar gyfer pob blwyddyn yn dangos cyfartaledd y pedwar chwarter i chwarter y gaeaf.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r LFS yn arolwg chwarterol mawr gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

# Pwyntiau allweddol



## Yn ymwneud â phobl heb waith yn ôl oedran a rhyw

- Mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n 'ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO' yn uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod. Ar gyfer dynion a menywod, serch hynny, mae'r gyfran yn uwch ymhlith pobl o oedran gweithio sy'n ifancach nag ydyw ymhlith y rhai sy'n hŷn. Pedwar y cant o ddynion 25 i 34 mlwydd oed sy'n ddi-waith o'u cymharu â 2 y cant o ddynion 50 i oedran ymddeol. Ar gyfer menywod, y ffigyrau cyfatebol yw 3 y cant o'r rheiny sy'n 25 i 34 mlwydd oed ac 1.6 y cant o'r rheiny sy'n 50 i oedran ymddeol.
- Mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith yn gymharol unffurf – rhwng 4 y cant a 5 y cant – ar gyfer dynion a menywod ac ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau oedran. Yr eithriad yw menywod sy'n 25 i 34 mlwydd oed, sydd â chyfradd o fwy na 7 y cant.
- Heblaw am ddynion 25 i 34 mlwydd oed, y mae'r cyfrannau ar eu cyfer bron â bod yr un fath, mae nifer y rhai sy'n segur yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith yn sylweddol uwch na nifer y bobl sy'n ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO.

## Yn ymwneud â diweithdra ymhlith oedolion ifanc 18 i 24 mlwydd oed

- Gostyngodd cyfran yr oedolion ifanc sy'n 18 i 24 mlwydd oed yng Nghymru a oedd yn ddi-waith o 17 y cant ym 1995/96 i 10 y cant yn 2004/05. Mae'r gyfradd hon, y gyfradd gostyngiad gyflymaf unrhyw le yn y DU heblaw am Ogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Lloegr, yn golygu bod Cymru wedi newid o fod yn sylweddol waeth na'r cyfartaledd ddegawd yn ôl i fod yn debyg i gyfartaledd y DU erbyn hyn.
- Mae gan Gymru gyfran is erbyn hyn o ran pobl ifanc sy'n ddi-waith na'r Alban, Gogledd Iwerddon, y Gogledd Ddwyrain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain. Ddegawd yn ôl, Llundain, y Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin yn unig oedd â chyfraddau uwch.
- Er gwaethaf y gostyngiadau hyn, mae cyfran y bobl 18 i 24 mlwydd oed sy'n ddi-waith tua thair gwaith yn uwch na chyfran y bobl 25 mlwydd oed i oedran ymddeol.

# Rhwystrau i weithio

Mae'r rhesymau pam y mae pobl yn mynegi dyhead i weithio ac eto'n peidio â gweithio yn niferus ac yn amrywiol. Er enghraifft, efallai nad ydynt yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau ar gyfer y swyddi sydd ar gael. Efallai fod ganddynt ymrwymiadau eraill, megis gofal plant neu ofalu am berthynas oedrannus. Efallai eu bod yn dioddef salwch hirdymor cyfyngol sy'n cyfyngu ar y math o swydd y maent yn gallu'i chyflawni. Efallai fod y tâl yn rhy isel i'w gwneud yn fuddiol derbyn swydd o safbwynt ariannol, yn enwedig os yw'r costau sy'n deillio o dderbyn y swydd (er enghraifft y gost o deithio ar y bws i'r gwaith) yn cael eu hystyried yn uchel.

Mae cymhlethdod y sefyllfa'n golygu bod o leiaf chwe dangosydd arall, heblaw am y ddau a gyflwynir yma, sydd hefyd yn uniongyrchol berthnasol i'r pwnc, sef: niferoedd y bobl 16 mlwydd oed ac oedolion ifanc heb gymwysterau digonol (dangosyddion 7 ac 8); tâl isel (dangosyddion 16 a 17); a mynediad at gludiant (dangosyddion 31 a 32).

## Mwy nag un rhwystr i weithio

Un ffactor arall sy'n ychwanegu at y cymhlethdod hwn yw'r ffaith bod y broblem y mae nifer o bobl yn ei hwynebu'n ymwneud â chyfuniad o wahanol rwystrau i weithio. Mae ymchwil yn ddiweddar wedi dangos sut y mae pob anfantais neu rwystr yn lleihau'r tebygolrwydd o gael gwaith, yn annibynnol ar effaith yr anfanteision eraill. Ar un pegwn, 4 y cant yn unig o unigolion heb anfanteision oedd yn ddi-waith, o'u cymharu â 90 y cant ymhlith y rheiny a oedd yn wynebu chwe anfantais (sef bod heb bartner, anabledd, cymwysterau gwael, bod dros 50, bod yn aelod o grŵp ethnig lleiafrifol a byw mewn ardal lle mae'r galw am lafur yn isel).[4] Cafodd pwysigrwydd mwy nag un rhwystr i weithio ei gydnabod yn glir hefyd gan gyfranogwyr yn y grwpiau trafod.

Mae rhieni sengl yn un enghraifft o'r ffordd y mae gwahanol rwystrau'n cydadweithio â'i gilydd. Mae argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant yn siŵr o fod yn dyngedfennol i rieni sengl. Eto o'r holl aelwydydd o oedran gweithio, rhieni sengl yw'r grŵp sydd â'r lefelau perchenogaeth car isaf. Efallai na fydd datrys y broblem gofal plant felly ond yn cael effaith bendant ar gyflogaeth os oes gwasanaeth cludiant cyhoeddus da ar gael, hefyd.

Gall rhwystrau fod yn gydberthnasol mewn ffyrdd mwy anuniongyrchol, hefyd, er enghraifft y cysylltiadau rhwng afiechyd a diffyg swydd. Yn amlwg, gall afiechyd hirdymor cyfyngol fod yn rhwystr i weithio. Ond awgrymodd cyfranogwyr yn un o'r grwpiau trafod hefyd fod unigolion, yn niffyg cyfle economaidd, weithiau'n dod i'r casgliad bod eu hafiechydon yn cael effaith fwy rhwystrol nag a fyddent pe bai gwaith ar gael yn rhwyddach.

Gall rhai rhwystrau fod yn uwch i fenywod nag i ddynion. Nid y ffaith bod menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o ysgwyddo cyfrifoldebau megis gofalu am blant neu berthnasau yw'r unig reswm dros hyn. Mae ymchwil wedi nodi methiant i ddarparu cyfleoedd a dewis ar gyfer menywod ifanc sy'n dechrau gweithio trwy gynnig hyfforddiant, yn enwedig ymhlith grwpiau economaidd-gymdeithasol is.[5] Nid yw llwybrau galwedigaethol i'r gwaith ar gyfer y rheiny heb gymwysterau addysgol uwch mor gyffredin i fenywod ag y maent (er, mewn ffordd gyfyngedig) i ddynion ifanc. O ganlyniad, mae menywod ifanc sy'n gadael yr ysgol ag ychydig o gymwysterau neu heb unrhyw gymwysterau'n wynebu mwy o rwystr i weithio na dynion ifanc.

## Y dewis o ddangosyddion

Yn wyneb ei bwysigrwydd, mae'n anffodus nad oes data ar gael ar y sefyllfa pan fo mwy nag un rhwystr i weithio. Mae'r dangosyddion a gyflwynir yma'n ymdrin ag amrediad o wahanol fathau o rwystrau i weithio, fel a ganlyn:

14A – cyfran y bobl sy'n weithgar yn economaidd sy'n ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO, yn ôl y cymwysterau uchaf sydd ganddynt.

14B – cyfran yr oedolion heb sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yng Nghymru, o'i chymharu â'r gyfran yn rhanbarthau Lloegr.

15A – cyfran y dynion a'r menywod sy'n nodi amryw rwystrau i weithio fel y rheswm dros beidio â chyflawni swydd am dâl.

15B – nifer y plant am bob lle gofal plant cofrestredig fesul awdurdod lleol.

### Uchafbwyntiau

Er bod y risg absoliwt yn isel ar hyn o bryd, po leiaf o gymwysterau sydd gan rywun, po fwyaf yw'r risg y bydd yn ddi-waith.

Iechyd neu anabledd yw'r prif rwystr i ddynion, ond ymhlith menywod mae'r rhesymau'n llawer mwy amrywiol ac yn cynnwys cyfrifoldebau gofalu, yng nghyswllt plant ac oedolion.

Mae gan awdurdodau lleol yn y Cymoedd lai o leoedd gofal plant cofrestredig na rhannau eraill o Gymru.

## Cyfyngiadau ar effeithiau lleihau'r rhwystrau i weithio

Mae'n bwysig deall yn iawn beth yw cyfyngiadau polisïau sydd wedi'u bwriadu i leihau'r rhwystrau. Er enghraifft, os mai rhwystrau lluosog sy'n bwysig, yna mae'n rhaid i bolisïau fod yn lluosog hefyd, er enghraifft, yn achos rhieni sengl, polisïau'n ymwneud â sgiliau a gofal plant a chludiant.


Mae'n rhaid gofyn hefyd beth yw'r amcan. Er enghraifft, nid oes amheuaeth o'r wybodaeth a ddarperir yma ac mewn mannau eraill bod y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cael gwell swydd gymaint â hynny'n uwch os oes gan yr unigolyn fwy o gymwysterau. Yn amlwg, serch hynny, nid yw hynny'n golygu y byddai pawb yn gallu cael gwell swydd pe bai'n ennill cymhwyster ychwanegol.

Byddai cyfyngiadau tebyg ar bolisïau gofal plant neu gludiant. Mae'n amlwg y byddai gwell darpariaeth gofal plant yn galluogi rhieni'n gyffredinol a rhieni sengl yn enwedig i ddod o hyd i, a derbyn, gwaith â thâl. Yn yr un modd, byddai gwell darpariaeth cludiant mewn ardaloedd penodol yn helpu'r bobl sy'n byw yno. Ond oni bai fod mesurau o'r fath yn cyd-daro â thwf yn nifer y swyddi ar y cyfan, ni allant wneud mwy na symud y gwaith o gwmpas. I rannau o'r boblogaeth sy'n wynebu problemau penodol, gallai 'symud y gwaith o gwmpas' o'u plaid hwy fod yn amcan rhesymol. Os yw'r amcan yn fwy na hynny, er enghraifft, cynyddu nifer y bobl sy'n gwneud gwaith am dâl yng Nghymru'n gyffredinol, yna mae'n rhaid i gamau i leihau'r rhwystrau i weithio gael eu hategu gan bolisïau sy'n ymwneud yn benodol â nifer ac ansawdd y swyddi'u hunain.[6]

# Sgiliau a chymwysterau


Dangosydd 14

## Po isaf fo lefel eu cymwysterau, po fwyaf tebygol yw pobl o fod yn ddi-waith.




**Ffynhonnell**: Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05.

## Mae gan Gymru gyfran uwch o oedolion heb sgiliau llythrennedd sylfaenol nag unrhyw ranbarth yn Lloegr a'r ail gyfran uchaf heb sgiliau rhifedd sylfaenol.




**Ffynhonnell**: Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru, 2004 ac Arolwg Sgiliau ar gyfer Bywyd 2002/03 (Lloegr)

Dengys y graff cyntaf y risg o ddiweithdra (yn ôl diffiniad yr ILO) yn ôl lefel addysg uchaf yr unigolyn. Mae'r data'n ymwneud â phobl 25 i 50 mlwydd oed. Nid yw pobl dan 25 wedi'u cynnwys am fod eu patrymau diweithdra a thâl isel rywfaint yn wahanol, yn rhannol oherwydd y gyfran sylweddol sy'n dal i dderbyn addysg. Nid yw pobl sy'n 50 mlwydd oed neu'n hŷn wedi'u cynnwys oherwydd bod nifer uchel y bobl yn y dosbarth 'dim cymwysterau' ymhlith y grŵp oedran hwn yn ei gwneud braidd yn anodd eu cyfuno â'r grŵp oedran ifancach. Ffynhonnell y data yw'r Arolwg o'r Gweithlu (LFS). Er mwyn gwella dibynadwyedd ystadegol y ffigyrau, mae'r data'n dangos cyfartaledd y pedwar chwarter i aeaf 2004/05.

Dengys yr ail graff gyfran yr oedolion 16 i 64 mlwydd oed y mae eu sgiliau llythrennedd a rhifedd islaw Lefel 1. Mae'r safon ar gyfer Lefel 1 yn cyfateb i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 1 (neu radd TGAU D-G) yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Os yw pobl islaw Lefel 1, mae'n awgrymu nad oes ganddynt y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n angenrheidiol i ennill cymhwyster ffurfiol. Ffynhonnell y data yw'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru 2004, a'r Arolwg Sgiliau ar gyfer Bywyd yn Lloegr yn 2002/03. Mae'r arolwg yng Nghymru wedi'i fwriadu i fod yn gymaradwy â'r Arolwg o Sgiliau ar gyfer Bywyd.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r LFS yn arolwg chwarterol mawr sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan. Gyda'r ail graff, mae amheuaeth o ran i ba raddau y mae'r asesiad (tasgau'r 'byd go iawn') a ddefnyddir i ganfod lefel llythrennedd yn gywir o safbwynt adnabod diffyg sgiliau llythrennedd yn hytrach na diffyg sgiliau eraill sy'n ofynnol i ddatrys y tasgau.

Dangosydd 14

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â'r risgiau sy'n deillio o gymwysterau isel

- Mae'r tebygolrwydd o ddiweithdra ymhlith pobl 25 i 50 mlwydd oed yn cynyddu'n gyflym po leiaf yw lefel cymwysterau'r unigolyn. Ymhlith y rhai sy'n weithgar yn economaidd, mae bron 8 y cant o'r rheiny heb unrhyw gymwysterau'n ddi-waith, cyfran sydd ddwywaith a hanner yn uwch na'r cyfartaledd o 3 y cant.
- Ymddengys fod pob lefel ychwanegol o ran cymwysterau'n cyfrannu at leihau'r tebygolrwydd o fod yn ddi-waith. Ymhlith y rheiny â rhai cymwysterau TGAU ond heb rai 'da' (hynny yw, gradd C neu uwch), mae 5 y cant yn ddi-waith. Mae'r rheiny a chanddynt o leiaf un cymhwyster TGAU da'n wynebu risg o 3 y cant o fod yn ddi-waith. Ymhlith y rheiny â chymwysterau uwch, mae'r gyfradd diweithdra'n is byth.
- O leiaf mewn cyfnodau o ddiweithdra isel, y risg uchaf o bell ffordd sy'n gysylltiedig â chymwysterau isel yw tâl isel: mae 60 y cant o'r bobl 25 i 50 sydd heb gymwysterau'n ennill llai na £6.50 yr awr. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o ryw 25 y cant ymhlith y grŵp hwn yn gyffredinol.
- Unwaith eto, mae cymwysterau ychwanegol yn helpu i leihau'r risg: gydag o leiaf un TGAU, mae'r risg yn gostwng i 50 y cant a chydag o leiaf un cymhwyster TGAU da, mae'r risg yn gostwng i 35 y cant.
- Mae risg uwch hefyd o segurdod economaidd: mae 25 y cant o'r holl bobl 25 i 50 mlwydd oed heb gymwysterau'n segur yn economaidd.
- I grynhoi, ymhlith yr holl bobl 25 i 50 mlwydd oed heb unrhyw gymwysterau, mae 30 y cant naill ai'n segur yn economaidd neu'n ddi-waith tra bo 40 y cant yn ddi-waith ond yn derbyn tâl isel.


## Yn ymwneud â sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol

- Mae pum deg a thri y cant o'r bobl o oedran gweithio yng Nghymru heb sgiliau rhifedd sylfaenol, cyfran sy'n uwch nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr heblaw am y gogledd ddwyrain. Y cyfartaledd yn Lloegr gyfan yw 46 y cant.
- Mae pump ar hugain y cant o'r bobl o oedran gweithio yng Nghymru heb sgiliau llythrennedd sylfaenol, cyfran sydd unwaith eto'n uwch nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Y cyfartaledd yn Lloegr gyfan yw 16 y cant.
- Dengys data arall fod y diffyg sgiliau sylfaenol yn amrywio o un ardal i'r llall. Y Cymoedd (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Caerffili, Torfaen a Chastell-nedd a Phort Talbot) oedd â'r cyfrannau uchaf o ran pobl heb sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.[7]
- Mae'r rheiny heb Lefel 1 mewn sgiliau sylfaenol yn llai tebygol o gyfranogi o weithgareddau dysgu oedolion, gan atgyfnerthu'r anfantais y maent eisoes yn ei phrofi trwy fod â lefelau sgiliau isel.[8]
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgu oedolion mewn pynciau heblaw sgiliau sylfaenol. Mae sicrhau mynediad eang a darpariaeth addysg sgiliau sylfaenol i oedolion yn un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad.[9]

# Cyfleoedd a chymorth


Dangosydd 15

## I ddynion a menywod, afiechyd yw'r rhwystr i weithio a nodir amlaf. I fenywod, caiff gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eu nodi hefyd.




**Ffynhonnell:** Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru o Aelwydydd 2003, ELWa

## Mae gan y Cymoedd lai o lawer o leoedd gofal plant cofrestredig y plentyn na rhannau eraill o Gymru.




**Ffynhonnell:** Cronfa Ddata QA Plus, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dengys y graff cyntaf y prif resymau dros beidio â gweithio a roddir gan ddynion a menywod nad ydynt yn gweithio ond sy'n dymuno gweithio. Sylwer y gall unigolion nodi mwy nag un rheswm dros beidio â gweithio. Sylwer hefyd fod y ffigwr sy'n cyfeirio at 'ofal plant' yn gyfuniad o'r ddau ymateb yn yr arolwg – 'gofal plant heb fod ar gael', a 'gofal plant yn rhy ddrud'; a bod 'gofalwr' yn cyfeirio at rywun sydd â chyfrifoldeb am aelod o'r teulu/aelwyd heblaw am blentyn. Ffynhonnell y data yw Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru o Aelwydydd yn 2003.

Dengys yr ail graff nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig am bob plentyn 0-8 mlwydd oed ym mhob awdurdod lleol. Mae lleoedd gofal plant cofrestredig yn cynnwys darpariaeth trwy warchodwr plant, meithrinfa, gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol.

Ffynhonnell y data yw cronfa ddata QA Plus Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ddarparwyd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r data'n ymwneud â 2004.

Digonolrwydd ar y cyfan: ***cyfyngedig*** (graff cyntaf), ***canolig*** (ail graff). Yn y graff cyntaf, mae maint y sampl yn fach ac efallai fod rhai pobl yn gyndyn o roi eu rheswm dros beidio â gweithio. Yn yr ail graff, mae'r data'n gynhwysfawr ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Serch hynny, nid yw'n cynnwys gofal plant anffurfiol, megis perthnasau a ffrindiau'n gofalu am blant.

Dangosydd 15

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â'r rhwystrau i weithio a nodir

- Afiechyd yw'r un rhwystr i weithio a nodir amlaf gan ddynion a menywod gan fod hanner y dynion a chwarter y menywod yn nodi'r rheswm hwn.
- Heblaw am afiechyd, y rhesymau a nodir amlaf gan fenywod am fethu â gweithio yw cyfrifoldebau gofalu (16 y cant) a gofal plant (15 y cant). Ymhlith dynion, yr ail reswm mwyaf cyffredin yw 'diffyg swyddi/swyddi anaddas yn lleol' (23 y cant).
- Os caiff cyfrifoldebau gofalu yng nghyswllt oedolion a phlant eu cyfuno, dyma'r un rhwystr mwyaf i weithio ymhlith menywod (tua 30 y cant).
- Mae'n debygol y byddai cyfran y menywod sy'n nodi gofal plant fel rhwystr i weithio wedi bod yn uwch pe na bai'r sampl ond yn cynnwys y menywod a chanddynt blant. Er enghraifft, ar lefel y DU, yn dilyn gwaith ymchwil cafwyd fod y rhwystr i weithio a grybwyllir amlaf ymhlith rhieni sengl yn ymwneud â gofal plant, gan fod hanner yr ymatebwyr yn nodi diffyg gofal plant addas yn eu hardal.[10]

## Yn ymwneud yn benodol â darpariaeth gofal plant

- Mae nifer y plant am bob lle gofal plant cofrestredig lawer yn uwch yn y Cymoedd nag mewn rhannau eraill o Gymru. Er enghraifft, mae 19 o blant am bob lle gofal plant ym Mlaenau Gwent o'u cymharu â thri am bob lle yn Sir Ddinbych. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru lai na chwe phlentyn am bob lle.
- Nid lleoedd gofal plant cofrestredig yw'r unig fath o ofal plant a ddefnyddir. Mae saithdeg y cant o rieni yng Nghymru, boed o ddewis neu beidio, yn dibynnu ar drefniadau anffurfiol, yn enwedig teidiau a neiniau.[11]
- Mae gofal plant yn rhwystr arbennig i weithio ymhlith rhieni sengl.[12] Dywedodd tua 40 y cant o'r rhieni sengl sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos fod problemau canfod neu fforddio gofal plant yn eu hatal rhag gweithio, neu rhag gweithio mwy.[13]
- Hyd yn oed pan fo lleoedd gofal plant ar gael, gall y costau fod yn rhwystrol. Mae'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith yn talu cyfanswm o 70 y cant o'r costau gofal plant fel rhan o gyflog enillwyr sydd ar incwm isel. Serch hynny, os yw rhiant yng Nghymru'n gymwys ar gyfer y swm uchaf posib, maent yn dal yn debygol o dalu tua £40 yr wythnos yng Nghymru am le mewn meithrinfa.[14]

# Tâl isel

Roedd Dangosydd 3 yn dangos bod aelwydydd sydd ag o leiaf un unigolyn yn gweithio'n cynnwys mwy na thraean o'r bobl nad ydynt yn bensiynwyr sy'n dioddef tlodi incwm yng Nghymru, cyfran sydd wedi cynyddu'n gyflym ers canol y 1990au. O ystyried maint y broblem 'tlodi mewn gwaith', mae'n rhaid ystyried bod tâl isel yn un o brif achosion tlodi.

## Tâl a thlodi

Nid yw'r berthynas rhwng tâl a thlodi'n un uniongyrchol. I ddechrau, er mai'r unigolyn sy'n derbyn tâl, caiff tlodi'i asesu ar sail incwm yr aelwyd. Gall dau unigolyn sy'n derbyn yr un tâl fod ag incwm aelwyd gwahanol iawn, gan ddibynnu faint o bobl sydd yn yr aelwyd a faint ohonynt sy'n gweithio. Yn ail, mae cyfanswm y tâl bob wythnos yn dibynnu ar y gyfradd tâl a nifer yr oriau a weithiwyd. Yn drydydd, gall incwm gwaith ar gyfer rhai aelwydydd, ond nid pob aelwyd, gael ei gynyddu, yn sylweddol mewn rhai achosion, gan gredydau treth gwaith a chredydau treth plant.

Mae'r rhesymau hyn yn golygu nad yw'n bosib disgrifio unrhyw gyfradd tâl fesul awr fel 'cyflog tlodi'. Yn un pegwn, byddai gan riant sengl, â dau o blant, sy'n gweithio 16 awr yr wythnos am £4.50 yr awr, diolch i'r credydau treth, incwm aelwyd ychydig uwchlaw'r trothwy tlodi incwm.[15] Yn y pegwn arall, byddai ar un enillydd sy'n rhan o aelwyd â dau oedolyn ac sy'n gweithio 35 awr yr wythnos angen derbyn tâl o £9 yr awr bron iawn i gyrraedd yr un safon byw.

Mae'r dangosyddion yn yr adran hon yn defnyddio ffigwr o £6.50 yr awr fel y trothwy tâl isel. Dyma'r gyfradd gyflog y byddai ar gwpl ei hangen, os yw un yn gweithio'n llawn-amser a'r llall yn gweithio'n rhan-amser, er mwyn cael incwm aelwyd sydd ychydig uwchlaw'r trothwy tlodi ar eu cyfer hwy eu hunain ac un plentyn dibynnol. Mae aelwydydd â llai o blant uwchlaw'r trothwy tlodi pan eu bod yn derbyn cyflog yn ôl cyfradd ychydig yn is, tra bod ar y rheiny â mwy o blant angen cyflog yn ôl cyfraddau ychydig yn uwch. £6.50 yw'r ffigwr canolig felly.

Nid yw'r cyfrifiadau hyn yn ystyried credydau treth. Y rheswm yw bod angen i waith, os yw'n mynd i gynnig llwybr allan o dlodi ar sail gynaliadwy ac yn yr hirdymor, fod yn waith am gyflog sy'n cyflawni hyn heb fod angen cymhorthdal ar ffurf credydau treth.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

16A – y gymhareb rhwng tâl ar ben uchaf a phen isaf y dosbarthiad incwm a thâl cyfartalog dynion, ar wahân ar gyfer dynion a menywod, dros amser.

16B – cyfran y bobl sy'n ennill tâl bob awr yn ôl gwahanol gyfraddau, dynion a menywod ar wahân, cyflogeion llawn-amser a rhan-amser.

17A – cyfran y cyflogeion ym mhob diwydiant sy'n ennill llai na £6.50 yr awr.

17B – cyfran y cyflogeion sy'n ennill llai na £6.50 yr awr, fesul diwydiant.

## Uchafbwyntiau

Mae'r bwlch rhwng tâl yn agos at waelod y raddfa gyflog a'r tâl cyfartalog wedi bod yn mynd yn llai yn araf deg ar gyfer dynion a menywod.

Mae mwyafrif y swyddi rhan-amser yn rhai y rhoddir tâl isel amdanynt. Mae mwyafrif y gweithwyr sy'n derbyn tâl isel yn fenywod.


Lleiafrif bychan yn unig o'r swyddi y rhoddir tâl isel amdanynt sydd mewn rhannau o'r economi sy'n wynebu cystadleuaeth yn rhyngwladol ac, yn sgîl hynny, y bygythiad y gallai swyddi gael eu symud dramor.

Mae nifer o swyddi y rhoddir tâl isel amdanynt yn y sector cyhoeddus.

## Dosbarthiad tâl isel a chredydau treth ledled Cymru

Ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol, dengys y graff isod: i) cyfran y cyflogeion a dderbyniodd dâl o lai na £6.50 yr awr yn 2004; a ii) cyfran yr aelwydydd o oedran gweithio a gafodd naill ai'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Treth Plant neu'r ddau yn 2004.

### A3: Tâl isel o'i gymharu â chredydau treth





Mae dau bwynt sydd o ddiddordeb yma:

- Yr amrywiaeth mawr yng nghanran y cyflogeion sy'n derbyn tâl isel rhwng gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, o ychydig mwy nag 20 y cant ym Mro Morgannwg, Torfaen a Sir Fynwy i 40 y cant neu fwy yn Sir Benfro, Ceredigion a Gwynedd. Mae patrwm daearyddol cryf yma, sy'n golygu bod tâl isel yn fwy cyffredin ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin.
- Mae llawer llai o amrywiaeth yng nghanran yr aelwydydd a oedd yn derbyn credydau treth a pherthynas gyfyngedig iawn sydd rhwng maint y gyfran a oedd yn derbyn tâl isel a maint y gyfran a oedd yn derbyn credydau treth. Er enghraifft, roedd canran yr aelwydydd a oedd yn derbyn credydau treth yr un faint yng Ngheredigion a Thorfaen er bod lefel y tâl isel ddwywaith yn uwch yn y gyntaf o'r ddwy ardal nag yn y llall.

# Tâl isel yn ôl rhyw


**Dangosydd 16**

## Mae enillion dynion a menywod ar waelod y raddfa gyflog wedi bod yn codi'n gynt nag enillion ar gyfartaledd.




**Ffynhonnell**: Arolwg Enillion Newydd; Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, ONS

## Mae chwarter y gweithwyr llawn-amser sy'n fenywod a mwy na hanner yr holl weithwyr rhan-amser yn ennill llai na £6.50 yr awr.




**Ffynhonnell**: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2004, ONS

Mae'r graff cyntaf yn canolbwyntio ar wahaniaethau rhwng cyfraddau tâl. Mae'n dangos pedwar ystadegyn: tâl dynion un rhan o ddeg o'r ffordd o ben/o waelod y tabl dosbarthiad tâl ymhlith dynion; a thâl menywod un rhan o ddeg o'r ffordd o ben/o waelod y tabl dosbarthiad tâl ymhlith menywod. Ym mhob achos, dangosir yr ystadegau fel cyfran o'r tâl cyfartalog (canolrifol) wrth yr awr a dderbynnir gan gyflogeion llawn-amser sy'n ddynion er mwyn rhoi mesur o anghydraddoldebau o ran enillion. Ffynhonnell y data yw'r Arolwg Enillion Newydd (NES) hyd at 1998 a'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) o 1998 ymlaen. Mae'r ddau arolwg yn defnyddio dulliau ychydig yn wahanol ar gyfer cyfrifo felly gwnaed addasiad bach i'r ffigyrau NES er mwyn ymorol am hyn. Nid yw'r NES yn cynnwys cwmnïau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer TAW na phobl a newidiodd eu swyddi neu a ddechreuodd swyddi newydd yn ystod cyfnod yr arolwg felly nid yw data o'r fath wedi'i gynnwys yn y ffigyrau ASHE ychwaith.

Dengys yr ail graff, am y flwyddyn ddiweddaraf, ddosbarthiad y cyflogeion ar hyd y sbectrwm tâl a chaiff y data ei ddangos ar wahân ar gyfer menywod rhan-amser, dynion rhan-amser, menywod llawn-amser a dynion llawn-amser. Ffynhonnell y data yw'r ASHE. Cyfrifwyd y cyfrannau gan ddefnyddio'r cyfraddau bob awr a chan ddefnyddio'r dull rhyngosod i amcangyfrif y gyfran ganlynol sy'n ennill ym mhob un o'r grwpiau tâl.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae ASHE yn arolwg blynyddol mawr o gyflogwyr ond nid yw'r data a gyhoeddir yn rhoi amcangyfrifon uniongyrchol o nifer y bobl sydd ar yr amryw drothwyon tâl-isel ar gyfer Cymru.

Dangosydd 16

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag anghydraddoldebau o ran enillion

- Dros y degawd diwethaf, mae enillion sy'n agos at waelod y raddfa gyflog ar gyfer dynion a menywod wedi codi'n gyflymach nag enillion cyfartalog gweithwyr gwrywaidd. Ym 1995, roedd dyn yn 10fed ganradd y dosbarthiad tâl ymhlith dynion yn cael tâl a oedd yn 55 y cant o'r hyn yr oedd gweithwyr gwrywaidd yn ei ennill ar gyfartaledd; erbyn 2004, roedd y ffigwr hwn wedi codi i 58 y cant. Roedd menyw yn 10fed ganradd y dosbarthiad tâl ymhlith gweithwyr benywaidd yn cael tâl a oedd yn 48 y cant o'r hyn yr oedd gweithwyr gwrywaidd yn ei ennill ar gyfartaledd; erbyn 2004, roedd y ffigwr hwn wedi codi i 52 y cant.
- Mae enillion yn agos at ben uchaf y raddfa gyflog ar gyfer dynion a menywod hefyd wedi codi'n gyflymach nag enillion cyfartalog gweithwyr gwrywaidd. Ym 1995, roedd dyn yn 90fed ganradd y dosbarthiad tâl ymhlith dynion yn cael tâl a oedd yn 184 y cant o'r hyn yr oedd gweithwyr gwrywaidd yn ei ennill ar gyfartaledd; erbyn 2004, roedd y ffigwr hwn wedi codi i 193 y cant. Roedd y ffigwr ar gyfer menywod, o'i gymharu, yn 162 y cant ym 1995, cyn codi i 172 y cant yn 2004.

## Yn ymwneud  â thâl yn ôl rhyw a gwaith rhan-amser/llawn amser

- Ein ffigwr ni i ddynodi tâl isel yw £6.50 yr awr. Yn ôl y diffiniad hwn, roedd 60 y cant o weithwyr rhan-amser yn derbyn tâl isel yn 2004. Roedd y gyfran hon yn debyg ar gyfer dynion a menywod.
- Ymhlith gweithwyr llawn-amser, mae 25 y cant o fenywod yn derbyn tâl isel o'u cymharu â 15 y cant o ddynion.
- Mae hanner y rhai sy'n derbyn tâl isel yn weithwyr rhan-amser, ac mae'r mwyafrif llethol (pum rhan o chwech) ohonynt yn fenywod. Gan fod hanner y gweithwyr rhan-amser sy'n derbyn tâl isel hefyd yn fenywod, mae menywod yn rhoi cyfrif am ddwy ran o dair o'r holl weithwyr sy'n derbyn tâl isel.
- Mae tua 25 y cant o'r gweithwyr rhan-amser yn cael tâl isel iawn, hynny yw llai na £5 yr awr yn 2004. Ymhlith gweithwyr llawn-amser, mae'r cyfrannau ymhlith dynion a menywod lawer yn llai na 10 y cant.


## Yn ymwneud â thâl yn ôl oedran

- Ym mhob grŵp oedran, mae cyfran y gweithwyr rhan-amser sy'n derbyn tâl isel wastad yn ddwy ran o bump o leiaf.
- Mae dwy ran o dair o'r holl weithwyr sy'n 21 mlwydd oed neu'n ifancach yn derbyn tâl isel. Er hynny, nid yw'r bobl dan 21 mlwydd oed ond yn rhoi cyfrif am un rhan o chwech o'r holl weithwyr sy'n derbyn tâl isel.
- Mae un rhan o dair o'r gweithwyr sy'n derbyn tâl isel dan 30 mlwydd oed. Mae chwarter yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn.

# Lleoliad tâl isel


**Dangosydd 17**

## Mae mwy na hanner y cyflogeion yn y sector adwerthu, y sector gwestai a'r sector bwytai'n cael tâl o lai na £6.50 yr awr. Mae dwy ran o dair o'r rhain yn fenywod.




**Ffynhonnell**: Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05

## Mae dwy ran o bump o'r holl weithwyr sy'n cael tâl isel yn gweithio yn y sector adwerthu, y sector gwestai a'r sector bwytai. Mae pumed arall yn gweithio yn y sector cyhoeddus.




**Ffynhonnell**: Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05

Dengys y graff cyntaf sut y mae cyfran y gweithwyr a gafodd dâl o lai na £6.50 yr awr yn amrywio fesul diwydiant, a chaiff y data'i ddangos ar wahân ar gyfer dynion a menywod.

Dengys yr ail graff ddosbarthiad y gweithwyr a oedd yn derbyn tâl isel fesul diwydiant.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw'r Arolwg o'r Gweithlu. Nid yw pobl na ellir cyfrif eu cyfradd tâl bob awr o ddata'r arolwg wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r Arolwg o'r Gweithlu'n arolwg chwarterol mawr gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan ond mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch dibynadwyedd y data'n ymwneud â thâl isel.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â chyfrannau'r gweithwyr ym mhob diwydiant sy'n derbyn tâl isel

- Mae'r sector gwestai a'r sector bwytai a hefyd y sector adwerthu a chyfanwerthu'n cynnwys mwyafrif o weithwyr sy'n derbyn tâl isel (hynny yw, llai na £6.50 yr awr). Mewn gwestai a bwytai, 80 y cant yw'r gyfran, ac mae dwy ran o dair o'r rhain yn fenywod. Yn y diwydiant adwerthu a chyfanwerthu, 60 y cant yw'r gyfran, ac mae mwy na hanner y rhain yn fenywod.
- Y sectorau eraill sydd â rhwng 30 y cant a 40 y cant o'r gweithwyr yn derbyn tâl isel yw'r diwydiant adeiladu a'r diwydiant cludiant/cyfathrebu (y mae'r mwyafrif o'r gweithwyr sy'n derbyn tâl isel o fewn y diwydiant yn ddynion) a gwasanaethau ariannol a gwasanaethau eraill (wedi'u rhannu'n gyfartal, hanner a hanner, rhwng dynion a menywod).
- Heblaw am swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol, mae mwyafrif y gweithwyr benywaidd ym meysydd gwerthu a gwasanaethau i gwsmeriaid, galwedigaethau elfennol, a gweithredu prosesau, offer a pheiriannau yn derbyn tâl isel.

## Yn ymwneud â chyfrannau'r gweithwyr sy'n cael tâl isel rhwng diwydiannau

- Y sector â'r nifer uchaf o weithwyr sy'n derbyn tâl isel yng Nghymru yw'r sector adwerthu a chyfanwerthu, gan ei fod yn cynnwys bron 30 y cant o'r holl weithwyr sy'n derbyn tâl isel. Mae hyn yn adlewyrchu maint y sector a'r gyfran uchel o weithwyr sy'n derbyn tâl isel o fewn y sector.
- Y sector cyhoeddus – gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd – yw'r sector sydd â'r ail nifer uchaf o weithwyr sy'n derbyn tâl isel, rhyw 20 y cant. Dylid nodi bod y rhain yn weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan y sector cyhoeddus. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys, er enghraifft, staff sy'n gweithio fel glanhawyr, a gyflogir gan gontractwyr sy'n gweithio i'r sector cyhoeddus.
- Lleiafrif bychan yn unig o'r gweithwyr sy'n derbyn tâl isel sydd mewn sectorau sy'n wynebu cystadleuaeth ryngwladol a'r bygythiad yn sgîl hynny y gallai'r swydd symud dramor. Mae'r swyddi sy'n debygol o fod yn y fath berygl yn cynnwys y rheiny yn y diwydiant gweithgynhyrchu a rhai rhannau o'r sector gwasanaethau ariannol, gwasanaethau eraill, a chludiant a chyfathrebu: cyfanswm o 20 cant efallai o'r holl swyddi y rhoddi tâl isel amdanynt.[16]

## Yn ymwneud â gwahanu yn y gweithle yn ôl rhyw ac ethnigrwydd

- Mae gwahanu yn y gweithle yn ôl rhyw yn fwy pendant yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU.[17]
- Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn nodi bod pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig merched, yn profi diffyg cyngor ynghylch gyrfaoedd, lleoliadau profiad gwaith, a chyfleoedd hyfforddiant a allai eu helpu i wneud dewisiadau go iawn o ran pa yrfa i'w dilyn a chael swyddi sydd â thâl uwch yn gysylltiedig â hwy. Yn hytrach, mae pobl ifanc yn cael eu sianeli at swyddi traddodiadol yn ôl rhyw, ac mae syniadau traddodiadol am 'waith i ddynion' a 'gwaith i fenywod' yn dal i gael lle blaenllaw.[18]
- Mae mwyafrif y dynion a'r menywod sy'n perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol yng Nghymru'n cael eu cyflogi mewn sectorau sy'n rhoi tâl isel: gwestai a bwytai (19 y cant a 14 y cant yn y drefn honno); y diwydiant cyfanwerthu ac adwerthu (17 y cant); atgyweirio cerbydau modur (17 y cant) ac iechyd a gwaith cymdeithasol (16 y cant a 27 y cant yn y drefn honno).[19]
- Mae gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae dros 50 y cant o bobl Bangladeshi a Tsieineaidd yng Nghymru'n gweithio yn y sector gwestai ac arlwyo, a phobl Indiaidd, pobl dduon o dras Affricanaidd a phobl dduon o dras Caribïaidd yn fwy tebygol o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.[20]
- Mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn arbennig o bwysig o ran cyflogi menywod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gan fod hanner y menywod duon o dras Caribïaidd a'r menywod duon o dras Affricanaidd yn gweithio yn y sector hwn.[21]

# Ansawdd y swyddi

Er 1997, mae nifer y swyddi yng Nghymru wedi codi 10 y cant. Mae'r twf hwn, sy'n gyson â'r hyn sydd wedi digwydd ledled y DU gyfan, yn angenrheidiol er mwyn gostwng lefelau pobl heb waith yng Nghymru a'r risg uchel o dlodi a ddaw yn eu sgîl. Serch hynny, nid mater o ddarparu unrhyw fath o swydd ydyw; yn hytrach mae'n rhaid iddynt fod yn swyddi o ansawdd digonol hefyd. Mae'n rhaid i 'fwy o swyddi', mewn geiriau eraill, fynd ochr yn ochr â 'gwell swyddi'.

## Gwell swyddi

Y syniad bod rhaid i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fynd ar drywydd mwy o swyddi a gwell swyddi yw conglfaen Strategaeth Cyflogaeth Ewrop.[22] Y tu hwnt i'r tâl ei hun, sy'n amlwg yn hollbwysig, mae rhestr faith o ffactorau'n cyfrannu at ansawdd y swydd. Maent yn cynnwys: manteision ariannol ehangach megis tâl salwch, tâl gwyliau a phensiwn; sicrwydd swydd, gan gynnwys pa un a yw'r swydd yn un barhaol ynteu'n un am gyfnod penodol yn unig; lefel y rhyddid i weithredu a'r oruchwyliaeth yn ogystal â dwyster y swydd; cysylltiadau da â rheolwyr a chyd-gyflogeion; ymlyniad wrth gydraddoldeb y rhywiau a chydraddoldeb hiliol; ymlyniad wrth safonau iechyd a diogelwch uchel; mynediad at hyfforddiant yn y gwaith, ynghyd â'r rhagolygon ar gyfer symud ymlaen yn y gwaith; lleoliad y swydd; hyblygrwydd o safbwynt oriau, i ganiatáu amser o'r gwaith i bobl gyflawni rhwymedigaethau eraill; mynediad at drefn gwynion a/neu'r hawl i weithiwr gael ei gynrychioli gan undeb llafur.

Codwyd rhai o'r ffactorau hyn yn ystod y grwpiau trafod a oedd yn rhan o'n hastudiaeth. Soniodd y cyfranogwyr mewn un grŵp am bwysigrwydd sicrwydd swydd. Roedd y prif gyflogwr lleol wedi cwtogi ar 200 o swyddi a'r canfyddiad oedd nad oedd contractau cyflogaeth hirdymor ar gael yn yr ardal. Cafodd tâl isel ei grybwyll fel rhwystr i weithio yn yr ystyr bod tâl isel, yn enwedig mewn swydd ran-amser, yn golygu bod y manteision ariannol sy'n deillio o gael swydd yn aml yn rhy isel. Roedd cysylltiad amlwg rhwng hyn a'r gost uchel o ddefnyddio cludiant cyhoeddus sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y gwaith – sy'n tanlinellu pwysigrwydd lleoliad y swyddi.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

18 – map o leoliad ardaloedd bychain sy'n cynnwys crynodiadau uchel o swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu.

19A – natur fyrdymor y swyddi a gymerir gan bobl sy'n ddi-waith, a fesurwyd yn ôl y gyfran sy'n gwneud hawliad newydd am LCG lai na chwe mis ar ôl eu hawliad diwethaf, dros amser.

19B – cyfran y bobl sydd naill ai mewn swyddi rhan-amser neu swyddi dros dro ac sy'n bodloni ar swydd o'r fath.

20A – cyfran y bobl sy'n derbyn hyfforddiant ar gyfer swydd, wedi'i rhannu yn ôl lefel y cymwysterau sydd gan yr unigolyn yn barod.

20B – cyfran y bobl sy'n perthyn i undeb llafur, wedi'i rhannu yn ôl y gyfradd tâl.

## Uchafbwyntiau

Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd lleol bychain y mae'u trigolion yn ddibynnol iawn ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu wedi'u crynhoi yn y Cymoedd.


Mae nifer fawr o bobl wedi'u dal mewn cylch di-dor o 'ddiweithdra – cyflogaeth fyr-dymor – diweithdra'.

Lleiafrif bychan yn unig o'r bobl sy'n derbyn tâl isel sy'n perthyn i undebau llafur, ac mae'r gyfran honno lawer yn is na'r gyfran ymhlith gweithwyr ar gyfartaledd a hyd

## Cefndir: tueddiadau mewn niferoedd o wahanol fathau o swyddi

Fel y dengys y graff isod, islaw'r twf cyson yn nifer y swyddi yng Nghymru dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, bu newid amlwg yn y detholiad o swyddi. Fel mae'n digwydd, mae nifer y swyddi yn y gwasanaethau sector preifat a'r nifer yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol fwy neu lai'n gyfartal ac maent wedi cynyddu'n gyson â'i gilydd dros y blynyddoedd diwethaf, o tua 350,000 ym 1997 i tua 420,000 yn 2005. O'u cyferbynnu, mae nifer y swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu, y diwydiant adeiladu a diwydiannau cynhyrchu eraill wedi gostwng, o 290,000 ym 1998 i 245,000 yn 2005.

### A4: Nifer y swyddi fesul sector





Dengys y ffigyrau hyn fod y duedd ffafriol ar y cyfan o ran swyddi yng Nghymru ers diwedd y 1990au'n celu gwahaniaethau sylweddol rhwng y sectorau. Mae arwyddocâd hyn yn amlwg yn y diwydiannau cynhyrchu, nad ydynt erbyn hyn ond yn rhoi cyfrif am chwarter y swyddi yng Nghymru, a'r rheiny'n bennaf yn swyddi llawn-amser a ddelir gan ddynion. Mae deugain y cant o'r swyddi llawn-amser a ddelir gan ddynion yn y sector hwn, o'u cymharu ag un ym mhob chwech o'r swyddi llawn-amser a ddelir gan fenywod ac un ym mhob ugain swydd ran-amser. Mae'r colli swyddi cyson yn y sector hwn dros y blynyddoedd diwethaf felly wedi cael effaith anghymesur ar y math o gyflogaeth sydd ar gael yng Nghymru.

# Map: dibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu

**Dangosydd 18**

**Dibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu**

Mae bron pob un o'r ardaloedd lleol bychain sydd â chyfran uchel o drigolion yn ddibynnol ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Y Fflint a Wrecsam.



# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â lle y mae pobl a chanddynt swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu'n byw

- Caiff y ddibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu ei mesur yma trwy gyfrif y gyfran o bobl a chanddynt swydd sy'n byw mewn ardal a nododd, yng Nghyfrifiad 2001, eu bod yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Map ydyw, felly, sy'n dangos ble mae pobl sy'n gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu'n byw, yn hytrach na ble mae swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu wedi'u lleoli.
- Yr ardaloedd lleol bychain yn y chweched uchaf yw'r rheiny y mae'r gyfran o bobl ynddynt sy'n gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu'n uwch na 27 y cant. O ran yr ardaloedd yn yr ail chweched mae rhwng 21 y cant a 27 y cant yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu ac o ran y drydedd chweched mae rhwng 16 y cant a 21 y cant yn gweithio yn y diwydiant.
- Mae bron pob un o'r ardaloedd lleol bychain sydd â dibyniaeth uchel ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu (mwy na 27 y cant) i'w cael mewn dwy ran o Gymru: y Cymoedd (cyfanswm o dair rhan o bump), ynghyd â Phen-y-bont (un rhan o ddeg); a Sir y Fflint a Wrecsam (chwarter).
- Mae gan bedair rhan o bump o'r ardaloedd bychain yn ardal awdurdod lleol Blaenau Gwent gyfraddau dibyniaeth ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu sy'n uwch na 27 y cant. Mae gan bron hanner yr ardaloedd bychain yng Nghaerffili a Wrecsam gyfraddau dibyniaeth yr un mor uchel â hynny.
- Y tu allan i'r awdurdodau lleol a grybwyllwyd eisoes, mae ardaloedd bychain â dibyniaeth uchel ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu i'w cael yn Llanelli, Casnewydd a'r Drenewydd (Powys).
- Yr awdurdodau sy'n dod i'r amlwg am nad oes unrhyw ardaloedd bychain o gwbl ynddynt sydd â dibyniaeth uchel ar weithgynhyrchu yw Caerdydd ac (heblaw am lond llaw o eithriadau) Abertawe. Serch hynny, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhai ardaloedd bychain â dibyniaeth uwch-na'r-cyfartaledd ar swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu.

Dangosydd 18

Ar gyfer pob un o'r 10,000 o 'ardaloedd cynnyrch' yng Nghymru, dengys y map gyfran y bobl â swydd sy'n byw mewn ardal a nododd, yng Nghyfrifiad 2001, eu bod yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Map ydyw, felly, sy'n dangos ble mae pobl sy'n gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu'n byw, yn hytrach na ble mae swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu wedi'u lleoli.

Mae 'ardaloedd cynnyrch' yn ardaloedd bychain a ddiffiniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol at ddibenion dadansoddi data ar lefel ardal fechan. Maent wedi'u diffinio fel bod eu poblogaethau fwy neu lai yr un faint.

Dim ond ardaloedd cynnyrch â chyfran uwch na'r cyfartaledd sydd wedi'u graddliwio, gyda'r lliw tywyllaf yn nodi'r chweched o ardaloedd cynnyrch â'r gyfran uchaf, y lliw nesaf yn cynrychioli'r ail chweched a'r lliw goleuaf yn cynrychioli'r drydedd chweched.


Ffynhonnell y data yw Cyfrifiad 2001.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r cwestiwn yn y Cyfrifiad yn ffeithiol ac mae felly'n gymharol rwydd i rywun benderfynu a yw'n gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu ai peidio.

# Ansicrwydd yn y gwaith


Dangosydd 19

## Roedd bron hanner y dynion a thraean o'r menywod a wnaeth hawliad newydd am Lwfans Ceisio Gwaith yn hawlio ddiwethaf lai na chwe mis yn ôl.




**Ffynhonnell:** Y cohort JUVOS, chwarter cyntaf pob blwyddyn, ONS

## Un ymhob deg yn unig o weithwyr rhan-amser sy'n dymuno cael swydd lawn-amser ond mae un ymhob pedwar gweithiwr dros dro'n dymuno cael swydd lawn-amser.




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05.

Mae'r graff cyntaf yn mynd i'r afael ag ansicrwydd yn y gwaith trwy ystyried pobl sy'n eu cael eu hunain yn cymryd cyfres o swyddi'n olynol a chyfnodau o ddiweithdra rhwng y swyddi hynny. Mae'n dangos y tebygolrwydd bod rhywun sy'n gwneud hawliad newydd am Lwfans Ceisio Gwaith wedi hawlio'r budd-dal hwnnw ddiwethaf lai na chwe mis yn flaenorol. Mae hyn i bob pwrpas yr un fath â chyfran y bobl sy'n dod o hyd i swydd ac yna'n colli'r swydd honno o fewn chwe mis. Caiff y ffigyrau eu dangos ar wahân ar gyfer dynion a menywod.

Mae'r data wedi'i gymryd o chwarteri'r gwanwyn yng nghohort y Cyd-system Gweithredu Diweithdra a Swyddi Gweigion (JUVOS).

Mae'r ail graff yn dangos y prif resymau a nodwyd gan bobl am dderbyn swydd ran-amser neu dros dro. Yn y ddau achos, y prif bwynt sydd o ddiddordeb yw'r rhai sy'n derbyn y mathau hyn o swyddi ac y byddai'n well ganddynt dderbyn gwaith llawn-amser neu barhaol yn y drefn honno.

Ffynhonnell y data yw'r Arolwg o'r Farchnad Waith (LFS). Mae'r data'n dangos y cyfartaledd am y pedwar chwarter i aeaf 2004/05.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Er bod y data'n ymwneud â nifer yr hawlwyr yn gadarn, mae'r diffiniad cul o ddiweithdra a gynrychiolir ganddo'n golygu ei fod yn rhoi amcangyfrif rhy isel o nifer y bobl sy'n gweithio am gyfnodau byr ac yn cael cyfnodau rhwng y rheiny o fod heb swydd.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

- Yn 2005 roedd bron hanner y dynion, ac un rhan o dair o'r menywod, a wnaeth hawliad newydd am Lwfans Ceisio Gwaith wedi hawlio'r budd-dal hwn ddiwethaf lai na chwe mis yn flaenorol. Mewn geiriau eraill, mae hanner y dynion ac un rhan o dair o'r menywod sy'n dod o hyd i waith, heb y gwaith hwnnw chwe mis yn ddiweddarach. Dengys hyn natur fyrdymor y swyddi y mae nifer o bobl ddi-waith yn eu cael.
- Er mai ychydig o newid a fu yn y cyfrannau dros y cyfnod, mae nifer gwirioneddol y bobl sydd wedi'u dal yn y cylch o ddiweithdra, gwaith byrdymor, yna diweithdra eto, wedi gostwng wrth i lefelau diweithdra ar y cyfan ostwng. Yn chwarter cyntaf 2005, 12,500 oedd nifer y dynion a wnaeth hawliad newydd am LCG a hwythau wedi bod yn hawlio ddiwethaf lai na chwe mis yn gynharach, o'i gymharu ag 16,000 yn chwarter cyntaf 1996. O ran menywod, 2,800 oedd y ffigwr yn 2005, sydd hefyd yn ostyngiad gan mai 4,200 oedd y ffigwr ym 1996.
- Mae'r mathau o swyddi a gymerir gan bobl ddi-waith yn debygol o fod yn rhai dros dro, rhan-amser, ar sail hunangyflogedig ac yn rhai sy'n galw am lai o sgiliau na swyddi blaenorol.[23] Mae cyfradd yr hawlwyr sy'n dychwelyd at fod yn ddi-waith ar ôl cyfnod yn gweithio'n arbennig o uchel ymhlith y rheiny sydd ar gontractau dros dro.[24]
- Mae amryw esboniadau wedi'u cynnig am y cysylltiad hwn rhwng diweithdra a gwaith dros dro. Er enghraifft, gallai'r rhwystrau i gadw gwaith fod yn debyg i'r rhwystrau i weithio yn y lle cyntaf; gallai problem a oedd eisoes yn bodoli ddod i fod yn bwysicach, neu gallai anhawster newydd ddod i'r amlwg, sydd wedyn yn atal unigolyn rhag parhau â'r gwaith. Fel arall, efallai fod tebygolrwydd uwch y bydd y rheiny sy'n ddi-waith yn dod i fod yn ddi-waith eto oherwydd bod pobl ddi-waith, dros amser, yn dod i fod yn llai uchelgeisiol ac yn derbyn swyddi o ansawdd gwaeth.[25]


## Yn ymwneud â gwaith rhan-amser a dros dro

- Nid yw'r mwyafrif helaeth o gyflogeion rhan-amser – 85 y cant – yn dymuno cael swydd lawn-amser. O'u cyferbynnu, 25 y cant yn unig o gyflogeion dros dro sydd ddim yn dymuno cael swydd barhaol. Mae hyn yn awgrymu, tra bod swydd ran-amser yn ddewis cadarnhaol, nad dewis cadarnhaol yw swydd dros dro fel arfer.
- O'r 15 y cant o bobl sydd mewn swydd ran-amser ond sydd eto'n dymuno cael swydd lawn-amser, dywed dwy ran o dair (10 y cant) nad ydynt yn gallu dod o hyd i swydd lawn-amser.
- O'r 75 y cant o bobl sydd mewn swydd dros dro ond sydd eto'n dymuno cael swydd barhaol, dywed un rhan o dair (25 y cant) nad ydynt yn gallu dod o hyd i swydd barhaol.

# Cymorth yn y gwaith


Dangosydd 20

## Po isaf yw lefel cymwysterau addysgol rhywun, po leiaf tebygol ydyw o dderbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â swydd.




**Ffynhonnell**: Arolwg o'r Gweithlu, ONS; mae'r data'n ymwneud â'r pedwar chwarter i aeaf 2004/05, wedi'u cyfuno.

## Pumed yn unig o'r gweithwyr sy'n ennill llai na £6.50 yr awr sy'n perthyn i undeb llafur o'i gymharu â hanner y rheiny sy'n ennill £9 i £21 yr awr.




**Ffynhonnell**: Arolwg o'r Gweithlu, chwarter y gwanwyn 2004, ONS

Dengys y graff cyntaf gyfran y cyflogeion sydd wedi derbyn rhyw hyfforddiant yn gysylltiedig â swydd yn y tri mis diwethaf yn ôl lefel cymhwyster uchaf y cyflogai. Defnyddiwyd graddfeydd cyfatebiaeth y DfES er mwyn trosi'r cymwysterau galwedigaethol yn gymwysterau academaidd cyfatebol. Mae hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant y telir amdano gan gyflogwyr a chan y cyflogeion eu hunain.

Dengys yr ail graff gyfran y bobl sydd ar hyn o bryd yn gyflogedig ac sy'n aelod o undeb llafur neu gymdeithas staff, a chaiff y data'i ddangos ar wahân yn ôl lefel tâl.

Ffynhonnell y data yn y ddau graff yw'r Arolwg o'r Gweithlu (LFS). Yn y graff cyntaf mae'r data'n rhoi'r cyfartaledd am y pedwar chwarter i aeaf 2004/05. Mae'r ffigyrau yn yr ail graff yn rhai ar gyfer chwarter yr hydref 2004 o'r LFS (ni chaiff y data'i gasglu ond yn chwarter yr hydref).

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r LFS yn arolwg chwarterol gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth gyfan. Ond mae un syniad diwahaniaeth o 'hyfforddiant' heb gyfeirio at hyd na natur yr hyfforddiant, yn lleihau gwerth y dangosydd.

Dangosydd 20

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â hyfforddiant yn y gwaith

- Po uchaf yw lefel cymwysterau addysgol rhywun, po fwyaf tebygol ydyw o gael hyfforddiant yn y gwaith.
- Ar gyfartaledd, mae 30 y cant o gyflogeion rhwng 25 mlwydd oed ac oedran ymddeol yn dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â swydd yn y tri mis diwethaf. Ymhlith y rheiny heb gymwysterau, mae llai na 15 y cant wedi cael hyfforddiant. Ymhlith y rheiny â chymhwyster addysgol uwch, mae 43 y cant wedi cael hyfforddiant.
- Caiff y patrwm hwn ei adlewyrchu yn y cyfrannau sy'n derbyn hyfforddiant yn ôl natur eu swydd. Felly ymhlith y rheiny mewn swyddi elfennol, gweithredyddion offer a pheiriannau, neu'r rheiny sy'n gweithio â chrefft, fe dderbyniodd 20 y cant hyfforddiant yn gysylltiedig â'r swydd yn y tri mis diwethaf. Ymhlith y rheiny mewn swyddi proffesiynol neu swyddi sy'n gysylltiedig â phroffesiwn, mae'r gyfran bron â bod yn 50 y cant.[26]
- Mae amrywiaethau mawr i'w gweld yn y gyfran hon hefyd rhwng gwahanol ddiwydiannau. Yn y diwydiannau cynhyrchu (gweithgynhyrchu, adeiladu, cludiant a chyfathrebu ac amaethyddiaeth), mae 20 y cant wedi derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd yn y tri mis diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 45 y cant ym meysydd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd.

## Yn ymwneud ag aelodaeth o undeb llafur

- Mae cyfran y gweithwyr sy'n perthyn i undeb llafur yn is ymhlith y rheiny sy'n derbyn llai na £6.50 yr awr o dâl nag ydyw ymhlith unrhyw grŵp tâl arall.
- Un rhan o bump yn unig o'r holl bobl sy'n ennill llai na £6.50 yr awr sy'n perthyn i undeb llafur, o'u cymharu â dwy ran o bump o'r rheiny sy'n ennill rhwng £6.50 a £9 yr awr a thros hanner y rheiny sy'n ennill rhwng £9 a £15 yr awr.
- Mae'r gyfran sy'n perthyn i undeb llafur ar ei huchaf ymhlith y rheiny sy'n ennill rhwng £15 ac £21 yr awr: 58 y cant. Mae'r 30 y cant o'r rheiny sy'n ennill mwy na £21 yr awr ac yn perthyn i undeb llafur yn dal i fod yn gyfran uwch na'r gyfran ymhlith y rheiny sy'n ennill llai na £6.50 yr awr.
- Mae dwy ran o dair o'r menywod sy'n aelodau o undeb llafur – ond dwy ran o bump yn unig o'r dynion sy'n aelodau o undeb llafur – yn cael tâl o lai na £9 yr awr.
- Ar bob lefel tâl, mae cyfran y menywod sy'n perthyn i undeb llafur wastad yn uwch na chyfran y dynion. Serch hynny, mae 50 y cant yn fwy o ddynion na menywod sy'n aelodau o undeb llafur ac yn cael mwy na £9 yr awr o dâl. O'u cyferbynnu, ymhlith y rheiny sy'n ennill llai na £6.50 yr awr, mae nifer y menywod sy'n aelodau o undeb llafur ddwywaith yn uwch na nifer y dynion.

# Pennod 4 Iechyd

| *Thema* | *Dangosydd/map* |
| --- | --- |
| Iechyd a lles plant | 21: Difreintedd adeg geni |
| | 22: Afiechyd ymhlith plant |
| Morbidrwydd a marwolaeth cyn pryd | 23: Anabledd ac afiechyd hirdymor |
| | 24: Map: lleoliad afiechyd hirdymor |
| | 25: Marwolaeth cyn pryd |
| Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol | 26: Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol |

# Iechyd a lles plant

Mae'r cysylltiad rhwng iechyd ac amddifadedd yn un sydd wedi'i gadarnhau droeon.[1] Mae afiechyd ymhlith plant yn dangos y cysylltiad hwnnw'n arbennig o eglur.. Yn wahanol i ddangosyddion iechyd ar gyfer oedolion, mae llai o le i ddadlau am ddewisiadau unigol a dewisiadau'n ymwneud â ffordd o fyw, gan symud y pwyslais yn naturiol i'r amgylchiadau a'r amgylchedd y maent yn byw ynddynt. Golyga hyn fod 'effaith' amddifadedd yn haws i'w gweld. Mae hefyd yn ffaith bendant bod afiechyd mewn plentyndod yn arwydd rhag blaen o afiechyd pan fo rhywun yn oedolyn, a'r difreintedd lluosog a ddaw yn sgîl hynny. Felly, caiff yr anfantais o fod ag afiechyd ei bytholi.

Bu i'r adroddiad *Proffil o iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru* (2004)[2] amlygu ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd plant. Gall fod a wnelont â'r amgylchedd ffisegol, megis cyfleusterau a gwasanaethau lleol. Gall fod a wnelont â'r amgylchedd economaidd-gymdeithasol, megis incwm, ansawdd tai, addysg a.y.b, sydd yn eu tro'n effeithio ar ffyrdd unigol o fyw. Gwyddys fod tai o ansawdd gwael, er enghraifft, yn cynyddu'r risg o afiechyd yn gysylltiedig ag annwyd a'r fogfa ymhlith plant.[3] Gall incwm isel, er enghraifft, achosi lefelau maethiad gwael a diffyg adnoddau i osgoi problemau iechyd eraill. Gall afiechyd hefyd ymwneud â mynediad gwael at wasanaethau gofal iechyd.

Y broblem yw nad yw dosbarthiad y ffactorau dylanwadol negyddol hyn yn gyfartal. Mae pobl mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwy agored i ddylanwadau negyddol, ac mae ganddynt lai o allu i fynd i'r afael â hwy. Dangosodd *Amddifadedd ac iechyd* (2004)[4] sut yr oedd y wardiau tlotaf oedd â'r lefelau amddifadedd uchaf yn dioddef lefelau iechyd is yn gysylltiedig â'r mwyafrif llethol o ddeilliannau iechyd o'u cymharu â wardiau mwy goludog. Mae'r dangosyddion isod yn ddetholiad bychan o'r enghreifftiau y mae'r cysylltiad hwn fwyaf amlwg ynddynt.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

21A – cyfran y babanod a enir â phwysau geni isel, dros amser.

21B – marwolaethau babanod yn ôl dosbarth cymdeithasol, dros amser.

22A – nifer y dannedd drwg, coll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 oed, fesul awdurdod lleol.

22B – genedigaethau i ferched a feichiogodd dan 16, fesul awdurdod lleol.

### Uchafbwyntiau

Y bwlch parhaus mewn deilliannau iechyd ymhlith plant, pa un a yw'r duedd gyffredinol yn un tuag i fyny (babanod â phwysau geni isel) neu yn un tuag i lawr (marwolaethau babanod).

Y gwahaniaethau mawr mewn iechyd a lles ymhlith plant, megis genedigaethau dan oed neu iechyd y geg, rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

## Dangosyddion yn ymwneud â geni

Mae'n rhaid wrth eglurhad gofalus o'r dewis o ddangosyddion penodol yn ymwneud â geni mewn adroddiad ar dlodi ac eithrio cymdeithasol. Er nad am y dangosyddion hyn yn unig y mae hyn yn wir, un nodwedd sy'n achosi cymhlethdod yw bod dangosyddion yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng geni a difreintedd yn cyflwyno difreintedd ar y cyd â difreintedd yn y dyfodol. Ond yr hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, fodd bynnag, yw'r ffordd y mae a wnelo rhai ohonynt o leiaf â difreintedd yn y dyfodol ar gyfer dau o bobl, sef y plentyn a'i fam.

## Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau

Mae genedigaethau i ferched a feichiogodd cyn eu bod yn 16 yn arddangos cymhlethdod llwyr y materion. Yn gyntaf, mae'n cyfeirio at y difreintedd i'r plentyn o fod â mam yn ei harddegau. Mae plentyn o'r fath yn fwy tebygol o fod â phwysau geni isel, sydd yn ei dro'n golygu ei fod yn fwy tebygol o farw yn ystod wythnosau cyntaf ei fywyd, neu ddatblygu rhai afiechydon cronig penodol, megis clefyd y galon neu diabetes, pan fydd yn oedolyn.[5] Mae'r plentyn hefyd yn fwy tebygol o wneud yn wael yn yr ysgol, o fod â phroblemau addysgol ac emosiynol, ac o ddioddef afiechyd, neu gael damwain neu anaf. Os yw'n ferch, mae hi ei hun yn fwy tebygol o fod yn fam yn ei harddegau.[6]

Yn ail, mae'n arwydd o ddifreintedd presennol y fam – a'r difreintedd y genir y plentyn iddo o ganlyniad. Mae'r ffactorau risg mawr yng nghyswllt beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau'n cynnwys tlodi, bod mewn gofal, a chyrhaeddiad addysgol isel.[7] Mae'r cysylltiad rhwng beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a chyrhaeddiad addysgol isel ym mhoblogaeth ehangach y bobl yn eu harddegau/oedolion ifanc hefyd yn eglur – gan fod cyfraddau uchel mewn ardaloedd â chyfrannau uchel o bobl 16 i 24 mlwydd oed heb gymwysterau a chyfranogiad isel o addysg uwch.[8] Mae cyrhaeddiad addysgol isel yn ei dro'n ffactor risg uchel sy'n cyfrannu at ragolygon cyflogaeth gwael, boed yn ddiweithdra neu swydd â thâl isel.

Yn drydydd, mae a wnelo â rhagolygon y fam yn y dyfodol. Felly gall beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau fod yn fynegiant o ddyheadau isel a diffyg cyfleoedd – efallai fod cael baban yn cael ei ystyried yn ddewis da dan yr amgylchiadau.[9]


## Pwysau geni isel

Mae'r materion yn gysylltiedig â phwysau geni isel ychydig yn wahanol. Mae'r prif bryder yma'n ymwneud â'r plentyn. Yn arbennig, mae risgiau iechyd uwch i faban â phwysau geni isel: mae'n llawer mwy tebygol o farw yn ystod wythnosau cyntaf ei fywyd, neu ddatblygu rhai afiechydon cronig, megis clefyd y galon neu ddiabetes, pan fydd yn oedolyn. Mae pwysau geni isel iawn (llai nag 1.5 cilogram) yn gysylltiedig ag anableddau hirdymor megis parlys yr ymennydd. Mae pwysau geni isel hefyd yn cael ei gysylltu â dangosyddion ehangach yn ymwneud â difreintedd gan gynnwys iechyd gwael y fam a maethiad gwael.[10] O ganlyniad, mae baban â phwysau geni isel yn debygol o fod yn ddifreintiedig mewn ffyrdd sy'n ymestyn y tu hwn i'w iechyd.

# Difreintedd adeg geni


Dangosydd 21

## Mae cyfran y babanod â phwysau geni isel ychydig yn uwch nag oedd ganol y 1990au.




**Ffynhonnell:** Crynhoad o Ystadegau Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003 ac Ystadegau Geni, ONS, 2003

## Mae'r bwlch yn y gyfradd marwolaethau babanod ymhlith y rhai o gefndiroedd gwaith llaw a gwaith dwylo glân wedi cynyddu ers canol y 1990au.




**Ffynhonnell:** Ystadegau marwolaeth plant, babanod a marwoldeb ameni, DH3, ONS

Dengys y graff cyntaf gyfran y babanod a enir bob blwyddyn ac a ddiffinnir fel rhai a chanddynt bwysau geni isel, h.y. llai na 2.5 cilogram (5$^{1}/_{2}$ pwys). Mae'r data'n ymwneud â babanod a enir yn fyw yn unig (h.y. nid yw'n cynnwys babanod a enir yn farw).

Dengys yr ail graff nifer y marwolaethau babanod bob blwyddyn am bob mil o fabanod a enir yn fyw, a chaiff y data'i ddangos ar wahân yn ôl dosbarth cymdeithasol y tad. Mae marwolaethau babanod yn farwolaethau sy'n digwydd pan fo'r baban yn llai na blwydd.

Mae'r data'n seiliedig ar sampl o 10 y cant o'r babanod a anwyd yn fyw gan ddefnyddio'r flwyddyn y digwyddodd ynddi. Nid yw achosion lle nad oedd dosbarth cymdeithasol y tad yn hysbys wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Mae'r data'n ymdrin â'r blynyddoedd hyd at 2001 yn unig am fod y diffiniadau o ddosbarth cymdeithasol wedi'u newid yn 2002 ac nid yw'r data fesul dosbarth cymdeithasol o 2002 ymlaen yn cael ei ystyried yn ddibynadwy ar gyfer Cymru.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw ystadegau DH3 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***cyfyngedig***. Yn ddelfrydol byddai'r graff cyntaf yn cyflwyno data fesul dosbarth cymdeithasol ond nid yw data o'r fath yn cael ei ystyried yn ddibynadwy ar gyfer Cymru. Lleihawyd gwerth yr ail graff am nad yw ond yn ymdrin â'r blynyddoedd cyn 2001.

Dangosydd 21

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â babanod â phwysau geni isel

- Roedd gan 7.25 y cant o'r babanod a anwyd yn 2003 yng Nghymru bwysau geni isel (llai na 2.5 cilogram), sef ychydig yn uwch na'r ffigwr ddegawd cyn hynny. Gellir egluro'r cynnydd hwn mewn babanod â phwysau geni isel trwy gyfeirio at well technolegau meddygol, sy'n arwain at esgor yn llwyddiannus ar fwy o fabanod â phwysau geni isel, a chynnydd mewn triniaethau ffrwythlondeb sy'n fwy tebygol o arwain at faban â phwysau geni isel.[11]
- Ers canol y 1990au, mae cyfran y babanod â phwysau geni isel a enir i rieni o gefndir cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwaith llaw yng Nghymru a Lloegr wedi bod tua 1.5 y cant yn uwch na chyfran y babanod a enir i rieni nad ydynt o gefndir gwaith llaw. Er bod yr amrywiaeth blynyddol yn y data hwn yn gwneud y darlun yn llai eglur, nid yw'n ymddangos bod y cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o fabanod â phwysau geni isel yn gyfyngedig i un o'r ddau grŵp hwn yn unig.[12]
- Ar y cyfan, mae patrwm daearyddol amlwg yn yr achosion o fabanod â phwysau geni isel. Cofnodwyd y cyfraddau uchaf ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf (a'r rheiny'n amrywio o 8.5 y cant i 9.5 y cant), ynghyd â Chaerdydd a Chasnewydd. Cofnodwyd y cyfraddau isaf yn ardaloedd gwledig canolbarth a gogledd Cymru a gogledd ddwyrain Cymru.
- Mae cyfran y babanod â phwysau geni isel ar ei huchaf ymhlith y babanod hynny a gofrestrwyd gan eu mamau'n unig (9.5 y cant) ac ar ei hisaf ymhlith y rheiny a gofrestrwyd ymhlith rhieni priod (6.5 y cant).


## Yn ymwneud â marwolaethau babanod

- Ymddengys fod bwlch wedi dechrau agor yng nghyfradd y marwolaethau babanod ers canol y 1990au rhwng plant a enir i rieni o gefndir cymdeithasol nad yw'n gysylltiedig â gwaith llaw a rhai a enir i rieni o gefndir cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwaith llaw.
- Mae'r cysylltiad rhwng marwolaethau babanod a difreintedd hefyd i'w weld ar lefel yr ardaloedd. Dros y blynyddoedd 1998-2001, roedd y gyfradd marwolaethau babanod yn yr ardaloedd sy'n perthyn i'r bumed fwyaf amddifadus yng Nghymru 60 y cant yn uwch nag yn yr ardaloedd sy'n perthyn i'r bumed fwyaf goludog.[13]

# Afiechyd ymhlith plant


**Dangosydd 22**

## Mae gan blant pum mlwydd oed yn y rhan fwyaf o ardal y Cymoedd, ar gyfartaledd, fwy o ddannedd drwg, coll neu wedi'u llenwi na phlant mewn rhannau eraill o Gymru.




**Ffynhonnell:** Y Gymdeithas Brydeinig er Astudio Deintyddiaeth Gymunedol; mae'r data'n ymwneud â 2003/04

## Mae'r gyfradd genedigaethau ymhlith merched sy'n beichiogi dan 16 mewn rhannau o'r Cymoedd deirgwaith yn uwch nag mewn rhai ardaloedd eraill yng Nghymru.




**Ffynhonnell:** Ystadegau'r ONS; mae'r data'n dangos cyfartaledd y blynyddoedd 1998 i 2003

Dengys y graff cyntaf sut y mae nifer cyfartalog y dannedd coll, drwg neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 mlwydd oed yn amrywio fesul awdurdod lleol.

Ffynhonnell y data yw Uned Ddata Iechyd y Geg Cymru o arolwg o blant 5 mlwydd oed a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Brydeinig er Astudio Deintyddiaeth Gymunedol. Mae'r data'n ymwneud â 2004.

Dengys yr ail graff sut y mae'r gyfradd genedigaethau ymhlith merched sy'n beichiogi dan 16 mlwydd oed yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Er mwyn gwella dibynadwyedd y ffigyrau, mae'r ffigyrau'n dangos y cyfartaledd am y chwe mlynedd i 2003.

Ffynhonnell y data yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r data deintyddol hwn yn seiliedig ar arolwg mawr iawn ac mae casglu ystadegau'n ymwneud â beichiogi a genedigaethau'n broses sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag iechyd deintyddol gwael

- Mae nifer y dannedd drwg, coll neu wedi'u llenwi yng nghegau plant 5 mlwydd oed yn amrywio ledled Cymru, o gyfartaledd o 3.5 dant y plentyn ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent i gyfartaledd o 1.5 dant y plentyn yn Sir y Fflint.
- Mae gan blant pum mlwydd oed mewn pedair ardal awdurdod lleol, ar gyfartaledd, dri neu fwy o ddannedd drwg, coll neu wedi'u llenwi – pob un ohonynt yn y Cymoedd. Mae gan blant pum mlwydd oed mewn pum ardal awdurdod lleol, ar gyfartaledd, lai na dau ddant drwg, coll neu wedi'u llenwi – pob un ohonynt yn y dwyrain neu'r de.
- Mae nifer cyfartalog y dannedd drwg, coll neu wedi'u llenwi yng nghegau plant 5 mlwydd oed ledled Cymru gyfan ychydig yn llai na 2.5 y cant. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol â'r Alban a holl ranbarthau Lloegr. Yn y gorau o'r rhanbarthau hyn – y De Ddwyrain a Gorllewin y Canolbarth – mae gan blant 5 mlwydd oed ar gyfartaledd un dant drwg, coll neu wedi'i lenwi ar gyfartaledd.[14]
- Mae astudiaethau eraill yn cadarnhau bod mynychder lefelau iechyd y geg gwael lawer yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain. Yn 2003, er enghraifft, roedd gan 52 y cant o blant yng Nghymru o leiaf un dant drwg, coll neu wedi'i lenwi o'u cymharu â thua 41 y cant yn Lloegr. Mae mynychder y broblem wedi parhau'n ddigyfnewid am dros 10 mlynedd.[15]

## Yn ymwneud â genedigaethau i ferched a feichiogodd cyn eu bod yn 16

- Mae cyfran y merched 13 i 15 mlwydd oed sy'n beichiogi ac yna'n rhoi genedigaeth yn amrywio o rhwng 8 a 9 merch am bob 1,000 o ferched ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful i 2 ferch am bob 1,000 o ferched yn Sir Fynwy.
- Er bod cyfraddau uwch na'r cyfartaledd mewn pump o'r chwe awdurdod lleol yn y Cymoedd, mae Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn sefyll allan am fod eu cyfraddau o leiaf 50 y cant yn uwch nag unrhyw le arall.
- Mae cyfran y merched 13 i 15 mlwydd oed sy'n beichiogi hefyd ar ei huchaf ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful – rhwng 13 ac 16 merch am bob 1,000 o ferched – o'u cymharu â 6 am bob 1,000 yng Ngheredigion. Mae'r gwahaniaeth lawer yn llai y tro hwn rhwng Blaenau Gwent a'r ardal sydd â'r gyfradd isaf ($2^1/_2$ gwaith) nag ydyw yn achos yr ystadegau'n ymwneud â genedigaethau (4 gwaith).
- Roedd cyfartaledd y gyfradd genedigaethau ymhlith merched a feichiogodd rhwng 13 a 15 mlwydd oed yng Nghymru dros y tair blynedd rhwng 2001 a 2003 ychydig yn llai na 4 am bob 1,000. Gogledd Ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Humberside yw'r unig ardaloedd oedd â chyfraddau (ychydig yn) uwch. Roedd y cyfraddau isaf – llai na 3 am bob 1,000 – i'w cael yn Ne Ddwyrain, De Orllewin a Dwyrain Lloegr.[16]
- Ymhlith plant hŷn yn eu harddegau (15 i 19 mlwydd oed), mae'r DU gyfan yn sefyll allan fel y wlad sydd â'r gyfradd uchaf yng Ngorllewin Ewrop o ran genedigaethau i ferched yn eu harddegau: mae'r gyfradd ddwywaith yn uwch nag yn yr Almaen, deirgwaith yn uwch nag yn Ffrainc a chwe gwaith yn uwch nag yn yr Iseldiroedd.[17]

Dangosydd 22

# Morbidrwydd a marwolaeth cyn pryd

Mae afiechyd ymhlith pobl o oedran gweithio'n ganolog i broblemau cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae themâu blaenorol wedi trafod sut y caiff afiechyd ei ystyried i fod yr un rhwystr mwyaf i gyflogaeth ymhlith dynion (15A) a sut yr ystyrir fod y cyfraddau uchel o ran y rheiny sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd yn celu problem tangyflogaeth. Maent hefyd wedi trafod sut y mae nifer y bobl sy'n segur yn economaidd ond yn dymuno cael gwaith wedi gostwng lawer llai na lefel diweithdra, ac mae'r naill yn uwch o lawer na'r llall erbyn hyn mewn rhannau helaeth o Gymru (12A, 12B). O'u cyferbynnu, mae cyfraddau diweithdra yng Nghymru, a oedd ymhlith yr uchaf ym Mhrydain ddegawd yn ôl ond sydd erbyn hyn yn ddim gwaeth na chyfartaledd y DU (13B), wedi gwella'n sylweddol.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio, yn ôl Cyfrifiad 2001, bod mynychder afiechyd yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw ranbarth arall yn y DU. Dywedodd mwy na 18 y cant o'r bobl o oedran gweithio yng Nghymru eu bod yn dioddef afiechyd hirdymor cyfyngol, ffigwr sydd ffracsiwn yn uwch nag yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a chryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 14 y cant. Ond y crynodiadau daearyddol o afiechyd sy'n gwneud i Gymru'n gyffredinol, a'r Cymoedd yn enwedig, sefyll allan, gan fod Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Castell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn ail, trydydd, pedwerydd, pumed a chweched yn nhabl yr ardaloedd awdurdod lleol gwaethaf (sy'n cynnwys cyfanswm o 376 ledled Cymru a Lloegr) o safbwynt afiechyd a gofnodir gan yr unigolion eu hunain. Easington, yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, yw'r unig ardal a oedd â chyfradd waeth. Roedd Torfaen yn bymthegfed.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

23A – cyfran y bobl sy'n hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol am ddwy flynedd neu fwy, yn ôl rheswm dros hawlio, dros amser.

23B – cyfran yr hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol sy'n dioddef ystod o gyflyrau meddygol.

24 – map: ardaloedd lleol yng Nghymru â chyfraddau uchel o ran afiechyd hirdymor a gofnodir gan yr unigolion eu hunain.

25A – cyfraddau marwolaeth cyn pryd, Cymru o'i chymharu â'r Alban a rhanbarthau Lloegr, 1994 i 2003.

25B – cyfraddau marwolaeth cyn pryd fesul ardal awdurdod lleol.

## Uchafbwyntiau

Mae'r rhan fwyaf o bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau allan-o-waith dros gyfnod o nifer o flynyddoedd yn sâl neu'n anabl.

Mae'r grŵp mwyaf cyffredin o gyflyrau meddygol a amlygir gan y rheiny sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol yn ymwneud ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol yn hytrach na rhai cyhyrysgerbydol.

Mae'r gyfradd marwolaeth cyn pryd wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r cyfraddau mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn y Cymoedd yn dal i fod chwarter yn uwch nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig yng Nghymru.


## Cysylltiadau rhwng cyfraddau afiechyd hirdymor yn ôl oedran a lle

Mae'r graff isod yn amlygu patrwm arall a ddangosir gan yr ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o ran afiechyd hirdymor cyfyngol, sef bod ardal â chyfradd gymharol uchel ymhlith un grŵp oedran yn debygol o fod â chyfradd gymharol uchel ymhlith grwpiau oedran eraill hefyd. Y grwpiau oedran penodol a ddangosir ar y graff yw:

Pobl 50 i 59 mlwydd oed y mae'r gyfran yn eu plith sy'n nodi bod ganddynt afiechyd hirdymor cyfyngol yn amrywio o ychydig dros 20 y cant i 50 y cant bron â bod; a

Phobl 35 i 49 mlwydd oed y mae'r gyfran yn eu plith sy'n nodi bod ganddynt afiechyd hirdymor cyfyngol yn amrywio rhwng 13 y cant a 24 y cant.

### A5: Canran ag afiechyd hirdymor cyfyngol, pobl 50-59 o'u cymharu â phobl 35-49





Mae'r graff hwn yn awgrymu dau beth yn gryf iawn. Yn gyntaf, mae'r ffaith bod lefelau uchel o afiechyd hirdymor cyfyngol i'w cael ym mhob grŵp oedran, gan gynnwys y rheiny a oedd yn blant yn y 1980au, yn dangos nad problem sy'n ymwneud â chyn-löwyr neu gyn-weithwyr yn y diwydiant dur sydd wedi colli eu swyddi ers blynyddoedd yn unig ydyw. Yn ail, gan fod cyfraddau afiechyd mewn lle penodol yn uwch neu'n is ymhlith pob grŵp oedran mae'n rhaid bod rhyw ddimensiwn 'lleol' yn cyfrannu at y broblem.

# Anabledd ac afiechyd hirdymor


Dangosydd 23

## Mae'r mwyafrif llethol o bobl sy'n derbyn budd-daliadau allan-o-waith yn yr hirdymor yn sâl neu'n anabl.




**Ffynhonnell:** Data heb ei gyhoeddi o Ganolfan Wybodaeth y DWP

## Mae gan un rhan o dair o'r holl bobl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol gyflwr meddyliol neu ymddygiadol.




**Ffynhonnell:** Canolfan Wybodaeth y DWP (trwy NOMIS), data mis Chwefror 2005

Dengys y graff cyntaf yr holl bobl o oedran gweithio a oedd yn derbyn 'budd-dal allan-o-waith allweddol' am ddwy flynedd neu fwy.

Mae 'budd-dal allan-o-waith allweddol' yn derm gan y DWP sy'n cynnwys y budd-daliadau canlynol: Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Analluogrwydd a Lwfans Anabledd Difrifol. Sylwer fod hyn ychydig yn wahanol i 'budd-daliadau allweddol', sydd hefyd yn cynnwys Lwfans Byw i'r Anabl.

Ar gyfer pob blwyddyn, caiff y cyfanswm ei ddosbarthu yn ôl y math o unigolyn sy'n hawlio: sâl ac anabl, rhieni sengl, di-waith ac eraill (er enghraifft gofalwyr a cheiswyr lloches).

Fel y gwelir o'r graff cyntaf, mae mwyafrif y bobl sy'n hawlio 'budd-daliadau allweddol' yn yr hirdymor naill ai'n sâl neu'n anabl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ail graff yn dangos, am y flwyddyn ddiweddaraf, dosbarthiad fesul rheswm y rheiny sydd naill ai wedi bod yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd am ddwy flynedd neu fwy neu sy'n derbyn Lwfans Anabledd Difrifol.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Canolfan Wybodaeth y DWP. Mae'r data'n ymwneud â mis Chwefror bob blwyddyn. Mae'r data wedi'i ddadansoddi i osgoi cyfrif y rheiny sy'n derbyn mwy nag un budd-dal fwy nag unwaith trwy baru data o samplau unigol.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Credir fod y data'n ddibynadwy iawn. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y DWP er mwyn gweinyddu budd-daliadau.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â dibyniaeth hirdymor ar fudd-daliadau[18]

- Salwch neu anabledd erbyn hyn yw'r un rheswm pwysicaf o bell ffordd y mae pobl o oedran gweithio'n hawlio budd-daliadau allan-o-waith yng Nghymru dros gyfnod hir. Yn 2005, roedd 83 y cant o'r bobl o oedran gweithio – 160,000 o bobl – a oedd yn derbyn budd-dal allan-o-waith am ddwy flynedd neu fwy'n perthyn i'r dosbarth sâl neu anabl.
- Mae'r gyfran hon wedi codi o 74 y cant ym 1997. Y prif reswm am hyn yw bod nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau allan-o-waith yn yr hirdymor am resymau eraill wedi gostwng. Yn arbennig, bu gostyngiad o dri chwarter yn y nifer sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.
- Nid yw anabledd neu salwch hirdymor, a fesurir yn ôl nifer y bobl sy'n hawlio naill ai Budd-dal Analluogrwydd (BA) neu Lwfans Anabledd Difrifol (LAD) am ddwy flynedd neu fwy yn gyfyngedig i bobl sy'n agos at oedran ymddeol. Dim ond 40 y cant o'r rheiny sy'n hawlio un o'r budd-daliadau hyn am ddwy flynedd neu fwy sydd dros 55 mlwydd oed. Mae chwarter arall rhwng 45 a 54 mlwydd oed. Mae'r gweddill, sef rhyw un rhan o dair, dan 45 mlwydd oed.

## Yn ymwneud â chyflyrau meddygol y rheiny sy'n hawlio BA neu LAD

- Anhwylder meddyliol neu ymddygiadol yw'r cyflwr meddygol sydd fwyaf tebygol o gael ei amlygu gan bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal anabledd allan-o-waith, sef BA neu LAD. Mae hyn yn rhoi cyfrif am 36 y cant o'r holl hawlwyr.
- Mae gan 22 y cant o'r rheiny sy'n hawlio BA neu LAD anhwylderau cyhyrysgerbydol. Er bod ychydig yn fwy na hanner y rhain yn ddynion, mae hyn yn dal yn golygu mai 13 y cant yn unig o'r holl bobl sy'n hawlio BA neu LAD yn yr hirdymor sy'n ddynion sy'n dioddef anhwylderau cyhyrysgerbydol. Mae unrhyw ddelwedd sy'n awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl yn y grŵp hwn yn 'ddynion hŷn sy'n cwyno gyda'u cefnau' felly'n amlwg yn gamarweiniol.
- Mae anhwylderau sy'n ymwneud naill ai â'r system nerfol neu'r system gylchredeg neu sydd wedi deillio o anaf/gwenwyno yn rhoi cyfrif am un rhan o bump arall o unigolion, gan adael chwarter sy'n deillio o broblemau 'eraill'.
- Ar y cyfan, mae 57 y cant o'r bobl sy'n hawlio BA neu LAD yn yr hirdymor yn ddynion. Mae cyfran debyg i'w chael yn y rhan fwyaf o'r categorïau unigol, er bod y gyfran sy'n ddynion yn codi i tua 70 y cant ar gyfer afiechydon sy'n ymwneud â'r system gylchredeg ac anaf/gwenwyno.

## Yn ymwneud â'r risg o salwch meddwl


- Yn ôl yr asesiad ohonynt, mae hanner y bobl 25 i 64 mlwydd oed sy'n sâl neu'n anabl yn yr hirdymor yn wynebu risg uchel o ddatblygu salwch meddwl.[19]
- O'u cyferbynnu, un ym mhob chwech yn unig o'r rheiny mewn gwaith sy'n wynebu risg uchel yn ôl yr asesiad ohonynt. O ran y rhai sy'n ddi-waith, mae rhyw draean yn wynebu risg uchel yn ôl yr asesiad.[20]
- Mae cyfran y menywod sy'n wynebu risg uchel yn ôl yr asesiad ychydig yn uwch na chyfran y dynion. Mae hyn yn berthnasol i bob un o'r tri grŵp; sef y rheiny sydd mewn gwaith, y rhai sy'n ddi-waith a'r rheiny sy'n sâl neu'n anabl yn yr hirdymor. Serch hynny, mae'r gwahaniaethau rhwng dynion a menywod yn fach o'u cymharu â'r gwahaniaethau rhwng gwaith, diweithdra a salwch/anabledd.[21]

# Map: lleoliad afiechyd hirdymor

**Dangosydd 24**

## Lleoliad afiechyd hirdymor

Er bod y crynodiad mwyaf yn y Cymoedd, mae cymdogaethau â chyfran uchel o bobl o oedran gweithio sy'n dweud bod ganddynt afiechyd hirdymor cyfyngol i'w cael ledled Cymru.



# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag ardaloedd lleol bychain â chyfran uchel o afiechyd hirdymor ymhlith pobl o oedran gweithio

- Yr ardaloedd bychain yn y chweched uchaf yw'r rheiny yr oedd cyfran y bobl o oedran gweithio ynddynt a ddywedodd eu bod yn dioddef afiechyd hirdymor cyfyngol yng Nghyfrifiad 2001 yn fwy na 25 y cant. O ran yr ardaloedd lleol bychain yn yr ail chweched mae rhwng 20 y cant a 25 y cant o'r bobl o oedran gweithio'n eu disgrifio'u hunain felly, ac yn y drydedd chweched mae rhwng 16 ac 20 y cant yn eu disgrifio'u hunain felly.
- Mae ychydig dros hanner yr ardaloedd lleol bychain â'r lefelau uchaf o ran afiechyd hirdymor cyfyngol (uwch na 25 y cant) yn y Cymoedd. Ar y cyfan, mae'r ardaloedd bychain hyn wedi'u crynhoi yng ngogledd yr awdurdodau lleol yn y Cymoedd.
- Mae gan ychydig dros hanner yr ardaloedd bychain o fewn awdurdod lleol Merthyr Tudful gyfraddau uwch na 25 y cant o ran afiechyd hirdymor cyfyngol. Heblaw am Dorfaen, mae gan draean neu fwy o'r ardaloedd bychain yn yr awdurdodau lleol eraill yn y Cymoedd gyfraddau uwch na 25 y cant.
- Mae ardaloedd bychain â chyfraddau uwch na 25 y cant o ran afiechyd hirdymor cyfyngol i'w cael ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Heblaw am y Cymoedd, yr awdurdodau lleol y mae cyfran yr ardaloedd bychain hyn yn anghymesur o uchel ynddynt yw Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd rhyngddynt yn cynnwys pumed bellach o'r ardaloedd hyn.
- Yn ogystal, mae crynodiadau o ardaloedd bychain â chyfraddau uwch na 25 y cant o ran afiechyd hirdymor cyfyngol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Y Rhyl, Wrecsam, Y Barri, Abergele a Bae Colwyn.
- Nid yw afiechyd hirdymor cyfyngol yn gyfyngedig i drefi ychwaith. Mae Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Ynys Môn yn cynnwys nifer o ardaloedd gwledig sydd â lefelau afiechyd uwch na'r cyfartaledd. Mae hynny'n wir hefyd am arfordir gogledd Cymru o Gonwy i'r Fflint.

## Yn ymwneud ag afiechyd hirdymor cyfyngol ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol

- Ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol, mae cyfran y bobl o oedran gweithio sy'n dweud eu bod yn dioddef o afiechyd hirdymor cyfyngol yn amrywio o 27 y cant ym Merthyr Tudful i 14 y cant yn Sir Fynwy.
- Mae chwech o'r saith awdurdod lleol sydd â chyfraddau uwch nag 20 y cant yn y Cymoedd; Sir Gaerfyrddin yw'r seithfed.
- Mae'r gyfradd 18 y cant o ran afiechyd hirdymor cyfyngol ymhlith pobl o oedran gweithio yn uwch yng Nghymru nag yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban ac unrhyw un o ranbarthau Lloegr.
- Mae afiechyd hirdymor cyfyngol ac anabledd yn codi gydag oedran. Mae cyfran y bobl 65 i 72 mlwydd oed sy'n dweud eu bod yn dioddef afiechyd hirdymor cyfyngol yn amrywio o 65 y cant ym Merthyr Tudful i 40 y cant yng Ngheredigion.

Ar gyfer pob un o'r 10,000 o 'ardaloedd cynnyrch' yng Nghymru, mae'r map yn dangos cyfran yr oedolion 16 i 59 mlwydd oed sy'n dweud bod ganddynt afiechyd hirdymor cyfyngol.

Mae 'ardaloedd cynnyrch' yn ardaloedd bychain a ddiffiniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol at ddibenion dadansoddi data ar lefel ardaloedd bychain. Maent wedi'u diffinio fel bod eu poblogaethau fwy neu lai yr un faint.

Dim ond ardaloedd cynnyrch â chyfran uwch na'r cyfartaledd sydd wedi'u graddliwio, gyda'r lliw tywyllaf yn nodi'r chweched o ardaloedd cynnyrch sydd â'r cyfrannau uchaf, y lliw nesaf yn nodi'r ail chweched, a'r lliw goleuaf yn nodi'r drydedd chweched.


Ffynhonnell y data yw Cyfrifiad 2001.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***uchel***. Y cwestiwn a ofynnwyd yn y Cyfrifiad yw'r ffordd sy'n cael ei derbyn fel arfer ar gyfer mesur mynychder afiechyd hirdymor cyfyngol.

# Marwolaeth cyn pryd


Dangosydd 25

## Ers canol y 1990au, mae cyfradd y marwolaethau cyn pryd wedi gostwng yng Nghymru fel ag y mae mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.




**Ffynhonnell**: Adran Ystadegau Marwoldeb, ONS

## Mae'r gyfradd marwolaethau cyn pryd 50% yn uwch ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful nag yng Ngheredigion.




**Ffynhonnell**: Adran Ystadegau Marwoldeb, ONS; mae'r data'n seiliedig ar gyfartaledd y tair blynedd i 2003

Gellid dadlau mai marwolaeth cyn pryd yw'r dangosydd symlaf, mwyaf hygyrch, ar gyfer afiechyd, gan ei fod yn fesur sy'n crynhoi pob un o'r prif broblemau iechyd sy'n arwain at farwolaeth.

Dengys y graff cyntaf nifer y marwolaethau ymhlith y rheiny dan 65 mlwydd oed am bob 100,000 o bobl dan 65, a chaiff yr ystadegau'u dangos ar wahân ar gyfer dynion a menywod. At ddibenion cymharu, dangosir y data cyfatebol ar gyfer Prydain gyfan hefyd. Sylwer y tybiwyd fod yr amcangyfrifon yng Nghyfrifiad 2001 yn berthnasol i'r holl flynyddoedd a ddangosir.

Dengys yr ail graff, am y flwyddyn ddiweddaraf, sut y mae'r gyfradd marwolaeth cyn pryd yn amrywio fesul awdurdod lleol. Er mwyn gwella dibynadwyedd ystadegol y ffigyrau, maent yn dangos y cyfartaledd dros y tair blynedd ddiweddaraf.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Adran Ystadegau Marwoldeb yr ONS. Mae'r data wedi'i safoni'n unol â chyfanswm poblogaeth Ewrop yn ôl oedran a rhyw.

Digonolrwydd y dangosydd hwn ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r data'n ymwneud â chyfraddau marwolaethau wedi'i gael o ddata gweinyddol ac yn cynnwys cyfrifau o'r holl farwolaethau ond nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol â materion tlodi ac eithrio cymdeithasol.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â Chymru o'i chymharu â gweddill Prydain Fawr

- Mae'r gyfradd marwolaeth cyn pryd wedi gostwng yn gyson ers canol y 1990au, ar gyflymder tebyg i'r gyfradd ar gyfer Prydain gyfan.
- Er bod y gyfradd marwolaeth cyn pryd ymhlith dynion (260 am bob 100,000) lawer yn uwch nag ymhlith menywod (165 am bob 100,000), bu mwy o welliant ymhlith dynion ers canol y 1990au (gostyngiad o 16 y cant) nag ymhlith menywod (gostyngiad o 10 y cant).
- Yn 2003, roedd y gyfradd gyfun ymhlith dynion a menywod, sef 210 marwolaeth am bob 100,000 o bobl dan 65 mlwydd oed yn debyg i'r cyfartaledd Prydeinig, yn is nag yn yr Alban a Gogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain Lloegr ond yn uwch na de Lloegr.

## Yn ymwneud â chyfraddau marwolaeth cyn pryd ledled Cymru

- Mae'r gyfradd marwolaeth cyn pryd mewn dwy ardal awdurdod lleol – Blaenau Gwent a Merthyr Tudful – 10 y cant yn uwch nag mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall a 50 y cant yn uwch nag yng Ngheredigion, yr ardal sydd â'r gyfradd isaf.
- Ar y cyfan, mae'r cyfraddau uchaf o ran marwolaeth cyn pryd i'w cael yn y Cymoedd, Conwy, Casnewydd a Sir Ddinbych. Mae'r cyfraddau isaf i'w cael fel arfer yn rhannau mwy gwledig Cymru.
- Mae'r gyfradd marwolaeth cyn pryd ymhlith dynion yn uwch na'r gyfradd ymhlith merched ym mhob ardal awdurdod lleol. Yn y lleoedd y mae'r cyfraddau'n uchel, maent yn tueddu i fod yn uchel ar gyfer dynion a menywod, ac i'r gwrthwyneb.
- O gymharu'r cyfnod 1991 i 1993 â'r cyfnod 2001 i 2003, mae'r cyfraddau marwolaeth cyn pryd wedi gostwng ym mhob ardal awdurdod lleol heblaw am Gonwy.
- Ar y cyfan, ymddengys mai'r cyfraddau ymhlith dynion sydd wedi gostwng gyflymaf yn yr ardaloedd hynny lle roedd y gyfradd yn is i ddechrau. O ganlyniad, mae'r amrywiaethau rhwng awdurdodau ymhlith dynion yn fwy erbyn hyn nag oeddent.
- Dangosodd ymchwil yn y 1990au fod yr anghydraddoldebau mwyaf o ran marwolaeth cyn pryd i'w cael mewn dinasoedd, a bod yr anghydraddoldebau lleiaf i'w cael mewn ardaloedd sydd fwy ym mherfeddion cefn gwlad Cymru, a bod yr anghydraddoldebau yng ngweddill Cymru'n gymedrol a thebyg. O ystyried penderfynyddion economaidd-gymdeithasol afiechyd, mae hyn yn golygu bod yr effaith ar iechyd i'r rheiny mewn ardaloedd sydd ar ben amddifadus y sbectrwm economaidd-gymdeithasol yn llai amlwg mewn ardaloedd sydd fwy ym mherfeddion cefn gwlad Cymru nag ydyw mewn ardaloedd trefol.[22]

# Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol

Mae sawl agwedd i broblem mynediad gwael at wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae lefelau isel o ran gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn un. Mae symudedd cyfyngedig yn un arall. Mae cost, mewn amser neu arian, yn drydedd agwedd, gan nad yw'r rheiny sy'n cael cyflogau is mewn sefyllfa mor ffafriol o ran gallu fforddio cymryd amser o'r gwaith er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd. Mae'r rhwystrau hyn yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau difreintiedig, ac mae mynediad gwael felly'n un o achosion ac yn un o ganlyniadau mathau eraill o amddifadedd ac eithrio. Gall mynediad gwael at y gwasanaethau hyn effeithio nid yn unig ar y sawl ac arno'u hangen, ond hefyd ar y teulu neu ffrindiau sy'n rhoi cymorth.

## Y dewis o ddangosyddion

Mae'r dangosyddion yn yr adran hon yn mesur dwy agwedd ar ddarparu gwasanaethau, gydag un yn ymwneud yn benodol â phensiynwyr a'r llall yn bwysig o safbwynt mwy cyffredinol. Y rhain yw:

26A – cyfran y bobl dros 65 mlwydd oed sy'n cael help gan eu hawdurdod lleol i fyw gartref, dros amser.

26B – nifer y bobl am bob meddyg teulu a chyfran y meddygon teulu sydd mewn meddygfa 'un-meddyg' (hynny yw, maent yn gweithio ar eu pennau'u hunain yn hytrach nag mewn partneriaeth) fesul awdurdod lleol.

Mae pobl sy'n cael help i fyw gartref yn fesur dirprwyol o'r help i leihau eithrio cymdeithasol ymhlith pobl hŷn. Mae Credyd Pensiwn a'r system budd-daliadau'n rhoi help gyda'r agwedd ar dlodi sy'n ymwneud ag incwm ond nid ydynt yn cyfrannu o gwbl at leihau'r problemau cyffredin sy'n ymwneud ag unigedd a diffyg cymorth.

Mae nifer y bobl am bob meddyg teulu'n fesur o faint y gofal sylfaenol tra bo cyfran y meddygon teulu sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain yn fesur dirprwyol o ansawdd y gofal hwnnw. Er bod eithriadau i'r rheol, wrth gwrs, mae meddygfeydd mwy fel arfer yn cael eu cysylltu â darpariaeth o ansawdd gwell.[23] Maent yn fwy tebygol o fod yn gymwys ar gyfer 'taliadau am wasanaeth o ansawdd.[24] Maent hefyd yn gallu cynnig triniaeth fwy ymestynnol mewn clinigau, gwasanaethau mwy amrywiol, yn ogystal â dewis o feddyg.[25]

### Uchafbwyntiau

Mae'r wladwriaeth, trwy'r gwasanaethau cymdeithasol, yn gwneud llawer llai nag yr arferai'i wneud i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi cymorth sylfaenol i bobl hŷn a helpu i liniaru effeithiau unigedd.

Mae maint ac ansawdd y ddarpariaeth gofal sylfaenol yn amrywio ledled Cymru, ac mae problemau penodol yng ngogledd ddwyrain Cymru ac yn rhai o ardaloedd y Cymoedd.

## Pryderon ehangach ynghylch mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol

Mynegwyd pryderon ynghylch mynediad at ofal iechyd ym mhob un o'r tri grŵp trafod. Roedd cyrraedd at wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn wasanaethau sydd wedi'u canoli'n fwyfwy yn un, gyda char yn cael ei ystyried yn hanfodol bron iawn o ystyried cyflwr cludiant cyhoeddus.

Roedd y pryderon eraill yn ymwneud ag ansawdd a maint y ddarpariaeth. Roedd cyfranogwyr yn pryderu bod eu meddygfa leol yn cael ei rhedeg gan ddau feddyg teulu oedrannus; roedd trydydd meddyg teulu wedi gadael ac roeddent hwy'n disgwyl iddi gymryd amser hir i lanw'r swydd wag; ac nid oedd meddyg benywaidd ar gael.

Nid yw anghydraddoldebau o ran darpariaeth wedi'u cyfyngu i'r agweddau ar ofal iechyd a gyflwynir yma'n unig. Er enghraifft, cafodd astudiaeth o fynychder clefyd y cymalau mewn awdurdodau lleol yng Nghymru fod cyfraddau gweithgaredd ysbytai mewn ardaloedd tlawd yn is na'r disgwyl o ystyried y nifer uwch o achosion o glefyd y cymalau.[26] Mae astudiaethau eraill wedi amlygu patrymau anghyfartal yn narpariaeth gofal deintyddol, gan ddangos unwaith eto bod llai o ddarpariaeth mewn ardaloedd amddifadus, a mwy mewn ardaloedd goludog.[27]


Y pryder cyffredinol yw bod y 'rheol gofal croes', ymadrodd a fathwyd gyntaf gan feddyg teulu yng Nghymru ym 1971, yn dal yn berthnasol, sef bod argaeledd gofal meddygol da'n amrywio'n groes i anghenion y boblogaeth a wasanaethir.[28]

## Tueddiadau ym mhoblogaeth y pensiynwyr

Mae newidiadau ym mhoblogaeth y pensiynwyr yn gymorth i ddeall y pwysau ar wasanaethau a ddefnyddir i raddau helaeth gan y grŵp oedran hwn. Dengys y graff isod sut y bu i faint a dosbarthiad daearyddol y bobl 65 i 84 mlwydd oed, a'r bobl sy'n 85 ac yn hŷn, newid rhwng 1993 a 2003 a sut y rhagwelir y byddant yn newid rhwng 2003 a 2013. Mae'r grŵp 85+ wedi'u cadw ar wahân am mai dyma'r grŵp sy'n rhoi'r galwadau mwyaf ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Ar lefel Cymru gyfan, y pwynt allweddol yw bod y galw am wasanaethau'n debygol o gynyddu'n gyflymach yn y 10 mlynedd nesaf nag y gwnaeth yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Bydd y grŵp 85+ yn enwedig yn cynyddu 35 y cant yn y 10 mlynedd nesaf, o'i gymharu ag 20 y cant yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Bydd y grŵp pensiynwyr ifancach hefyd yn cynyddu 15 y cant o'i gymharu â'r degawd diwethaf pan nad yw wedi tyfu nemor ddim.

**A6: Canran y newid o 1993 i 2003 oni nodir yn wahanol**





Nid yw'r cynnydd ym mhoblogaeth y pensiynwyr wedi bod yn unffurf ledled Cymru. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r twf isaf yn y ddau grŵp wedi bod yng Nghaerdydd a'r Gogledd Orllewin (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych). O'i gyferbynnu, mae'r grŵp 85+ wedi tyfu 25 y cant yn y Dwyrain (Powys a Sir Fynwy) a'r Gorllewin (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) a chafwyd twf is – ond yr uchaf yng Nghymru serch hynny – ymhlith y grŵp pensiynwyr ifancach.

# Mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol


Dangosydd 26

## Fe hanerodd nifer y bobl 65 mlwydd oed ac yn hŷn sy'n derbyn gofal yn y cartref rhwng 1994 a 2001 ond mae wedi parhau'n gyson ers hynny.




**Ffynhonnell:** Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Mae cyfran uchel o feddygfeydd yn y Cymoedd a Sir y Fflint yn rhai ag un meddyg teulu'n unig.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiad y Gwasanaethau Iechyd Cyffredinol, 2003

Dengys y graff cyntaf nifer y bobl sy'n 65 mlwydd oed ac yn hŷn a oedd yn derbyn gofal yn y cartref gan awdurdodau lleol ar ddiwedd pob blwyddyn a nodir. Y prif wasanaeth gofal yn y cartref yw cymorth cartref ond mae hefyd yn cynnwys pryd-ar-glud, gofal dydd a.y.b. Ffynhonnell y data yw casgliadau data SSDA303 (1994 a 1995), casgliadau data AS2 (1997 i 2001) a chasgliadau data PM2 (2002 ymlaen). Mae'r data ar gyfer 1994 a 1995 wedi'i amcangyfrif o gyfrif uniongyrchol o nifer y bobl a oedd yn derbyn cymorth cartref wedi'i luosi â'r gymhareb rhwng cleientiaid *gofal cartref* a chlientiaid *cymorth cartref* ym 1997. Nid yw'r ystadegau ar gyfer 1996 ar gael felly maent wedi'u hamcangyfrif fel cyfartaledd ffigyrau 1995 a 1997.

Mae'r ail graff yn cyflwyno data'n ymwneud â niferoedd a mathau'r meddygon teulu fesul awdurdod lleol. Dengys y bariau gyfran yr Ymarferwyr Anghyfyngedig sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae Ymarferydd Anghyfyngedig yn ymarferydd sy'n gweithio ar gytundeb i fwrdd iechyd lleol. Mae mwyafrif llethol y meddygon teulu'n Ymarferwyr Anghyfyngedig. Ffynhonnell y data yw Cyfrifiad y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2003, a gyflwynwyd yng nghyhoeddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ystadegau'r gweithlu ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru,* 1993-2003.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r data sylfaenol yn cael ei ystyried yn ddibynadwy. Serch hynny, dylanwadir i raddau helaeth ar y detholiad o'r data a gyflwynir gan yr hyn sydd ar gael yn hytrach na'r hyn y byddai'n ddelfrydol i'w ddadansoddi.

Dangosydd 26

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â helpu i fyw gartref

- Bu i nifer y cleientiaid a oedd yn 65 mlwydd oed ac yn hŷn ac yn derbyn gofal yn y cartref gan eu hawdurdod lleol haneru bron iawn rhwng 1994 a 2001, gan ei fod wedi gostwng o ryw 40,000 i tua 22,000. Ers hynny, mae'r nifer sy'n derbyn cymorth wedi aros yn weddol gyson. Cafwyd gostyngiad am fod yr adnoddau sydd ar gael wedi cael eu canolbwyntio ar y rheiny yr ystyrid fod arnynt ei angen fwyaf yn hytrach nag am fod cyfanswm yr adnoddau wedi bod yn mynd yn llai.[29]
- Yng Nghymru, mae amrywiaeth sy'n agos at fod yn un triphlyg rhwng awdurdodau lleol yng nghyfran y bobl sy'n 75 mlwydd oed ac yn hŷn a gafodd gymorth i fyw gartref. Serch hynny, nid oes patrwm daearyddol amlwg i'r amrywiaeth, gan fod y cyfrannau isaf yn Wrecsam, Gwynedd, Conwy a Bro Morgannwg, a'r cyfrannau uchaf ym Merthyr Tudful, Abertawe ac Ynys Môn.

## Yn ymwneud â meddygon teulu a'u meddygfeydd

- Mae nifer y cleifion am bob meddyg teulu ar ei uchaf yn Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf (tua 2,000) ac ar ei isaf yng Ngheredigion a Gwynedd (tua 1,200).
- Mae 6 y cant o feddygon teulu ar gyfartaledd yng Nghymru'n gweithio ar eu pennau'u hunain. Serch hynny, mae amrywiaethau mawr i'w cael ledled Cymru, gan fod chwarter y meddygon teulu ym Mlaenau Gwent yn rhai sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain, 17 y cant ym Merthyr Tudful a 14 y cant yn Sir y Fflint. O'u cymharu, nid oes yr un ym Mro Morgannwg, Ynys Môn na Phowys.
- Yn 2001, nid oedd dwy ran o dair o feddygfeydd meddygon teulu ag un neu ddau bartner yn gymwys i gael y 'taliadau am wasanaeth o ansawdd' a roir i feddygfeydd meddygon teulu sy'n cyrraedd rhai safonau penodol o ran gofal sylfaenol. O'u cymharu roedd dwy ran o dair o'r rheiny â phump neu fwy'n gymwys. O fewn ardal Awdurdod Iechyd Bro Taf gynt, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf oedd â'r lefelau uchaf o ran meddygfeydd nad oeddent yn gymwys (79 y cant a 65 y cant) tra bo'r lefelau isaf ym Mro Morgannwg a Chaerdydd (25 y cant a 44 y cant yn y drefn honno).[30]
- Mae bron hanner yr holl feddygon teulu'n 55 mlwydd oed neu'n hŷn ym Merthyr Tudful. Yr awdurdodau eraill sydd â chyfran uchel yw Blaenau Gwent (44 y cant), Rhondda Cynon Taf (42 y cant) a Chaerffili (31 y cant). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 18 y cant.[31] Mae hyn yn symptom o broblemau recriwtio ac yn arwydd o fynediad gwael yn y dyfodol wrth i feddygon teulu yn yr ardaloedd hyn ddechrau ymddeol.[32]
- Merthyr Tudful sydd â'r gyfran isaf o fenywod yn gweithio fel meddygon teulu (13 y cant), a Blaenau Ffestiniog sydd nesaf (17 y cant). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 31 y cant ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r lefelau uchaf ym Mro Morgannwg, Caerdydd a Sir Fynwy, lle mae 40 y cant o'r meddygon teulu'n fenywod.[33]
- Gallai achosion o dderbyn pobl i'r ysbyty am gyflyrau megis y fogfa, angina a diabetes, cyflyrau y dylid eu trin ar lefel gofal sylfaenol, fod yn arwydd arall o ddarpariaeth sylfaenol wael. Cafodd astudiaeth ym 1997 o fynychder y fogfa yng Nghymru fod nifer uwch o achosion o dderbyn pobl i'r ysbyty mewn ardaloedd amddifadus. Cafwyd hefyd fod llai o ddefnydd o fewnanadlwyr mewn ardaloedd amddifadus, sy'n dynodi bod gan lai o bobl fynediad at feddyginiaeth ataliol. Mae astudiaethau o'r fath yn amlygu'r posibilrwydd o fynediad llai cyfartal at ofal, ond nid ydynt yn atal esboniadau eraill, megis diffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio meddyginiaeth.[34]

# Pennod 5 Gwasanaethau

| *Thema* | *Dangosydd/map* |
|---|---|
| Tai: argaeledd a digartrefedd | 27: Digartrefedd |
| Tai: ansawdd a chymdogaeth | 28: Ansawdd tai<br>29: Anfodlonrwydd ar y gymdogaeth |
| Mynediad at wasanaethau ariannol | 30: Eithrio ariannol |
| Mynediad at gludiant | 31: Digonolrwydd cludiant cyhoeddus<br>32: Dibyniaeth ar gar ar gyfer gwaith |

# Tai: argaeledd a digartrefedd

Roedd diffyg tai fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, yn un pwnc allweddol a godwyd yn y grwpiau trafod. Y farn oedd bod prisiau tai uchel mewn perthynas ag incwm yn golygu mai anaml iawn yr oedd cymryd morgais yn ddewis posib. Mynegwyd y teimlad bod tai cymdeithasol yn aml yn anaddas, o ran maint (i deuluoedd yn hytrach na phobl sengl) a lleoliad (mewn ardaloedd y mae'r galw ynddynt yn isel, ac sydd â lefel isel o ran cyfleoedd economaidd a darparu gwasanaethau). Roedd lefelau rhent, yr angen am flaendal, sy'n anodd iawn i nifer o bobl ifanc ei fforddio, a phryderon ynghylch ansicrwydd deiliadaeth yn golygu mai'r sector rhentu preifat oedd y dewis a ffafrid leiaf – ond hwn hefyd oedd yr unig ddewis gwirioneddol a allai fod ar gael.

Mae'r cefndir i hyn i'w weld yn yr ystadegau sy'n ymwneud â'r hyn sydd wedi digwydd i'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gyfran o gyfanswm y stoc dai sy'n dai cymdeithasol wedi gostwng o 21 y cant ym 1995 i 18 y cant yn 2004.[1] O'i gyferbynnu, amcangyfrifir y bydd cynnydd o 8,600 cartref newydd net bob blwyddyn yn yr angen am dai yng Nghymru rhwng 1998 a 2016, a bod 2,500 o'r rhain y flwyddyn yn dai y mae eu hangen yn y sector tai cymdeithasol. Amcangyfrifir hefyd, gan ddechrau ym 1998, bod ôl-groniad o ran angen nas diwallwyd o 33,000 annedd, yn cynnwys teuluoedd cudd, tenantiaid preifat sy'n rhannu a thenantiaid preifat/cymdeithasol sy'n byw mewn tai gorlawn.[2] Heblaw am Gaerdydd ac Abertawe, mae'r gymhareb rhwng prisiau tai ac incwm aelwydydd ar ei huchaf yn gyffredinol mewn ardaloedd gwledig, sef yr union ardaloedd â'r gyfran isaf o ran tai cymdeithasol.[3]

## Digartrefedd

Mae digartrefedd yn bwnc pwysig ynddo'i hun wrth gwrs, ond caiff ei gyflwyno yma hefyd fel symptom o'r problemau ehangach yn ymwneud â diffyg argaeledd tai addas, fforddiadwy.[4]

Yn arbennig, gall unigolyn fod yn ddigartref – yn yr ystyr nad oes ganddo'i dŷ'i hun – hyd yn oed os nad yw heb le i aros yn gyfan gwbl ('heb do uwch ei ben'). Mae Deddf Tai 1996 yn cydnabod hyn. Yn ôl y Ddeddf, mae unigolyn yn ddigartref os nad oes ganddo hawl gyfreithiol i breswylio yn ei lety, neu os nad oes ganddo le y mae'n rhesymol iddo barhau i drigo ynddo. O ganlyniad, mae pobl ddigartref yn byw dan amrywiaeth eang o amgylchiadau: mae rhai heb do uwch eu pennau, ond mae eraill – y mwyafrif llethol – yn byw dros dro gyda ffrindiau neu berthnasau.

## 'Digartref yn statudol', 'angen blaenoriaethol' a 'digartref gartref'

Mae digartrefedd yn bwnc y mae'n bwysig iawn gwybod union ystyr rhai termau sy'n gysylltiedig ag ef er mwyn deall y pwnc ei hun.

Er mwyn bod *yn ddigartref yn statudol*, mae'n rhaid i unigolyn wneud cais yn gyntaf i'r awdurdod lleol, ac yna gael ei dderbyn yn unol â meini prawf deddfwriaethol. Felly nid yw'r categori hwn ond yn cynnwys cyfran o gyfanswm y boblogaeth ddigartref, gan na fydd nifer hyd yn oed yn cysylltu â'r awdurdod lleol, a hyd yn oed pan fyddant yn gwneud hynny, efallai y cânt eu perswadio i beidio â gwneud cais am gael eu cynnwys yn nosbarth y rhai sy'n ddigartref yn statudol.[5]

Nid yw bod yn ddigartref yn statudol ond yn trosi'n hawl i gael llety os yw asesiad yn profi bod yr ymgeisydd hefyd yn un *'ag angen blaenoriaethol'*, yn ôl y ddeddfwriaeth.

Mae grwpiau ag angen blaenoriaethol yn cynnwys teuluoedd a phobl y tybir eu bod yn agored i niwed am amrywiaeth o resymau, er enghraifft am eu bod yn ifanc, am eu bod yn gadael gofal, am fod ganddynt lefel iechyd meddwl gwael, am eu bod yn gadael y carchar a.y.b.[6] Mae'n rhaid i'r rheiny ag angen blaenoriaethol gael llety hirdymor. Mae llawer, serch hynny, yn cael eu rhoi mewn llety dros dro i ddechrau. Mae'r rheiny sy'n ddigartref yn statudol ond y tybir 'nad yw eu hangen yn angen blaenoriaethol' – tua thraean o'r aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref yn statudol – yn cael cynnig cyngor a chymorth ond nid llety.

Yng Ngorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001, cynyddwyd y grŵp o bobl y mae ar awdurdodau lleol ddyletswydd digartrefedd lawn iddynt. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, a hwythau'n rhoi cyfrif am ychydig yn fwy na hanner y rheiny y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn statudol ym 1997/98, roedd achosion angen-blaenoriaethol yn rhoi cyfrif am ddwy ran o dair erbyn 2003/04.[7] Ni all ail-lunio'r ffiniau rhwng y rhai sydd, a'r rhai nad ydynt, yn perthyn i'r grŵp angen-blaenoriaethol ynddo'i hun effeithio ar y niferoedd y tybir eu bod yn ddigartref yn gyfreithiol. Ar y llaw arall, mae'n sicr y gall gael effaith o ran pa mor dda y mae'r awdurdodau'n ymdopi â'u cyfrifoldebau tuag at bobl ddigartref.

Mae *digartref gartref* yn cyfeirio at 'unrhyw drefniadau pan fo aelwyd y cafwyd ei bod yn gymwys i gael cymorth, y cafwyd ei bod yn ddigartref yn anfwriadol a'i bod ag angen blaenoriaethol, yn dal i fod yn y (neu'n dychwelyd i'r) llety y mae'n ddigartref am ei bod yn gorfod ei adael, neu mewn llety arall y daeth yr ymgeisydd o hyd iddo'.[8] Mewn geiriau eraill, mae pobl sy'n 'ddigartref gartref' yn bobl sydd wedi'u gosod yn nosbarth yr aelwydydd ag anghenion blaenoriaethol ond sydd, am y tro, yn aros gyda pherthnasau neu ffrindiau. Dylid nodi nad yw'r holl bobl sy'n aros gyda pherthnasau neu ffrindiau'n perthyn i'r grŵp hwn, gan nad yw ond yn cynnwys y bobl hynny y mae'u hawdurdod lleol wedi cael eu bod yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

27A – nifer y bobl y derbynnir eu bod yn ddigartref yn statudol yng Nghymru bob blwyddyn.

27B – nifer y bobl mewn llety dros dro ar ddiwedd pob cyfnod.

Mae'r ddau graff hwn yn mesur pethau tra gwahanol. Mae'r cyntaf yn mesur y nifer y bu i'w hawdurdod lleol dderbyn eu bod wedi dod yn ddigartref (yn statudol) yn ystod y flwyddyn dan sylw – maint y 'llif' i mewn i ddosbarth y digartref. Mae cynnydd neu gwymp yn y graff hwn yn arwydd o newidiadau yn yr amodau cymdeithasol sy'n achosi i bobl fod yn ddigartref.

### Uchafbwyntiau


Mae nifer y bobl y tybir eu bod yn 'ddigartref yn statudol' wedi dyblu mewn pedair blynedd yn unig.

Mae nifer y bobl sydd mewn amryw fathau o lety dros dro wedi treblu mewn dwy flynedd yn unig.

# Digartrefedd


Dangosydd 27

## Mae nifer yr aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref yn statudol wedi dyblu yn y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd wedi bod ymhlith aelwydydd heb blant dibynnol.




**Ffynhonnell:** Ystadegau Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Mae nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro wedi treblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.




**Ffynhonnell:** Ystadegau Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dengys y graff cyntaf nifer yr aelwydydd yng Nghymru y bu i'w hawdurdod lleol dderbyn eu bod yn ddigartref yn statudol yn y flwyddyn a nodir, ac mae'r data wedi'i rannu yn ôl y rhai a chanddynt blant dibynnol a'r rhai heb blant dibynnol. Mae'n cynnwys y rheiny 'ag angen blaenoriaethol' a'r rheiny 'nad yw eu hangen yn angen blaenoriaethol' ond nid yw'n cynnwys y rheiny y tybir eu bod yn ddigartref yn fwriadol (nifer fach iawn).

Ar gyfer 2003 a 2004, mae'r niferoedd a chanddynt blant yn rhan uniongyrchol o'r data. Ar gyfer y blynyddoedd cyn 2002, mae'r nifer a chanddynt blant wedi cael eu hamcangyfrif gan ddefnyddio'r niferoedd y tybid bod eu hangen yn 'angen blaenoriaethol' oherwydd bod ganddynt blant a chan ychwanegu canran o'r rheiny y tybid bod eu hangen 'yn angen blaenoriaethol' oherwydd trais yn y cartref, ac mae'r ganran hon yn cynrychioli'r gyfran o achosion o drais yn y cartref yn 2003 mewn cartrefi a oedd yn cynnwys plant.

Dengys yr ail graff nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro, wedi'i fesur ar ddiwrnod olaf pob blwyddyn, a chaiff y data'i ddangos ar wahân ar gyfer y rheiny a gafodd eu rhoi mewn llety dros dro gan eu hawdurdod lleol a'r rheiny sy'n 'ddigartref gartref'.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw'r bwletinau digartrefedd chwarterol a gyhoeddir fel rhan o ystadegau tai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Er nad oes rheswm dros gredu bod unrhyw broblem gyda'r data sylfaenol, nid yw'n foddhaol o ystyried i ba raddau y mae 'digartrefedd' yn ddibynnol ar ddyfarniad gweinyddol.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â'r niferoedd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn statudol

- Bu i nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn statudol ddyblu o tua 8,000 yn 2000 i 16,000 bron â bod yn 2004.
- Mae dwy ran o dair o'r rheiny y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn statudol yn aelwydydd heb blant dibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn rhieni sengl, a 7 y cant yn unig sy'n gyplau â phlant.
- Yn 2004, y rheswm mwyaf dros ddigartrefedd yng Nghymru oedd colli lle i fyw gyda pherthnasau neu ffrindiau (28 y cant).[9]
- Mae cyfraddau digartrefedd wedi bod yn codi ledled Prydain Fawr. Yn Lloegr, cynyddodd nifer y derbyniadau o 160,000 i 190,000 dros yr un cyfnod ac yn yr Alban fe gododd o ryw 33,000 i ryw 39,000.[10] Ond mae'r cynnydd wedi digwydd yn gyflymach o lawer yng Nghymru.

## Yn ymwneud â'r niferoedd mewn llety dros dro

- Mae nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro wedi treblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae wedi cynyddu bum gwaith drosodd er 1997, o 700 i 3,500.
- Bu cynnydd yn nifer y bobl mewn llety dros dro'n gyffredinol ond bu cynnydd arbennig o amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn nifer y bobl sy'n perthyn i'r dosbarth 'digartref gartref'. Roedd 'digartref gartref' yn rhoi cyfrif am fwy na thraean o'r holl bobl mewn llety dros dro yn 2004 – rhyw 1,300 o bobl.
- Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast wedi cynyddu wyth gwaith drosodd er 1997 ac mae erbyn hyn yn rhoi cyfrif am chwarter y bobl sydd mewn llety dros dro (900 o bobl).[11] Serch hynny, gall fod yn fath annigonol iawn o lety dros dro, oherwydd amodau gwael a diffyg cyfleusterau, ac am ei fod yn aml yn achosi i bobl gael eu gwahanu oddi wrth wasanaethau cymorth megis y gwasanaethau cymdeithasol a meddygon teulu.[12] Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n llunio deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o'r math hwn o lety ar gyfer aelwydydd digartref.[13]
- O blith y gweddill, mae 400 arall mewn eiddo sy'n perthyn i'r awdurdod lleol, 300 mewn eiddo preifat ar rent a 200 mewn hostelau.
- Yn 2001, roedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn rhoi cyfrif am 7 y cant o'r bobl ddigartref mewn hostelau er nad oedd y grwpiau hyn ond yn rhoi cyfrif am 2 y cant o boblogaeth Cymru.[14] Roedd aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn rhoi cyfrif am 3 y cant o'r holl aelwydydd oedd yn ddigartref yn statudol yn 2004.[15]

# Tai: ansawdd a chymdogaeth

Mae tai o ansawdd gwael yn gysylltiedig ag amrediad o ddeilliannau o ran afiechyd, megis afiechydon yn ymwneud ag annwyd, y fogfa, pryder, iselder ysbryd, afiechyd hirdymor ac ansawdd bywyd sy'n waeth yn gyffredinol.

Mae'r gymdogaeth yn bwysig hefyd. Gall problemau'n ymwneud â chymdogaethau gwael, megis gwasanaethau a chyfleusterau annigonol, arwain at anfanteision mawr i'r trigolion. Yn eu tro, mae problemau ar lefel y gymdogaeth yn aml iawn yn adlewyrchu problemau a ddechreuodd ymhell y tu hwnt i'r gymdogaeth, megis tueddiadau economaidd a thueddiadau yn y farchnad dai, ac anghydraddoldebau cymdeithasol.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

28A – cyfran y cartrefi heb wresogi canolog, yn ôl grŵp incwm, dros amser.

28B – cyfran y cartrefi anffit yn ôl math o ddeiliadaeth a math o aelwyd.

29A – anfodlonrwydd ar y gymdogaeth yn ôl math o ddeiliadaeth a math o aelwyd.

29B – anfodlonrwydd ar amryw agweddau ar y gymdogaeth yn ôl math o ddeiliadaeth.

## Uchafbwyntiau

Mae cyfran y cartrefi sydd mewn cyflwr gwael wedi bod yn gostwng yn gyson ac mae erbyn hyn wedi cyrraedd lefel isel iawn.

O'r niferoedd isel o gartrefi yr ystyrir eu bod yn anffit, pensiynwyr sy'n byw mewn dwy ran o bump ohonynt, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn berchen-feddianwyr.

Mae lefelau uwch o ran anfodlonrwydd ar y gymdogaeth ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol nag ymhlith perchentywyr neu'r rheiny sy'n byw mewn llety preifat ar rent.

## Cyfyngiadau ar welliannau mewn ansawdd

Am ddegawd o leiaf, mae gosod system gwresogi canolog wedi bod yn un o'r ffyrdd pwysicaf o godi safon cartrefi, yn enwedig yn y sector tai rhent cymdeithasol. Serch hynny, nid yw presenoldeb system gwresogi canolog ond yn ddangosydd rhannol ar gyfer y gallu i wresogi tŷ'n ddigonol – mae effeithlonrwydd a fforddiadwyedd y tanwydd a ddefnyddir hefyd yn arwyddocaol. A hwythau heb gyflenwad nwy yn eu pentref, tynnodd aelodau un grŵp trafod sylw at y ffaith bod nifer o drigolion yn ddibynnol ar dân glo a systemau gwresogi trydan a oedd yn cael eu hystyried yn ddrud ac aneffeithlon. Mae hyn yn rhoi aelwydydd incwm-isel mewn cyfyng-gyngor: gallant naill ai adael y cartref heb ei wresogi'n ddigonol neu wario swm anghymesur o fawr o arian ar danwydd. Gan fod y rhwydwaith cyflenwad nwy yng Nghymru'n annhebygol o gael ei ehangu yn y dyfodol agos, mae hyn yn broblem i nifer o gymunedau heb gyflenwad ar hyn o bryd.

## Ffactorau sy'n gyfrifol am anhoffter o'r gymdogaeth

Gan ddilyn yr arolwg swyddogol y cafwyd yr wybodaeth ohono, caiff anhoffter o'r gymdogaeth ei gyflwyno yn y dangosydd yn ôl problemau sy'n ymwneud â'r 'amgylchedd', 'cyfleusterau' a 'phobl'. Gellir olrhain problemau gyda'r ddau bwnc cyntaf i ddiffyg adnoddau, ond mae problemau'n ymwneud â 'phobl' – cymdogion, plant a phobl ifanc yn 'loetran' – yn anos i'w datrys.

Gallai diffyg cyfleusterau fod yn rheswm pwysig y mae problemau'n ymwneud â 'phobl', yn enwedig 'pobl ifanc yn loetran', yn achosi cymaint o anfodlonrwydd. Er nad yw hynny'n amlwg yn yr ystadegau, roedd diffyg cyfleusterau i bobl ifanc yn rhywbeth a grybwyllwyd dro ar ôl tro gan y grwpiau trafod mewn cymunedau yng nghefn gwlad ac yng nghymunedau'r Cymoedd, ac roedd aelodau'r ddau grŵp o'r farn bod diffyg darpariaeth addas gan y gwasanaeth ieuenctid statudol ar gyfer pobl ifanc.

Daw problemau'n ymwneud â 'phobl' i fod yn fwy dealladwy hefyd pan gânt eu hystyried yng nghyd-destun cymdogaethau sy'n dirywio. Wrth i gymdogaeth ddechrau dod yn amhoblogaidd, a'r dystiolaeth o hynny yw pan fod anheddau'n anodd i'w gwerthu neu pan fo gorgyflenwad o ran tai cymdeithasol, mae'r rheiny sydd â'r cyfleoedd economaidd gorau'n tueddu i adael yr ardal, a'r rheiny sydd â'r lleiaf o gyfleoedd yn aros. Mae'r crynhoad cynyddol o ddifreintedd sy'n deillio o hynny, yn ei dro, yn rhoi straen ar yr isadeiledd cymdeithasol, a gall fod cynnydd mewn troseddau, fandaleiddio ac anniogelwch. Mae rhwydweithiau cymdeithasol o fewn y cymunedau'n crebachu, ac atgasedd tuag at gymdogion yn cynyddu.


Mae deinameg dirywiad cymunedau'n ymddangos mewn astudiaeth ddiweddar o gymdogaethau difreintiedig ledled Cymru a Lloegr.[16] Er bod yr astudiaeth yn cyffredinoli, mae'n tynnu sylw at bryderon a grybwyllwyd ym mhob un o'r tri grŵp trafod:

- Roedd arwyddion o straen ar yr isadeiledd yn amlwg mewn pryderon ynghylch diogelwch y gymuned. Roedd y rhain (yn ansyfrdanol) fwyaf amlwg yn y gymuned ddinesig, lle roedd aelodau'r grŵp yn poeni o ddifrif am buteindra, gwerthu cyffuriau a throseddau treisgar. Er nad oedd yr un o'r problemau hyn yn newydd o anghenraid, roedd y gymuned erbyn hyn yn teimlo na allent reoli'r sefyllfa eu hunain, ac nid oeddent yn ymddiried yn yr heddlu i wneud hynny.
- Roedd dirywiad rhwydweithiau cymdeithasol a chynnydd mewn atgasedd yn amlwg mewn pryderon a fynegwyd ynghylch pobl yn eu cymdogaethau. Roedd trigolion yn y grŵp yn y Cymoedd yn teimlo bod polisïau gosod tai wedi arwain at grynhoad cynyddol o bobl agored i niwed neu aelwydydd 'gwrthgymdeithasol' yn eu hardaloedd. O ganlyniad, roedd rhai pobl yn gofyn am gael eu trosglwyddo i rywle arall. Mae'r rhai a arhosodd yn aml yn teimlo mwy o faich y cyfrifoldeb i atal y gymuned rhag dirywio ymhellach.
- Roedd dirywiad yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd lleol yn cael ei ystyried yn gyffredin i bob gwasanaeth – yr heddlu, iechyd, ysgolion, hamdden a.y.b. Mynegodd cyfranogwyr mewn un grŵp y farn bod darparwyr gwasanaethau (cyhoeddus a phreifat) wedi cefnu ar y gymuned, gan ei hystyried fel 'pendraw'r byd' neu 'wylltgoed'. Dywedodd cyfranogwyr mewn dau o'r grwpiau eu bod yn teimlo fel pe baent yn fwyfwy dibynnol ar fudiadau gwirfoddol a chymunedol, yn hytrach na gwasanaethau statudol.

# Ansawdd tai


Dangosydd 28

## Mae cyfran y cartrefi sydd heb wresogi canolog wedi bod yn gostwng yn gyflym ymhlith pobl ag incwm cyfartalog a phobl ag incwm isel.




**Ffynhonnell**: Arolwg Adnoddau Teuluoedd, ONS

## Mae'r rhan fwyaf o gartrefi anffit yn eiddo i berchen-ddeiliaid a phensiynwyr sy'n byw mewn dwy ran o bump ohonynt.




**Ffynhonnell**: Byw yng Nghymru 2004, UDdLlL Cymru

Dengys y graff cyntaf gyfran yr aelwydydd heb wresogi canolog. Mae'r data wedi'i rannu'n ddau i ddangos aelwydydd ar incwm is-na'r-cyfartaledd ac incwm cyfartalog ar wahân. Mae incwm yn cyfeirio at incwm gwario'r aelwyd, wedi'i gywerthu er mwyn ystyried cyfansoddiad aelwydydd a'i fesur ar ôl didynnu costau tai. Ffynhonnell y data yw'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd (FRS). Mae rhai blynyddoedd ar goll am nad yw'r cwestiwn am wresogi canolog ond yn cael ei ofyn mewn rhai blynyddoedd.

Mae'r ail graff yn rhoi dadansoddiad o'r cartrefi sy'n anffit gan rannu'r wybodaeth yn ddau gan ddibynnu a yw'r cartref yn un y mae'r deiliaid yn berchen arno ynteu'n un sy'n cael ei rentu ac, o fewn hyn, pa un a yw'r deiliaid yn bensiynwyr ynteu'n oedolion o oedran gweithio. Ffynhonnell y data ar gyfer yr ail graff yw Byw yng Nghymru, 2004 a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru. Caiff cartref ei roi yn y dosbarth 'anffit' os caiff ei ystyried, yn seiliedig ar arolwg annibynnol, i fod islaw'r safon ar gyfer unrhyw un o'r agweddau ffisegol canlynol: sadrwydd adeileddol, adfeiliad, lleithder, goleuadau, gwresogi, awyru, cyflenwad dŵr, paratoi bwyd, tŷ bach, bath/cawod/basn ymolchi neu ddraenio.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae'r FRS yn arolwg rheolaidd gan y Llywodraeth sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae wedi'i fwriadu i fod yn gynrychiadol ar lefel genedlaethol. Serch hynny, oherwydd y defnyddiwyd samplau

Dangosydd 28

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â gwresogi canolog

- Mae cyfran yr aelwydydd sydd heb wresogi canolog wedi bod yn gostwng yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r lefel ar hyn o bryd yn hanner gymaint ag yr oedd ganol y 1990au.
- Mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd ymhlith aelwydydd ym mhumed dlotaf y boblogaeth ac aelwydydd ar incwm cyfartalog, er bod y lefel yn dal i fod rywfaint yn uwch ymhlith aelwydydd ag incwm is na'r cyfartaledd nag ydyw ymhlith y rheiny ar incwm cyfartalog – 7 y cant o'u cymharu â 5 y cant.
- Dengys data a gyhoeddwyd yn ddiweddar (sy'n dangos y lefelau saith mlynedd yn ôl) fod bron hanner y rheiny a oedd yn byw mewn cartrefi â gwresogyddion sefydlog ond heb wresogi canolog hefyd yn dioddef tlodi tanwydd. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o 30 y cant mewn cartrefi â gwresogi canolog.[17]
- Mae cartrefi yn y sector tai rhent preifat yn fwy tebygol o fod heb wresogi canolog (tua 15 y cant) na'r rheiny mewn tai cymdeithasol (7 y cant) a thai yn y sector perchentyaeth (6 y cant). O ran nifer, am mai'r sector perchentyaeth yw'r sector deiliadaeth mwyaf o bell ffordd, mae tua thair rhan o bump o'r 90,000 o gartrefi heb wresogi canolog yn y sector perchentyaeth.[18]
- Mae cartrefi heb wresogi canolog wedi'u crynhoi mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r cyswllt â'r rhwydwaith nwy yn llai eang. Mae'r rhannau lleiaf eang o'r rhwydwaith nwy yng Ngheredigion, Ynys Môn, Powys a Gwynedd.[19]


## Yn ymwneud â chartrefi sy'n anffit

- Er mwyn cael ei gyfrif yn 'anffit', mae'n rhaid i gartref fethu ag ateb un neu fwy o'r gofynion iechyd a diogelwch sy'n rhan o'r 'safon addas i breswyliad dynol'. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyn i'r cartref fod yn sad yn adeileddol, heb adfeilio'n ddifrifol ac yn rhydd rhag lleithder yn ogystal â bod â darpariaeth ddigonol o safbwynt gwresogi, goleuadau ac awyru.[20]
- Mae dwy ran o dair o'r cartrefi anffit yn rhai yn y sector perchentyaeth. Pensiynwyr sy'n byw yn nwy ran o bump o'r rhain.
- Mae cyfran y cartrefi anffit yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol dros amser. Yn seiliedig ar ddiffiniadau cyfredol o anffitrwydd, roedd bron i 20 y cant o'r stoc dai yn 'anffit' ym 1986. Erbyn 1998, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 9 y cant o'r stoc, ac yn 2004, i 4 y cant o'r stoc. Mae hyn yn cyfateb i 50,000 o gartrefi anffit.[21]
- Y rheswm mwyaf o bell ffordd dros anffitrwydd yw 'adfeiliad' (52 y cant), ac wedyn lleithder (33 y cant).
- Mae'r cyfuniad o lefelau perchentyaeth uchel ac incwm is na'r cyfartaledd yn golygu bod mwy o berchentyaeth incwm-isel yng Nghymru. Mae hanner y rheiny ag incwm islaw'r ffin tlodi incwm yn berchentywyr; ymhlith pensiynwyr, tri chwarter yw'r gyfran hon.[22]
- Mae aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o brofi tai o ansawdd gwael nag aelwydydd pobl wynion (tuag 20 y cant o'u cymharu ag 11 y cant). Mae'r cyfartaledd hwn yn celu gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae 37 y cant o gymunedau Bangladeshi ac 28 o bobl dduon o dras Africanaidd yn profi amddifadedd ym maes tai. O'u cyferbynnu, mae 17 y cant o aelwydydd o gefndir ethnig cymysg a 14 y cant o aelwydydd Caribïaidd yn byw mewn tai o ansawdd gwael.[23]

# Anfodlonrwydd ar y gymdogaeth


Dangosydd 29

## Mae teuluoedd a chanddynt blant yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar eu cymdogaeth leol, pa un a ydynt yn berchen-ddeiliaid ynteu'n denantiaid.




**Ffynhonnell:** Byw yng Nghymru, 2004, UDdLlL Cymru

## Mae cyfran uwch o bobl mewn llety ar rent yn y sector cymdeithasol yn casáu'u cymdogaeth leol na phobl mewn grwpiau deiliadaeth eraill.




**Ffynhonnell:** Byw yng Nghymru, 2004, UDdLlL Cymru

Mae'r graff cyntaf yn rhoi dadansoddiad gan nodi i ba raddau y mae aelwydydd yn anfodlon ar eu cymdogaeth leol. Mae'r ffigyrau'n nodi faint a ddywedodd eu bod yn 'weddol anfodlon' neu'n 'anfodlon iawn' mewn ymateb i'r cwestiwn 'pa mor fodlon ydych chi ar eich cymdogaeth leol'. Nid yw'r rhai a atebodd gan ddweud 'dim safbwynt' wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae'r ail graff yn rhoi dadansoddiad o'r agweddau ar eu hardal leol nad yw aelwydydd yn eu hoffi. Caiff y data'i ddangos ar wahân ar gyfer perchentywyr, rhentwyr yn y sector preifat a rhentwyr yn y sector cymdeithasol, ac ym mhob achos nodir y gyfran a ddywedodd nad ydynt yn hoffi'u hardal am resymau'n ymwneud â 'phobl', 'yr amgylchedd' neu 'gyfleusterau'. Mae'r rhesymau'n ymwneud â 'phobl' yn cynnwys diffyg ymdeimlad o gymuned, plant/pobl ifanc yn loetran a chymdogion. Mae'r rhesymau'n ymwneud â'r 'amgylchedd' yn cynnwys diffyg gwaith cynnal a chadw yn yr ardal, pobl yn defnyddio/gwerthu cyffuriau, diffyg diogelwch, sŵn ac arwahanrwydd. Mae rhesymau'n ymwneud â 'chyfleusterau' yn cynnwys dim siopau/siopau gwael, cludiant cyhoeddus gwael, dim cyfleusterau/cyfleusterau gwael ar gyfer plant neu bobl yn eu harddegau, ysgolion gwael a lle parcio ceir. Ym mhob achos, mae'r ffigyrau a gyflwynir yn cyfrif yr aelwydydd hynny nad oeddent yn hoffi o leiaf un agwedd o fewn y math o reswm.

Ffynhonnell y data ar gyfer y ddau graff yw Byw yng Nghymru, 2004 a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae Byw yng Nghymru'n arolwg sylweddol sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli aelwydydd preifat yng Nghymru ond, er hynny, mae meintiau'r samplau'n gymharol fach.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud ag anfodlonrwydd cyffredinol ar y gymdogaeth

- Mae anfodlonrwydd ar y gymdogaeth yn uwch ymhlith oedolion o oedran gweithio â phlant dibynnol nag ymhlith pensiynwyr neu oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol. Mae'r gwahaniaeth mwyaf ymhlith tenantiaid yn y sector tai rhent cymdeithasol ond yn gymharol fach ymhlith perchentywyr.
- Gyda phob math o deulu, mae anfodlonrwydd ar y gymdogaeth yn uwch ymhlith tenantiaid yn y sector tai rhent cymdeithasol nag ymhlith tenantiaid yn y sector preifat a pherchentywyr.
- Mae pedwar ar bymtheg y cant o denantiaid y sector cymdeithasol a chanddynt blant dibynnol yn anfodlon ar eu cymdogaeth. Mae hyn yn cymharu â 15 y cant o denantiaid o oedran gweithio heb blant dibynnol a 9 y cant o denantiaid sy'n bensiynwyr.



## Yn ymwneud â rhesymau penodol dros beidio â hoffi'r gymdogaeth

- Mae mwy na 25 y cant o denantiaid yn y sector tai rhent cymdeithasol yn anhoff o'u cymdogaeth am resymau'n ymwneud â 'phobl'. Mae hyn yn cyfeirio at un neu fwy o blith y canlynol: problemau gyda chymdogion; problemau gyda phlant a phobl ifanc yn 'loetran'; a/neu ddiffyg ymdeimlad o gymuned. O'u cyferbynnu, 11 y cant yn unig o denantiaid preifat a 14 y cant o berchentywyr sy'n anhoff o'u cymdogaeth am unrhyw resymau o blith y rhain.
- Mae bron i 25 y cant o denantiaid y sector cymdeithasol hefyd yn nodi amrediad o broblemau amgylcheddol fel rheswm dros fod yn anhoff o'u cymdogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ysbwriel, sŵn, camddefnyddio cyffuriau a throseddau. Mae bron i 19 y cant o denantiaid preifat a 15 y cant o berchentywyr hefyd yn nodi'r rhain fel rhesymau dros fod yn anfodlon ar y gymdogaeth.
- Mae tua 15 y cant o'r bobl ym mhob grŵp deiliadaeth yn gweld problemau'n ymwneud â 'chyfleusterau' fel rheswm dros beidio â hoffi'u cymdogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys siopau gwael, cludiant cyhoeddus gwael, ysgolion gwael a chyfleusterau gwael ar gyfer plant ifanc neu blant yn eu harddegau.
- Rhwng popeth, y patrwm sydd i'w weld yma yw bod pryderon ynghylch 'cyfleusterau' yr un mor amlwg ym mhob grŵp deiliadaeth tra bo pryderon yn ymwneud â'r 'amgylchedd' yn fwy amlwg ymhlith tenantiaid y sector cymdeithasol nag ydyw ymhlith eraill. Yr hyn sy'n gwneud i denantiaid y sector cymdeithasol sefyll allan, serch hynny, yw'r lefelau uwch o ran pryderon ynghylch materion yn ymwneud â 'phobl'.

# Mynediad at wasanaethau ariannol

Pan fo pobl yn methu â chael mynediad at wasanaethau ariannol, pa un ai am eu bod wedi'u cynllunio mewn ffordd anaddas, ynteu am eu bod yn rhy ddrud neu'n anodd i'w cyrraedd, maent yn dioddef yr hyn a elwir erbyn hyn yn 'eithrio ariannol'. Roedd eithrio o wasanaethau ariannol yn un pryder mawr a fynegwyd yn y grwpiau trafod.

Mae diffyg mynediad at gyfrif banc yn un agwedd allweddol ar eithrio ariannol. Nid yw cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'n ateb i bob problem, yn enwedig os mai diffyg arian sydd wrth wraidd y broblem, ond gall bywyd heb gyfrif fod yn fwy anodd ac yn fwy costus. Mae'n golygu bod rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd yn digwydd mewn arian parod, sy'n gwneud talu biliau'n fwy cymhleth, yn arwain at godi tâl am dalu mewn arian parod a gall olygu talu prisiau uwch am wasanaethau – mae cwmnïau cyfleustodau'n cynnig cyfraddau is am dalu trwy ddebyd uniongyrchol, er enghraifft. Bydd hefyd yn achosi problemau os yw cyflogwr yn talu trwy drosglwyddiad awtomatig yn hytrach nag mewn arian parod.

Mae dyled, yn enwedig pan ei bod yn golygu cyfraddau llog uchel, hefyd yn un o symptomau eithrio ariannol. Caiff y cwestiwn ynglŷn â maint y broblem ddyledion yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU ei drafod yn aml ond heb ganfod ateb oherwydd diffyg data eglur, cynhwysfawr a chymaradwy.[24] Yr hyn sy'n hysbys yw bod gan Gymru lefelau uwch o ran y defnydd o gredyd a symiau ar fenthyg, ond eto enillion cyfartalog is a lefelau uwch o ran pobl sy'n derbyn budd-daliadau.[25] Yn niffyg data i ganfod yn wrthrychol faint o broblem yw dyled (er enghraifft, data'n ymwneud â thaliadau llog ac isafswm ad-daliadau fel cyfran o incwm gwario), gall asesiadau goddrychol fod yn ddefnyddiol yn eu lle gan eu bod yn rhoi syniad bras am yr aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yn sgîl newidiadau mewn amgylchiadau economaidd.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

30A – cyfran yr aelwydydd heb gyfrif banc, yn ôl lefel incwm, dros amser.

30B – cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn profi anawsterau ariannol.

### Uchafbwyntiau

Er bod y broblem wedi bod yn mynd yn llai, mae aelwydydd ar incwm isel yng Nghymru'n dal i fod yn llawer llai tebygol o fod â chyfrif banc nag aelwydydd ar incwm cyfartalog.

Mae cyfran yr aelwydydd sy'n dweud eu bod yn cael anawsterau ariannol yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain.

## Credyd, dyled a changhennau banciau

Un o'r prif ffyrdd y mae diffyg mynediad at gyfrif banc yn effeithio ar aelwydydd ar incwm isel yw ei fod yn achosi iddynt ddibynnu'n fwyfwy ar ffynonellau credyd sy'n

perthyn i farchnad israddol. Gall credyd fod yn beth da, neu'n beth drwg, ynddo'i hun ond, i aelwydydd ar incwm isel yn ogystal ag aelwydydd ar incwm uwch, ymddengys fod credyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Eto mae ymchwil wedi dangos bod y bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru'n aml yn gorfod benthyg arian gan y benthycwyr lleiaf parchus, sy'n ychwanegu at y problemau ariannol sydd ganddynt yn barod.[26]

Roedd pryderon ynghylch dulliau gweithredu'r cwmnïau sy'n darparu'r credyd hwn a'r effaith y maent yn ei chael ar gymunedau lleol yn bwnc pwysig mewn dau o'r tri grŵp trafod. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- Marchnata ymosodol. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod cymunedau'n cael eu targedu mewn ffordd ymosodol gan gwmnïau. Roedd cymunedau hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu peledu â chynigion am gardiau credyd a chardiau siopau.
- Dibyniaeth ar gwmnïau masnachu sydd â lefelau llog uchel. Caiff y rhain eu hystyried i fod yr unig ddewis, gan fod 'sgrinio codau post' a sgorau credyd isel yn lleol yn ei gwneud yn anodd cael mynediad at ffynonellau credyd eraill.
- Diffyg gwybodaeth gan fenthycwyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd cwmnïau'n tynnu sylw pobl at gyfraddau llog ac nad oedd eu cytundebau benthyca'n cael eu hegluro wrth bobl, yn enwedig pobl ifanc.

Mae'r ddibyniaeth ar gwmnïau fel y rhain yn arwydd o fethiant y banciau prif-ffrwd i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar incwm isel. Un agwedd ar hyn yw'r gostyngiad yn nifer y canghennau sydd gan fanciau. Yn 2000, mewn adroddiad gan undeb ariannol UNIFI dywedwyd fod yr achosion o gau 31 cangen yng Nghymru i'w gweld fel pe baent 'wedi'u canoli ar ardaloedd â chyfleoedd economaidd isel lle mae diffyg mynediad at wasanaethau ariannol yn cynyddu'r broblem eithrio cymdeithasol'.[27] Er bod yr achosion o gau wedi arafu ers 2004, mae'n bosib y byddant yn cyflymu eto. Er enghraifft, cafwyd adroddiadau bod HSBC yn bwriadu cau 50 o ganghennau ledled y DU. Ym mis Gorffennaf 2005, roedd saith cangen wedi'u henwi, a chwech o'r rhain yng Nghymru.[28]

Dywedodd cyfranogwyr yn un o'r grwpiau trafod nad oedd banciau yn yr ardal a'i bod yn anodd cael mynediad at wasanaethau bancio yng ngoleuni'r cysylltiadau cludiant gwael. Roedd pryderon penodol yn ymwneud ag ymddangosiad peiriant arian parod yn siop y pentref gan fod tâl o £1.85 yn cael ei godi am bob gweithrediad ni waeth beth fo'r swm.


Un agwedd arall ar bresenoldeb banciau yw'r goblygiadau i hyfywedd cymunedau yn yr hirdymor. Pan fo banciau'n dechrau cau, mae hynny'n ddechrau dirywiad graddol o ran gweithgarwch ariannol a buddsoddi yn yr ardaloedd hynny.[29]

Un ymateb i hyn fu twf undebau credyd yng Nghymru. Mae aelodaeth o undebau credyd wedi dyblu ers 2001 – o 17,500 i 35,000.[30] Roedd un grŵp yn gresynu bod mynediad at undebau credyd yn gyfyngedig. Dywedodd cyfranogwyr mewn grŵp arall a chanddynt fynediad at undeb credyd eu bod yn ystyried ei fod yn adnodd hanfodol, yn enwedig o safbwynt cyngor ynghylch dyledion. Un ymateb arall yw'r Gronfa Gymdeithasol, sy'n rhoi benthyg arian i bobl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm heb godi llog ond sydd â gallu cyfyngedig i roi benthyg arian oherwydd yr arian sydd ar gael iddo a'r rheol 'pobl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm yn unig'. Mae gweithrediad y Gronfa Gymdeithasol yn fater y bydd rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef.

# Eithrio ariannol


Dangosydd 30

## Mae cyfran yr aelwydydd incwm-isel heb gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf ond yn dal i fod yn uwch o lawer na chyfran yr aelwydydd ar incwm cyfartalog yn yr un sefyllfa.




**Ffynhonnell:** Arolwg Adnoddau Teuluoedd, DWP

## Mae cyfran y bobl sy'n profi anawsterau ariannol yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.




**Ffynhonnell:** Arolwg Dyledrwydd, DTI a Chyngor Defnyddwyr Cymru

Dengys y graff cyntaf gyfran yr aelwydydd heb gyfrif banc, cymdeithas adeiladu nac unrhyw fath arall o gyfrif. Mae'r data wedi'i rannu er mwyn dangos yr aelwydydd ym mhumed dlotaf y dosbarthiad incwm a'r aelwydydd sydd ar incwm cyfartalog (pumed ganolig y dosbarthiad incwm) ar wahân. Ffynhonnell y data yw'r Arolwg Adnoddau Teuluoedd (FRS). Yn ogystal â chyfrifon banc, cymdeithas adeiladu a swyddfa bost, mae'r ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys unrhyw gyfrifon cynilion neu fuddsoddi ond nid ydynt yn cynnwys stociau a chyfranddaliadau, bondiau premiwm, eurymylon, neu drefniadau Cynilo Wrth Ennill. Mae incwm yn cyfeirio at incwm gwario aelwydydd, wedi'i gywerthu, a'i fesur cyn didynnu costau tai. Sylwer, er bod yr ystadegau'n ymwneud ag aelwydydd yng Nghymru yn unig, bod y dosbarthiadau i gwintel incwm yn deillio o'r dosbarthiad incwm ar gyfer poblogaeth Prydain gyfan.

Mae'r ail graff yn rhoi dadansoddiad o aelwydydd sy'n profi anawsterau ariannol neu a oedd yn profi anawsterau o'r fath flwyddyn yn gynharach, a chaiff y data'i ddangos ar ffurf cyfran o gyfanswm yr aelwydydd. At ddibenion cymharu, caiff y data cyfatebol ar gyfer Prydain Fawr heb gynnwys Cymru ei ddangos hefyd. Ffynhonnell y data yw arolwg gorddyledrwydd a wnaed yn 2002 gan yr Adran Masnach a Diwydiant wedi'i gyfuno â sampl atgyfnerthol ychwanegol ar gyfer Cymru a gomisiynwyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru. Mae'r data'n amhwysol am nad yw'r pwysiadau ar gyfer y ddau sampl yn amlwg ar yr un sail.

Digonolrwydd y dangosydd ar y cyfan: ***canolig***. Dylid cymryd gofal wrth ystyried newid dros amser gan y gall yr amrywiaeth samplu ar gyfer blynyddoedd unigol fod yn fawr.

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â meddu ar gyfrif banc

- Mae cyfran yr aelwydydd heb unrhyw fath o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ymhlith aelwydydd ym mhumed dlotaf y boblogaeth ac ymhlith aelwydydd ar incwm cyfartalog.
- Serch hynny, mae gwahaniaeth amlwg yn dal i fod rhwng y cyfrannau, gan mai 4 y cant yn unig o'r aelwydydd ar incwm cyfartalog oedd heb gyfrif banc o'u cymharu â 15 y cant o'r aelwydydd ar incwm isel yn 2003/04.
- Mae cyfran yr aelwydydd heb fynediad at gyfrif banc yn debyg i'r gyfran yn Lloegr ac yn is na'r gyfran yn yr Alban.[31]



## Yn ymwneud ag anawsterau ariannol

- Dywedodd un o bob pum aelwyd yng Nghymru eu bod yn profi anawsterau ariannol yn 2002. Mae hyn ychydig yn uwch na gweddill Prydain, lle dywedodd un ym mhob chwech eu bod yn profi anawsterau ariannol.
- Dywedodd ychydig dros hanner yr aelwydydd yng Nghymru a oedd yn profi anawsterau ariannol yn 2002 eu bod wedi profi anawsterau ariannol flwyddyn yn gynharach, hefyd. I'r rhan fwyaf, ond nid pob un, nid oedd yr anawsterau ariannol wedi gwaethygu dros y cyfnod.
- Ymhlith cleientiaid Cyngor Ar Bopeth, mae'r gymhareb rhwng dyled gyfartalog aelwydydd ac incwm misol net cyfartalog aelwydydd yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae incwm misol cyfartalog cleientiaid Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru tua £700 tra bo dyledion cyfartalog tua £11,000. Mae'r gymhareb dyled i incwm sy'n deillio o hynny, sef 16, yn cymharu â chymarebau o 14 yn Lloegr, 12 yn yr Alban, a 10 yng Ngogledd Iwerddon.[32]
- Mae nifer y problemau gyda dyledion sy'n cael eu cofnodi wedi bod yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, a chafwyd cynnydd o ddwy ran o dair yn nifer yr ymholiadau a gyflwynwyd i NACAB Cymru yn y pum mlynedd i 2002. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o chwarter ar lefel y DU.[33] Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod mewn perthynas ag ymholiadau gan ddefnyddwyr ynghylch credyd, sydd erbyn hyn yn rhoi cyfrif am ddwy ran o dair o'r holl ymholiadau.[34]
- Gall anawsterau ariannol, yn enwedig gorddyledrwydd, gael effaith niweidiol ar fywydau pobl. Gall pobl ddioddef pryder, iselder ysbryd, neu bwysau meddwl o ganlyniad.[35] Mae tua 60 y cant o'r bobl sy'n profi problemau gyda dyledion sy'n 'anodd i'w datrys' yn dweud eu bod wedi dioddef pwysau meddwl ac afiechyd yn gysylltiedig â hynny.[36] Gall gorddyledrwydd hefyd atal y rheiny sy'n dechrau gweithio, gall arwain at ddigartrefedd ac yn aml gall atgyfnerthu'r cylch amddifadedd.[37]

# Mynediad at gludiant

Mae cludiant yn amlwg yn chwarae rhan hanfodol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a lleihau difreintedd. Mae gan y rheiny sydd â lefel symudedd da – naill ai ar ffurf mynediad at gar neu gludiant cyhoeddus da – well mynediad at ofal iechyd, addysg a hyfforddiant, amrediad ehangach o gyfleoedd gwaith a chyfleusterau siopa a hamdden lleol.

O'u cyferbynnu, mae pobl sydd â mynediad gwael, y bobl fwyaf difreintiedig yn barod yn aml iawn, ymhell o gyrraedd y cyfleoedd a'r gwasanaethau hyn ac felly'n cael eu rhwystro rhag torri'r cylch difreintedd. Pan fo lefelau perchenogaeth car a chludiant cyhoeddus gwael yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd, daw cludiant i fod yn elfen greiddiol o'r patrwm eithrio cymdeithasol.

## Y dewis o ddangosyddion

Y dangosyddion a gyflwynir yma yw:

31A – gallu gwasanaethau bysiau lleol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion o ran gwasanaethau.

31B – perchenogaeth car yn ôl y math o aelwyd.

32A – perchenogaeth car a'r defnydd o gar i fynd i'r gwaith, fesul awdurdod lleol.

32B – y cysylltiad rhwng perchenogaeth car a statws gwaith.

## Uchafbwyntiau

Mae gwasanaethau bysiau lleol yn methu â diwallu anghenion y rhan fwyaf o aelwydydd o safbwynt cludiant. Pensiynwyr sengl a rhieni sengl sy'n debygol o fod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan mai hwy sydd â'r lefelau isaf o ran perchenogaeth car.

Mae cyfran uchel o aelwydydd sy'n gweithio ym mhob ardal yng Nghymru'n defnyddio car i fynd i'r gwaith. Mae lefel perchenogaeth car isel yn llawer mwy tebygol o adlewyrchu lefel incwm isel na lefel angen isel.

## Pwysigrwydd cludiant

Daeth cludiant i'r amlwg fel thema allweddol yn y grwpiau trafod a gynhaliwyd yn yr ardal wledig ac yn y Cymoedd. Yn y ddwy gymuned, roedd cysylltiadau cludiant yn cael eu hystyried yn rhwystr mawr i weithio. Nid oedd cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn cysylltu â'r lleoedd y lleolir swyddi ynddynt ar adegau sy'n hybu cyfranogiad o'r farchnad waith. Roedd aelodau o'r grwpiau'n teimlo ei bod yn amhosib cyrraedd rhai gweithleoedd heb gar gan nad oedd cludiant cyhoeddus, ar ffurf bysiau a threnau, yn rhedeg ar yr amseroedd cywir. Er enghraifft, nid oedd bysiau ar gael i gyrraedd canolfannau gweithio ym Mhort Talbot, Abertawe a Chastell-nedd erbyn amseroedd cychwyn confensiynol. Er mwyn dechrau am 9 o'r gloch yn Abertawe roedd yn rhaid i drigolion ddal bws am 7.20.

Caiff costau cludiant eu hystyried yn aml yn rhwystrol yng nghyd-destun cyflogau isel a gwaith rhan-amser, gan leihau'r fantais ariannol sy'n deillio o weithio i'r fath raddau fel nad yw gwaith yn ddewis realistig yn lle dibyniaeth ar fudd-daliadau. Serch hynny, yn dilyn ystyried enghreifftiau personol cyfranogwyr a'u sylwadau am y gymuned, ymddengys fod parodrwydd ac awydd i weithio yn yr economi brif-ffrwd ac ymddengys fod datrysiadau polisi'n bosib. Er enghraifft mae'r Tîm Gweithredu ar gyfer Swyddi yn ardal Maerdy wedi darparu cludiant pwrpasol i Ystad Ddiwydiannol Llantrisant (rhyw 18 milltir i ffwrdd) sy'n golygu bod hyd at 30 o bobl wedi dychwelyd i waith sefydlog.

Roedd anallu cludiant cyhoeddus i ddiwallu anghenion cludiant heblaw am y siwrne i'r gwaith hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig. I gymunedau'r Cymoedd, mae gofal sylfaenol gwael yn lleol a diffyg gwasanaeth y tu allan i'r oriau arferol yn golygu mwy o ddibyniaeth ar ymweliadau â'r ysbyty lleol. Serch hynny, mae taith o'r fath yn ystod y dydd yn golygu teithio ar ddau fws ar wahân – disgrifiwyd y profiad o fynd yno ac yn ôl fel 'gwibdaith hir'. Nid yw'r gwasanaeth bysiau lleol yn ddewis posib yn y nos, felly mae mynediad at ofal iechyd y tu allan i'r oriau arferol yn golygu talu £25 am dacsi.

Yn yr ardal wledig y cynhaliwyd grŵp trafod ynddi, roedd anawsterau gyda cludiant wedi'u plethu â phob pwnc arall a drafodwyd bron iawn. Mae'r effaith a nodir yn sgîl hyn yn amrywio o arferion gwael o ran maethiad (mae'r archfarchnad agosaf 10 milltir i ffwrdd ac nid oes ffrwythau ffres ar gael yn yr ardal) i fywydau cymdeithasol o ansawdd gwael, gyda phobl ifanc yn cael eu cyfyngu i'r gymuned agos o ran eu gweithgareddau hamdden.

Un dimensiwn pwysig i lefelau perchenogaeth car isel a chludiant cyhoeddus gwael yw'r ffordd y mae hyn yn effeithio'n bennaf ar fenywod. Mae menywod yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac yn llai tebygol o fod â thrwydded yrru.[38] Maent felly'n fwy tebygol o ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac o ddioddef effeithiau darpariaeth wael.

## Datblygu cynaliadwy?


Y casgliad anghyfforddus yw bod car yn angenrheidiol ym mhob rhan o Gymru bron iawn, ar gyfer gwaith a defnyddiau eraill. I rai, mae hyn yn golygu rhedeg car pan nad yw hynny'n ymarferol yn economaidd. I eraill, yn enwedig menywod, mae'n golygu gorfod dibynnu naill ai ar system cludiant cyhoeddus wael, neu ar dacsis, neu ar lifftiau gan ffrindiau neu berthnasau. Pan fo hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y dirywiad mewn gwasanaethau lleol, cau siopau a chyfleusterau lleol, colli swyddi, cyfleoedd gwaith sy'n gynyddol wasgaredig a gwaith sifftiau, daw'r diffyg cludiant hwn i fod yn bwysicach byth fel un o gydrannau eithrio cymdeithasol mewn rhannau o Gymru.

Eto mae cyfran y siwrneiau i'r gwaith yng Nghymru a wneir yn y car – 80 y cant – eisoes yn uwch nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr ac yn uwch nag yn yr Alban.[39] Mae hyn yn gwneud y cyfyng-gyngor yn fwy byth o gur pen: nid mater o gynyddu mynediad at gar ymhlith grwpiau incwm-isel yn unig ydyw ond mae hefyd yn fater o fynd ati ar yr un pryd i gael rhai o'r rheiny sy'n defnyddio car ar hyn o bryd i ddefnyddio mathau eraill o gludiant. Mae hon yn her strategol sy'n galw am lawer mwy nag ychydig o wasanaethau bysiau newydd neu well. Mae angen i gamau i hybu cynhwysiant cymdeithasol trwy well cludiant, gan gynnwys mwy o ddefnydd o geir gan aelwydydd ar incwm isel, gael eu cyflwyno ochr yn ochr â pholisïau datblygu cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd.

# Digonolrwydd cludiant cyhoeddus


Dangosydd 31

## Mae bysiau'n methu â chwrdd ag anghenion cludiant y mwyafrif o aelwydydd, boed ganddynt geir neu beidio.




**Ffynhonnell:** Arolwg Cyngor Defnyddwyr Cymru, Mawrth 2004, comisiynwyd oddi wrth Beaufort Research Ltd.

## Mae gan bron bob cwpl o oedran gweithio gar ond nid felly nifer o bobl sengl o oedran gweithio a'r rhan fwyaf o bensiynwyr sengl.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiad 2001

Dengys y graff cyntaf gyfran y bobl y mae'r bws yn ddigonol iddynt o ran diwallu amrediad o anghenion. Mae'r data wedi'i rannu er mwyn dangos y rheiny sydd â char a'r rheiny heb gar ar wahân. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ddweud, cyn belled ag yr oeddent hwy'n ymwybodol, a oedd y gwasanaeth bysiau lleol yn diwallu'u hanghenion ym mhob un o'r categorïau a nodir.

Y ffynhonnell yw Arolwg Cyngor Defnyddwyr Cymru ym mis Mawrth 2004, a gynhaliwyd gan Beaufort Research yng Nghaerdydd ar ran Cyngor Defnyddwyr Cymru.

Dengys yr ail graff gyfran yr aelwydydd nad oes ganddynt fynediad at gar na fan, a chaiff y data ei ddangos ar wahân ar gyfer pob prif fath o aelwyd.

Daw'r data ar gyfer yr ail graff o Gyfrifiad 2001.

Digonolrwydd ar y cyfan: ***canolig***. Mae Arolwg Omnibws Cymru'n arolwg sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi'i fwriadu i gynrychioli'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 16 neu'n hŷn ond mae'n seiliedig ar sampl bychan.

Dangosydd 31

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â digonolrwydd gwasanaethau bysiau

- Ymhlith yr aelwydydd heb gar, mae dwy ran o bump yn dweud bod y gwasanaeth bysiau lleol yn methu â diwallu'u hanghenion o ran teithio i ganol y dref neu'r siopau tra bod dwy ran o dair yn dweud nad yw'n diwallu'u hanghenion o ran teithio i'r ysbyty. Ymhlith yr aelwydydd a chanddynt gar, mae'r gyfran ym mhob achos yn uwch byth.
- Mae bron pob aelwyd – 90 y cant, a boed ganddynt gar neu beidio – yn dweud nad yw'r gwasanaeth bysiau'n diwallu'u hanghenion o ran teithio gyda'r nos neu ar ddydd Sul.
- Nid yw bysiau lleol yn diwallu'r angen am deithio yn ystod yr wythnos i'r mwyafrif yn unrhyw ran o Gymru. Roedd y gyfran uchaf a oedd o'r farn nad yw gwasanaethau bysiau lleol yn diwallu anghenion teithio yn ystod yr wythnos i'w chael yn y Cymoedd, sef 80 y cant. Ar yr un pryd, mae cyfran y bobl a chanddynt fynediad at gar bob dydd ar ei hisaf yn y Cymoedd, sef 55 y cant.[40]
- Roedd Arolwg Byw yng Nghymru 2004 yn cynnwys cwestiwn am fodlonrwydd ar gludiant cyhoeddus. Er bod lefelau bodlonrwydd lawer yn uwch nag a awgrymir gan Arolwg Cyngor Defnyddwyr Cymru yn 2004, roedd y patrwm daearyddol yn debyg: lefelau uchel o anfodlonrwydd mewn ardaloedd gwledig (Powys, Ceredigion, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin) ac mewn rhai ardaloedd yn y Cymoedd (Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent).[41]
- Menywod sy'n defnyddio bysiau fwyaf. Mae 56 y cant o fenywod yn defnyddio'r bysiau'n aml neu'n achlysurol, o'u cymharu â 39 y cant o ddynion.[42]
- Ymhlith dynion a menywod, bu gostyngiad yn y bodlonrwydd ar y gwasanaethau bysiau lleol rhwng 2002 a 2004.[43]
- Mae pobl yn aml yn defnyddio math o gludiant oherwydd diffyg dewisiadau eraill yn hytrach na ffafrio'r dewis hwnnw. Byddai'n well gan bedair rhan o bump o ddefnyddwyr y bysiau yng Nghymru deithio mewn car.[44]
- Mae costau gwasanaethau bysiau wedi codi 31 y cant dros yr 20 mlynedd ddiwethaf.[45] Ers 1991, mae'r gost am bob taith gan deithiwr wedi cynyddu fwy yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.[46]


## Yn ymwneud â grwpiau o bobl â mynediad isel at gar

- Mae cysylltiad agos rhwng lefelau perchenogaeth car ac oedran a nifer yr oedolion yn yr aelwydydd. Felly, mae llai nag un rhan o ddeg o gyplau o oedran gwaith heb gar, ac un rhan o bump yn unig o bensiynwyr sydd heb gar. O'u cyferbynnu, mae hanner y rhieni sengl a dwy ran o dair o bensiynwyr sengl heb gar. Mae'r mwyafrif llethol o'r ddau grŵp olaf hwn yn fenywod.
- Mae mynediad corfforol at gludiant cyhoeddus yn destun pryder mawr i bobl hŷn, a phobl ag anabledd neu afiechyd. Nid yw nifer o wasanaethau'n cael eu hystyried i fod yn rhai sydd wedi'u haddasu ar gyfer pobl â phroblemau symudedd.[47]

# Dibyniaeth ar gar ar gyfer gwaith

Dangosydd 32

## Er bod y mwyafrif llethol o aelwydydd sy'n gweithio ym mhobman yn defnyddio car i gyrraedd y gwaith, mae lefelau perchenogaeth ceir yn y Cymoedd lawer yn is nag mewn ardaloedd gwledig.




**Ffynhonnell:** Cyfrifiad 2001

## Nid oes gan ddwy ran o dair o'r rheiny sy'n ceisio gwaith fynediad at gar yn ddyddiol.




**Ffynhonnell:** Arolwg Cyngor Defnyddwyr Cymru, Mawrth 2004, a gomisiynwyd oddi wrth Beaufort Research Ltd

Dengys y graff cyntaf gyfran yr aelwydydd o oedran gweithio ym mhob awdurdod lleol heb gar, o'i chymharu â chyfran yr oedolion o oedran gweithio ym mhob awdurdod lleol sydd ag un aelod o'r aelwyd yn gyrru car i'r gwaith.

Ffynhonnell y data yw Cyfrifiad 2001.

Dengys yr ail graff gyfrannau'r bobl ym mhob categori cyflogaeth nad oes ganddynt fynediad bob dydd at gar.

Y ffynhonnell yw Arolwg Cyngor Defnyddwyr Cymru ym mis Mawrth 2004, a gynhaliwyd gan Beaufort Research o Gaerdydd ar ran Cyngor Defnyddwyr Cymru.

Digonolrwydd ar y cyfan: ***uchel***. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys yr holl boblogaeth ac roedd y cwestiwn a ofynnwyd yn ffeithiol.

Dangosydd 32

# Pwyntiau allweddol

## Yn ymwneud â cheir a gwaith

- Mae cyfran yr aelwydydd sy'n gweithio lle mae o leiaf un aelod yn gyrru car i'r gwaith yn uchel ym mhob ardal awdurdod lleol, gan amrywio o 73 y cant yng Nghaerdydd i 86 y cant yn Sir y Fflint. Mae'r gwahaniaeth bychan hwn yn awgrymu bod car yn cael ei ystyried yn bwysig iawn ar gyfer gwaith *ym mhob ardal* yng Nghymru.
- Er bod y defnydd o gar i fynd i'r gwaith fel arfer yn uwch mewn awdurdodau lleol yng nghefn gwlad mae rhai eithriadau, a'r mwyaf trawiadol yw Gwynedd (76 y cant) sydd yn agos at y gwaelod. Er bod y dinasoedd mawrion hefyd yn agos at waelod y raddfa, mae un ohonynt (Abertawe) yn dal i fod â chyfradd uwch na Cheredigion a Gwynedd. Felly nid yw'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig ar lefel awdurdodau lleol yn gwbl glir.
- Mae dwy ran o dair o'r bobl o oedran gweithio sy'n ddi-waith neu'n segur yn economaidd ond yn ceisio gwaith heb fynediad dyddiol at gar. O'u cymharu, un o bob wyth yn unig o'r rheiny sydd mewn swydd lawn-amser sydd heb fynediad dyddiol at gar.
- Ymhlith y rheiny sy'n gweithio rhan-amser, y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn fenywod, mae un rhan o dair heb fynediad dyddiol at gar tra bod gan ddwy ran o dair fynediad dyddiol at gar.

## Yn ymwneud â pherchenogaeth car

- Mae cyfran yr aelwydydd o oedran gweithio heb gar yn amrywio o 26 y cant ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent i 10 y cant yn Sir Fynwy a Phowys.
- Yn wahanol i'r defnydd o gar i fynd i'r gwaith, mae perchenogaeth car ymhlith aelwydydd o oedran gweithio fel arfer yn uwch mewn ardaloedd gwledig, er bod Gwynedd yn eithriad unwaith eto. Mae lefelau perchenogaeth car ar eu hisaf yn y dinasoedd mawrion ac yn y Cymoedd.
- Un mesur arall o berchenogaeth car yw nifer cyfartalog y ceir y mae pob aelwyd o oedran gweithio'n berchen arno. Mae hyn yn amrywio o 1.04 ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent i 1.49 ym Mhowys ac 1.55 yn Sir Fynwy.[48] Mae'r dinasoedd mawrion yn agos at ben isaf y raddfa – 1.15 yng Nghaerdydd a Chasnewydd ac 1.20 yn Abertawe. Heblaw am Ferthyr Tudful a Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd a Phort Talbot yw'r unig ddwy ardal arall lle mae nifer cyfartalog y ceir sydd gan yr aelwydydd gyn ised â'r, neu'n is na'r, dinasoedd.
- Y cwestiwn hollbwysig cyn belled ag y mae'r Cymoedd yn y cwestiwn yw i ba raddau y mae'r lefelau is o ran perchenogaeth car i'w priodoli i lai o angen am geir ac i ba raddau y maent i'w priodoli i incwm is. Mae'n anodd credu bod yr angen am gar yn is yn y Cymoedd nag yn y dinasoedd mawrion. Mae hyn, ar y cyd â chanfyddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru mai yn y Cymoedd y mae'r gyfran uchaf o bobl sy'n dweud nad oedd eu hanghenion teithio o ddydd i ddydd yn cael eu diwallu gan y gwasanaeth bysiau, yn awgrymu mai incwm is, yn hytrach na llai o angen, yw'r ffactor allweddol.

# Nodiadau

**1 Incwm**

1 Nid yw hyn yr un fath ag incwm cyfartalog (cymedrig). Er enghraifft, os byddai incwm yr aelwyd â'r incwm uchaf yn dyblu'n sydyn, byddai'r incwm cyfartalog (cymedrig) yn codi o ganlyniad. Byddai'r incwm canolrifol, fodd bynnag, yn aros yr un fath.
2 Gweler, er enghraifft, *Low cost but acceptable: a minimum income standard for working households with children in Swansea, South Wales,* Unison Wales, 2002.
3 Gweler www.poverty.org.uk.
4 Defnyddir y mesur hwn, yn hytrach na'r mesur culach sy'n cynnwys Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith yn unig, am fod y rheiny sy'n derbyn Budd-dal Analluogrwydd a Lwfans Anabledd Difrifol hefyd allan o waith ac mae gan nifer ohonynt incwm isel.

**2 Addysg**

1 Gwybodaeth a ddarparwyd gan y Fischer Family Trust, yn *Narrowing the gap in performance of schools*, Dogfen Wybodaeth y DfTE Rhif: 029-02, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.
*2 Narrowing the gap in performance of schools*, Dogfen Wybodaeth y DfTE Rhif: 029-02, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.
3 Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004 (gohebiaeth bersonol). Mae amrywiaethau mawr rhwng awdurdodau lleol o ran cyfran y plant mewn ysgolion cynradd a asesir mewn Cymraeg yn CA2. Mae gan rannau o Orllewin Cymru gyfrannau uchel (Gwynedd 98 y cant, Ynys Môn 89 y cant, Ceredigion 70 y cant a Sir Gaerfyrddin 40 y cant), tra bod gan rannau o Dde Cymru gyfrannau isel iawn (Sir Fynwy 1 y cant, Casnewydd 3 y cant, Torfaen 3 y cant, Blaenau Gwent 4 y cant). Mae'r gweddill i gyd yn gymharol isel (rhwng 4 y cant a 18 y cant).
4 Gweler www.poverty.org.uk
5 Tablau Perfformiad y DfES ac Ystadegau Addysg Cymru, 2004. Ar gyfer dadansoddiad yr NPI gweler www.poverty.org.uk
6 *Y wlad sy'n dysgu – dogfen ymbaratoi: rhaglen addysg a dysgu gydol oes gynhwysfawr hyd at 2010 yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001.
7 *Y wlad sy'n dysgu – dogfen ymbaratoi: rhaglen addysg a dysgu gydol oes gynhwysfawr hyd at 2010 yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001.
8 *Baseline data and intelligence: national report,* CC-ELWa, 2004; Rees, G. et al., *Post compulsory education and training: a regional study,* Learning Society Programme, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 1999.
9 Gorard, S. et al., 'Patterns of participation in lifelong learning: do families make a difference?' *British educational research journal*, 25, 1999; Gorard, S. *Lifelong learning trajectories in Wales: results of the NIACE adult learners' survey 2002,* Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, 2003; a Rees, G. et al., *Post compulsory education and training: a regional study,* Learning Society Programme, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 1999.
10 Arolwg o'r Gweithlu, 2003 (cyfuniad o chwarteri). Gweler hefyd *Hynt disgyblion o ysgolion yng Nghymru*, Gyrfa Cymru, 2004.
11 *Young participation in higher education*, HEFCE, 2005. Mae'r data'n cynnwys y cyfartaledd ar gyfer 1997 i 2000. Gweler hefyd www.poverty.org.
12 Mae 'pob math o ddysgu i oedolion' yn golygu gweithgareddau dysgu anffurfiol a ffurfiol. Gofynnwyd i gyfranogwyr o'r arolwg a oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau dysgu o fewn yr amser a nodir. Dyma ddysgu ar ei ffurf ehangaf. Gall dysgu olygu 'ymarfer, astudio, neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu derbyn addysg, cael cyfarwyddyd neu hyfforddiant...Gellir galw dysgu'n addysg neu hyfforddiant. [Gellir ei wneud] yn rheolaidd...neu am gyfnod byr. Gall fod yn llawn-amser, rhan-amser, gellir ei wneud gartref, neu yn rhywle arall, megis mewn coleg. Nid oes rhaid i ddysgu arwain at gymhwyster' (*Symud ymlaen: arolwg o gyfranogiad oedolion o ddysgu yng Nghymru*, NIACE Dysgu Cymru, 2003).
13 Arolwg o gyfranogiad oedolion o ddysgu yng Nghymru, NIACE Dysgu Cymru, 2002 a 2003.
14 Arolwg o gyfranogiad oedolion o ddysgu yng Nghymru, NIACE Dysgu Cymru, 2002 a 2003.
15 *Dadansoddiad rhanbarthol o gyfranogiad o addysg bellach a hyfforddiant yng Nghymru, 1999/2000 a 2000/2001*, ELWa, 2003.
16 *Ystadegau addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant yng Nghymru*, 2002/03, ELWa, 2004.
17 *Ystadegau addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant yng Nghymru*, 2002/03, ELWa, 2004.
18 *Ystadegau addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant yng Nghymru*, 2002/03, ELWa, 2004.

19 Datganiadau data am Addysg Barhaus i Oedolion ar gyfer Gwasanaethau Data a Dadansoddiadol ELWa, 2001/02 a 2002/03.
20 Bydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n cael ei gasglu gan ELWa yn rhoi darlun cynhwysfawr o ddarpariaeth gan awdurdodau lleol a ariennir gan ELWa yn gynnar yn 2006.
21 Arolwg o gyfranogiad oedolion o ddysgu yng Nghymru, NIACE Dysgu Cymru, 2002 a 2003.
22 Arolwg o gyfranogiad oedolion o ddysgu yng Nghymru, NIACE Dysgu Cymru, 2002 a 2003.

**3 Gwaith**

1 Sylwer felly nad y 'gyfradd diweithdra' yw hon fel a ddyfynnir fel arfer, gan fod honno'n cael ei mynegi fel cyfran o'r boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd yn unig.
2 Sullivan, M. et al., *How does race and gender influence wealth and well-being in Wales?* Y Ganolfan Genedlaethol dros Bolisi Cyhoeddus, Prifysgol Abertawe, 2005.
3 Sullivan, M. et al., *How does race and gender influence wealth and well-being in Wales?* Y Ganolfan Genedlaethol dros Bolisi Cyhoeddus, Prifysgol Abertawe, 2005.
4 Bertoud, R. (2003). Yn Blackaby, D. et al., *Identifying barriers to economic activity in Wales*, Prifysgol Abertawe, 2003.
5 *The apprentice: making genuine career choice a reality*, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru, 2005. Gweler hefyd Griffith-Jones, Y. *Equality of opportunity in modern apprenticeships in Wales*, Chwarae Teg, Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005.
6 Mae adroddiad diweddar (Beatty, C., Fothergill, S., a Powell, R., *Twenty years on: has the economy of the coalfields recovered?* Y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol, Prifysgol Sheffield Hallam, 2005) yn nodi mai cyn-ardaloedd glofaol De Cymru sy'n profi'r adferiad mwyaf araf o blith unrhyw ardaloedd cyffelyb yn y DU, ac mai ardaloedd glofaol yng Nghanolbarth Lloegr a Swydd Efrog sy'n profi'r adferiad cyflymaf. Er enghraifft, ers 1981 mae ardaloedd glofaol Swydd Efrog wedi profi cynnydd net mewn swyddi o 55,000, a 5,000 yw'r ffigwr cyfatebol yn ardaloedd glofaol De Cymru.
7 Data a ddarparwyd gan BMRB, yn seiliedig ar Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol Cymru 2005. Nid oes ffigyrau manwl ar gyfer awdurdodau lleol ar gael.
8 *Cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.
9 *Geiriau'n galw – rhifau'n cyfri. Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella llythrennedd a rhifedd sylfaenol yng Nghymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.
10 Coleman, N. Et al., *National evaluation of lone parent personal adviser meetings: findings from a longtitudinal survey of clients*, Ymchwil Gymdeithasol gan y BMRB a baratowyd ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2003.
11 *'Chwyldro ym maes gofal plant' yng Nghymru*, Sefydliad Bevan, 2005.
12 *Making the case for care: a scoping study on the impact of care provision on the Welsh economy*, Chwarae Teg, Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.
13 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2003). Yn *Codi cyfraddau gweithgarwch economaidd*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.
14 Mae hyn yn tybio mai £134 yr wythnos yw'r gost am le mewn meithrinfa i blentyn dwy oed (Ymddiriedolaeth Gofal Dydd 2004). Yn *Ymgynghoriad ar adroddiad interim y gweithgor gofal plant*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.
15 Gan dybio bod costau'n £55 yr wythnos mewn rhent, £15 yr wythnos mewn treth gyngor a dim costau gofal plant.
16 Hynny yw, yr holl swyddi â thâl isel yn y diwydiant gweithgynhyrchu a hanner y rheiny yn y sectorau eraill a restrir.
17 Blackaby, D. et al., *SMEs and occupational segregation in Wales*, Prifysgol Cymru Abertawe, 2005.
18 *The apprentice: making genuine career choice a reality*, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru, 2005.
19 *The apprentice: making genuine career choice a reality*, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru, 2005.
20 *The apprentice: making genuine career choice a reality*, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru, 2005.
21 *The apprentice: making genuine career choice a reality*, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru, 2005.
22 Am wybodaeth ynglŷn â gweithredu SCE yn y DU, gweler www.moreandbetterjobs.info.
23 White a Forth (1998). Yn Blackaby, D. et al., *Identifying barriers to economic activity in Wales*, Prifysgol Abertawe, 2003.
24 Ashworth a Liu (2001). Yn Blackaby, D. et al., *Identifying barriers to economic activity in Wales*, Prifysgol Abertawe, 2003.
25 Blackaby, D. et al., *Identifying barriers to economic activity in Wales*, Prifysgol Abertawe, 2003.
26 Gweler www.poverty.org.uk.

**4 Iechyd**

1 *Amddifadedd ac Iechyd*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004; *Proffil o iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004; *Targedu Afiechyd: Adroddiad yr Athro Townsend ar ran Grŵp Llywio Cenedlaethol y Cynulliad ar Ddyrannu Adnoddau'r GIG* (Cyf 1), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001 a Gordon, D. et al., *Independent report of the research team* (Cyf 2), Prifysgol Bryste, 2002; Williams, H. et al., *Health inequalities, deprivation and primary care services in Wales: geographical perspectives*, Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, 2002.

2 *Proffil o iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

3 *Housing and the asthma epidemic in Wales*, Shelter Cymru, 2004; Henrion, E. *Health and housing NHS handbook*, 1998/99. Yn *Housing and homelessness – on the health agenda in Wales?* Shelter Cymru, 2003; Russel, R. et al., *Children's health in asthma – research to improve status by modifying acommodation*, Prifysgol Bangor, 2003.

4 *Amddifadedd ac Iechyd*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

5 *Iechyd ac amgylchiadau cymdeithasol plant yng Nghymru: adroddiad mamolaeth*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

6 *Teenage pregnancy: an overview of the research evidence*, Asiantaeth Datblygu Iechyd, 2002.

7 *Teenage pregnancy: an overview of the research evidence*, Asiantaeth Datblygu Iechyd, 2002.

8 Cyfrifiad, 2001. Yn: *Proffil o iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004; a *Young Participation in higher education*, HEFCE, 2005.

9 *Fframwaith strategol ar gyfer hybu iechyd rhyw yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000.

10 *Iechyd ac amgylchiadau cymdeithasol plant yng Nghymru: adroddiad mamolaeth*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

11 *Iechyd ac amgylchiadau cymdeithasol plant yng Nghymru: adroddiad mamolaeth*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

12 Ystadegau marwolaethau plant, babanod a marwoldeb ameni, DH3, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

13 *Amddifadedd ac Iechyd*, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2004.

14 Gweler www.poverty.org.uk.

15 *Children's dental health in Wales*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2003.

16 Gweler www.poverty.org.uk.

17 *Fframwaith strategol ar gyfer hybu iechyd rhyw yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000.

18 Data heb ei gyhoeddi o Ganolfan Wybodaeth y DWP.

19 Arolwg Panel Aelwydydd Prydain, data ar gyfer 2001 i 2003.

20 Arolwg Panel Aelwydydd Prydain, data ar gyfer 2001 i 2003.

21 Arolwg Panel Aelwydydd Prydain, data ar gyfer 2001 i 2003.

22 Senior, M. et al., *Urban-rural mortality differentials: controlling for material deprivation, Social Science and Medicine*, Cyf 51 289-305, 2000. Mae ardaloedd sydd 'fwy ym mherfeddion cefn gwlad' yn wardiau sydd â mwy na 10 y cant yn cael eu cyflogi yn y diwydiant amaeth, y diwydiant pysgota a'r diwydiant coedwigaeth.

23 Williams, H. et al., *Health inequalities, deprivation and primary care services in Wales: geographical perspectives*, Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, 2002; *Report of clinical governance review at Gwent Health Authority and its Local Health Groups*, Y Comisiwn Gwella Iechyd, 2001.

24 Williams, H. et al., *Health inequalities, deprivation and primary care services in Wales: geographical perspectives*, Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, 2002.

25 *A focus on general practice in England*, Y Comisiwn Archwilio, 2002.

26 Gordon, D. et al., *Independent report of the research team* (Cyf 2), Prifysgol Bryste, 2002.

27 Williams, H. et al., *Health inequalities, deprivation and primary care services in Wales: geographical perspectives*, Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, 2002.

28 Mae'r 'rheol gofal croes' wedi cael ei harchwilio'n fwy trwyadl yng nghyd-destun Cymru. Gweler y ddau adroddiad o'r Adolygiad i Ddyrannu Adnoddau'r GIG - *Targedu Afiechyd: Adroddiad yr Athro Townsend ar ran Grŵp Llywio Cenedlaethol y Cynulliad ar Ddyrannu Adnoddau'r GIG* (Cyf 1), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001 a Gordon, D. et al., *Independent report of the research team* (Cyf 2), Prifysgol Bryste, 2002; Williams, H. et al', 'On the quality variation of primary health care services: a test of the "inverse care law" for general practice', *Environment and Planning A*, Cyf 36, 2004.

29 Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru: Ystadegau'n ymwneud â gwariant ar wasanaethau cymdeithasol.

30 Williams, H. et al., *Health inequalities, deprivation and primary care services in Wales: geographical perspectives*, Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, 2002.

31 *Meddygon teulu yng Nghymru*, Datganiad Ystadegol Cyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.

32 *Healthcare in a rural setting: recruitment and retention of healthcare professionals*, Cymdeithas Feddygol Prydain, 2005.
33 *Meddygon teulu yng Nghymru*, Datganiad Ystadegol Cyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.
34 Burr, M.L. et al., 'Social deprivation and asthma', *Respiratory Medicine*, Rhif 91: 603-8. Yn Gordon, D. et al., *Independent report of the research team* (Cyf 2), Prifysgol Bryste, 2002.

**5 Gwasanaethau**

1 Tabl 1.3, Ystadegau Tai Cymru, 2004.
2 Holmans, A., *Who's counting? Demand for homes in Wales 1998-2016*, Cambridge Centre for Housing and Planning Research, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi, 2003.
3 Wilcox, S., *Home ownership affordability in Wales*, Y Ganolfan Polisi Tai, 2004.
4 *No place like home...homelessness in Wales*, Y Sefydliad Tai Siartredig, Cymru, 2004, ac adroddiad Cynhadledd Adolygu Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol Cymru, Shelter Cymru, 2005.
5 *First Contact*, Shelter Cymru, 2003 a *First contact revisitied*, Shelter Cymru, 2005.
6 Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001.
7 Tabl 7.1, Ystadegau Tai Cymru, 2004.
8 *Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r ffurflen ystadegau digartrefedd WHO 12 yn 2004*, Ystadegau Tai Cymru, 2004.
9 Gweler www.poverty.org.uk.
10 Datganiadau ystadegol ar ddigartrefedd statudol, ystadegau digartrefedd ODPM a Gweithrediaeth yr Alban.
11 Tabl 8, Ystadegau Tai Cymru, 2004. Mae'r ffigyrau'n cyfeirio at ddiwedd 2004.
12 *Homelessness and B&B – the case for legislation in Wales*, Shelter Cymru a Cyswllt Digartref Cymru, 2004.
13 Deddfwriaeth arfaethedig yng nghyswllt y defnydd o lety gwely a brecwast, SJR-05-05 (t.6) Atodiad 1, Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
14 Owen, D., Robinson, V. a Gale, R. *Profile of the housing and socio-economic circumstances of black and minority ethnic people in Wales*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.
15 Ystadegau Tai Cymru, 2004.
16 Lupton, R., *Poverty street: The dynamics of neighbourhood decline and renewal.* The Policy Press, 2004.
17 *Tlodi tanwydd yng Nghymru*, Adroddiad Ymchwil i Dai HRR 3/05, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. Caiff tlodi tanwydd ei ddiffinio fel aelwydydd ac arnynt angen gwario dros 10 y cant o'u hincwm net llawn (gan gynnwys budd-daliadau) i wresogi'u tai yn ddigonol a thalu'u costau tanwydd arferol eraill. Mae'r ffigyrau'n ymwneud â 1997/98.
18 Gweler www.poverty.org.uk.
19 *Tlodi tanwydd yng Nghymru*, Adroddiad Ymchwil i Dai HRR 3/05, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. Mae'r ffigyrau'n ymwneud â 1997/98.
20 *Atodiad 1.A Ffitrwydd ac Anffitrwydd*, yr Arolwg o Gyflwr Tai Cymru, 1998. Mae elfennau eraill o ran ffitrwydd yn cynnwys bod â chyflenwad dŵr digonol trwy bibell, bod â chyfleusterau boddhaol ar gyfer paratoi a choginio bwyd, bod â chyfleusterau golchi digonol, a chyfleusterau draenio digonol.
21 Arolwg o Gyflwr Tai Cymru, 1998 a Byw yng Nghymru, 2004.
22 Households Below Average Income, DWP, 2003/04. Gweler hefyd Burrows, R. a Wilcox, S. *Perchentyaeth gost-isel yng Nghymru*, y Ganolfan Polisi Tai, 2004.
23 Owen, D., Robinson, V. a Gale, R. *Profile of the housing and socio-economic circumstances of black and minority ethnic people in Wales*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. Datblygwyd y mynegai amddifadedd tai cyfansawdd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae'n seiliedig ar ddata o Gyfrifiad 2001. Ystyrir fod aelwyd yn profi amddifadedd tai os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol: gorlawn (safon feddiannaeth o -1 neu lai); annedd a rennir heb fod yr unig aelwyd sy'n defnyddio bath/cawod a thŷ bach; neu ddiffyg gwresogi canolog.
24 Whyley, C. *Credit use in Wales*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2003; Edlin, C. *Borrowing and debt in Wales: a preliminary investigation*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2001.
25 Whyley, C. *Credit use in Wales*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2003.
26 Edlin, C. *Borrowing and debt in Wales: a preliminary investigation*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2001; *Borrowing and debt in deprived communities: indications from five areas in Greater Gwent*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2002.
27 *Submission by UNIFI to the Welsh Affairs Committee in response to the inquiry into social exclusion in Wales*, UNIFI, 2000.
28 Darparwyd gwybodaeth am gau banciau gan AMICUS ar gyfer y *Daily Mirror*. Maes o law, bu adroddiad yn y *Mail on Sunday* am gau canghennau yng Nghymru (22 Mai 2005).

29 *Submission by UNIFI to the Welsh Affairs Committee in response to the inquiry into social exclusion in Wales*, UNIFI, 2000.
30 Darparwyd y ffigwr gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, 2005.
31 Gweler www.poverty.org.uk.
32 Profiad cleientiaid CAB o fod mewn dyled, Cyngor Ar Bopeth, 2003.
33 NACAB Cymru, 2001. Yn *Borrowing and debt in deprived communities: indications from five areas in Greater Gwent*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2002.
34 Profiad cleientiaid CAB o fod mewn dyled, Cyngor Ar Bopeth, 2003.
35 Profiad cleientiaid CAB o fod mewn dyled, Cyngor Ar Bopeth, 2003.
36 *Causes of action: civil law and social justice*, Y Ganolfan Ymchwil i Wasanaethau Cyfreithiol, 2004.
37 *Adroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.
38 58 y cant o fenywod o'u cymharu ag 82 y cant o ddynion yng Nghymru, Ystadegau Cludiant Cymru, 2004.
39 Tabl 1.8, Transport Statistics Great Britain, Yr Adran Drafnidiaeth, 2004.
40 Arolwg Omnibws Cymru, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2004.
41 Byw yng Nghymru, 2004 ac Arolwg Omnibws Cymru, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2004.
42 Arolwg Omnibws Cymru, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2004. Yn *Y Rhywiau a theithio ar fws yng Nghymru – adroddiad gan Gyngor Defnyddwyr Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru* (ar fin ymddangos), 2005.
44 Teithio ar fws yng Nghymru, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2001.
45 Y Comisiwn dros Gludiant Integredig, 2003. Yn *Pobl heb geir*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2004.
46 Tabl 8.4, Ystadegau Cludiant Cymru, 2004.
47 *Pobl heb geir*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2004.
48 Cyfrifiad 2001.